# Materion o Bwys i'r Pumed Cynulliad



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cysylltwch â ni


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Ymholiadau.Ymchwil@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

# Materion o Bwys i'r Pumed Cynulliad

Golygyddion: **Elfyn Henderson a Rhys Iorwerth**

Gweithgor: **Amy Clifton, Chloe Corbyn, Christian Tipples, Michael Dauncey, Robin Wilkinson, Stephen Boyce, Tom Douch**

Cyfranwyr: **Alys Thomas, Amy Clifton, Andrew Minnis, Anne Thomas, Ben Stokes, Chloe Corbyn, Christian Tipples, David Millett, Elfyn Henderson, Gareth Thomas, Gregg Jones, Hannah Johnson, Helen Jones, Jonathan Baxter, Joseph Champion, Megan Jones, Michael Dauncey, Nia Seaton, Owen Holzinger, Paul Worthington, Philippa Watkins, Rebekah James, Rhys Iorwerth, Robin Wilkinson, Sam Jones, Siân Hughes, Siân Thomas, Stephen Boyce, Tom Douch**

**Agraffwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Rhagair

*Croeso i'r Pumed Cynulliad ac i'r cyhoeddiad hwn a baratowyd yn arbennig gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.*



Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw hi i Aelodau fod gwybodaeth gywir, ddiduedd ac awdurdodol ar gael y gallant ymddiried ynddi. Ar sail ein profiad o weithio gydag Aelodau dros y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf, rydym wedi datblygu ystod o wasanaethau arbenigol i ddiwallu'r anghenion gwybodaeth hyn. Mae ein tîm o staff ymchwil a staff y llyfrgell yn arbenigwyr yn eu meysydd polisi ac mewn datganoli, ac maent yma i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau mewn cyd-destun gwleidyddol sy'n symud yn gyflym.

Mae yn y cyhoeddiad hwn ddetholiad o faterion sy'n debygol o fod o bwys i Aelodau yn y Pumed Cynulliad: o'r diwydiant dur i ddyfodol deddfu yng Nghymru. Mae'n dangos y math o waith y gallwn ei wneud ar eich rhan – dadansoddi arbenigol gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau mewn fformat cryno a darllenadwy. Gobeithio ei fod yn rhoi cipolwg o'r hyn y gallwn ei wneud, ond nid dyma'r cyfan.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, atebodd ein gwasanaeth fwy nag 11,500 o ymholiadau cyfrinachol gan Aelodau a'u staff. Bu i ni hefyd greu papurau briffio manwl a rhoi cyngor i bwyllgorau'r Cynulliad; cefnogi Aelodau unigol a oedd yn datblygu cyfreithiau newydd; a chyhoeddi amrywiaeth eang o bapurau briffio amserol gan ddefnyddio ffeithluniau a mapiau ar flog y Gwasanaeth Ymchwil, **Pigion**.

Rydym bob amser yn rhoi gwasanaeth diduedd ac annibynnol, ac rydym yn trin ceisiadau gan Aelodau o bob plaid yn wrthrychol ac yn gyfrinachol, gan roi'r un sylw i bob un.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn ystod y Pumed Cynulliad.

**Kathryn Potter**
Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


Cyflwyno'r Gwasanaeth Ymchwil ... 1

Cyfeirlyfr o arbenigwyr ... 4

**Y cyfansoddiad ... 10**

Cymru a refferendwm yr UE ... 11

Setliad datganoli newydd ... 14

Awdurdodaeth benodol i Gymru ... 17

Cymru a Bil Undebau Llafur y DU ... 19

**Cyllid a llywodraethu ... 21**

Pwerau trethu i Gymru ... 22

Dyfodol trefn gyllido Cymru ... 25

Diwygio llywodraeth leol ... 28

Cyllido llywodraeth leol ... 31

Y comisiynwyr a'r ombwdsmon ... 34

**Iechyd a gofal cymdeithasol ... 36**

Tegwch wrth roi meddyginiaethau ... 37

Newid gwasanaethau mewn ysbytai ... 39

Gweithlu cynaliadwy yn y GIG ... 42

Dyfodol gofal cymdeithasol ... 44

Cysgod mawr dementia ... 47

Mynd i'r afael â'r epidemig gordewdra ... 50

**Addysg, plant a phobl ifanc ... 53**

Gwella safonau mewn ysgolion ... 54

Diwygio'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon ... 57

Cyllido addysg uwch ... 60

Diwygio'r system anghenion addysgol arbennig ... 62

Blaenoriaethu plant a phobl ifanc ... 64

**Yr economi a thrafnidiaeth ... 67**

Dyfodol y diwydiant dur ... 68

Ffordd liniaru'r M4 ... 71

Banc datblygu i fusnesau ... 74

Twf yn y de-ddwyrain ... 77

Trafnidiaeth yn y gogledd ... 79

Dyfodol teithio ar y rheilffyrdd ... 81

**Tlodi, cydraddoldeb a thai** ........ **84**
Gwaith, lles a thlodi ........ 85
Dyledion ac allgáu ariannol ........ 88
Cyflwr hawliau dynol a chydraddoldeb ........ 92
Cynyddu'r cyflenwad tai ........ 94
**Yr amgylchedd a byd amaeth** ........ **97**
Newid yn yr hinsawdd ........ 98
Y Polisi Amaethyddol Cyffredin ........ 101
Rheoli'r perygl o lifogydd ........ 104
Dyfodol ynni Cymru ........ 107
Dolenni cydiol deddfwriaeth newydd ........ 109
Cynllun morol i Gymru ........ 111
Mynd i'r afael â TB buchol ........ 113
**Diwylliant a'r Gymraeg** ........ **115**
Cymru ar y BBC ........ 116
Hyrwyddo'r Gymraeg ........ 118

# Cyflwyno'r Gwasanaeth Ymchwil

Rydym yn dîm diduedd o arbenigwyr sy'n cynnig gwasanaeth cyfrinachol ym maes ymchwil, dadansoddi a gwybodaeth, a’r cyfan wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae gennym wybodaeth helaeth am bolisïau a deddfwriaeth yng Nghymru, a phrofiad dihafal wrth ddeall sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon i helpu Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Fel Aelod, gallwch chi a'ch staff gysylltu â ni am gymorth i wneud eich gwaith yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Gallwn eich helpu hefyd i ddelio â gwaith yn eich etholaeth.

## Sut allwn ni helpu?

– **Gwasanaeth ymholiadau**: gallwn roi gwybodaeth wedi'i theilwra wrth ymateb i’ch cwestiynau cyfrinachol am eich gwaith mewn pwyllgorau, gwaith y Cyfarfod Llawn, deddfwriaeth a gwaith yn eich etholaeth.

– **Gwybodaeth a chymorth etholaethol**: mae gennym amrywiaeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys taflenni ffeithiau am etholaethau, canllawiau ariannu, proffiliau ystadegol am etholaethau, rhestrau o gysylltiadau defnyddiol ac amrywiaeth o adnoddau ar-lein.

– **Gwasanaethau rhagweithiol**: mae gennym flog, sef **Pigion**, lle rydym yn cyhoeddi erthyglau cyfoes a briffiau ymchwil sy'n berthnasol i fusnes y Cynulliad. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau monitro ar-lein ar bynciau fel busnes San Steffan a datblygiadau cyfansoddiadol.

– **Cymorth i'r pwyllgorau**: rydym yn creu briffiau arbenigol i bob pwyllgor. Mae papurau briffio manwl i unigolion a chymorth i ddatblygu cwestiynau mewn meysydd penodol ar gael hefyd.

– **Yr Uned Craffu Ariannol**: mae'r uned hon yn rhoi cyngor am gyllid a chyllidebau'r Cynulliad, trethu, a chael gafael ar ystadegau a'u dehongli.

– **Cymorth cyfansoddiadol a deddfwriaethol**: rydym yn cynnig cyngor am y broses ddeddfu yng Nghymru a'r DU, a'r pwerau a'r prosesau datganoledig. Gallwn eich helpu i lunio cynigion ar gyfer deddfwriaeth a'ch cynorthwyo drwy bob cyfnod o'r broses o gyflwyno Bil Aelod.

– **Gwasanaethau mapio**: rydym yn cynhyrchu mapiau rhyngweithiol ar-lein sy'n eich galluogi i gymharu gwahanol etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad, a mapiau sefydlog o etholaethau, rhanbarthau ac ardaloedd eraill.

– **Y llyfrgell a gwasanaethau gwybodaeth**: ar drydydd llawr Tŷ Hywel, mae'r llyfrgell yn ystafell ddarllen gyfforddus lle gallwch ddod o hyd i gyhoeddiadau, papurau newydd, cyfnodolion ac adnoddau ar-lein.

## Y llyfrgell

Mae gennym wasanaeth cyfeirio a gwybodaeth o ansawdd uchel mewn ystafell ddarllen gyfforddus ac ynddi gyfrifiaduron rhwydwaith a chyfrifiaduron ar wahân. Yno hefyd mae:

– cyhoeddiadau swyddogol, cyfeirlyfrau, papurau newydd a chyfnodolion;

– adroddiadau pwyllgorau, dogfennau'r Cyfarfod Llawn a phapurau briffio'r Gwasanaeth Ymchwil;

– adnoddau ar-lein sy'n cynnwys cronfeydd data arbenigol, papurau newydd a chyfnodolion; a

– chatalog llyfrgell sy'n cynnwys lincs i destunau llawn.

Os nad oes gennym gyhoeddiad, gallwn fel arfer ei brynu neu ei fenthyg gan lyfrgell arall. Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer adnoddau newydd.

Mae ein staff arbenigol ar gael i'ch helpu:

Dydd Llun – Dydd Iau 08.30 - 17.00

Dydd Gwener 08.30 - 16.00

Mae'r llyfrgell ar agor tan 18.00 yn ystod yr wythnos i ddarllen ac astudio, gyda mynediad â phàs y tu allan i'r oriau hynny.

## Pa wasanaethau monitro sydd gennym?

Gall y llyfrgell eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy dudalennau ar y rhyngrwyd am y canlynol:

– **Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol:** hynt y cynigion sy'n nodi a yw'r Cynulliad yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i Senedd y DU ddeddfu ar faterion sydd wedi eu datganoli.

– **Datblygiadau cyfansoddiadol:** rhestr o ddogfennau a thrafodion o bwys am ddatblygiad datganoli a'r cyfansoddiad yng Nghymru.

– **Comisiwn Silk a *Deddf Cymru 2014*:** rhestr o ddogfennau a thrafodion pwysig yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a *Deddf Cymru 2014* a ddaeth yn sgil hynny.

– **Digwyddiadau pwysig yn natblygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** amserlen sy'n dangos y digwyddiadau pwysig wrth i'r Cynulliad ddatblygu.

– **Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli yng Nghymru:** llyfryddiaeth sy'n casglu ynghyd y dogfennau pwysicaf yn hanes esblygiad y Cynulliad a datganoli yng Nghymru.

– Rydym yn cynnig gwasanaeth negeseuon e-bost wythnosol sy'n rhoi gwybodaeth am:

  – uchafbwyntiau busnes y Cynulliad yn yr wythnos i ddod;

  – busnes San Steffan sydd fwyaf perthnasol i Gymru; a

  – chyhoeddiadau newydd sy'n berthnasol i waith y Cynulliad.

## Sut allwch chi ddefnyddio'r gwasanaeth?

– Ffoniwch un o'n harbenigwyr pwnc yn y cyfeirlyfr dros y dudalen neu ein llinell ymholiadau cyffredinol: 0300 200 6328;

– Anfonwch e-bost at un o'n harbenigwyr pwnc yn y cyfeirlyfr neu anfonwch gais at **Ymholiadau.Ymchwil@Cynulliad.Cymru**;

– Galwch heibio'r llyfrgell ar y trydydd llawr a siarad ag un o'n tîm llyfrgell;

– Cofrestrwch ar ein blog, **Pigion,** i gael hysbysiadau e-bost am ein herthyglau a'm cyhoeddiadau diweddaraf;

– Ewch i'n tudalennau ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd i gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am etholaethau, canllawiau pellach, papurau briffio a gwybodaeth am y gwasanaeth;

– Trefnwch gyfarfod i chi neu eich staff gydag un o'n harbenigwyr pwnc neu Bennaeth y Gwasanaeth i drafod sut allwn ni eich helpu; a

– Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Mae rhagor o wybodaeth am ein safonau a'r hyn y gall ein gwasanaeth ei gynnig ar gael yn ein Datganiad Safonau Gwasanaeth.

# Cyfeirlyfr o arbenigwyr

- Y Cynulliad a’r cyfansoddiad
- Yr economi, cymunedau a llywodraeth leol
- Addysg a dysgu gydol oes
- Yr amgylchedd a thrafnidiaeth
- Yr Uned Craffu Ariannol
- Iechyd a pholisi cymdeithasol
- Y llyfrgell



# Cyfeirlyfr o arbenigwyr

### Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil

**Kathryn Potter**
0300 200 **6587**
**Kathryn.Potter@Cynulliad.Cymru**

## Y Cynulliad a'r cyfansoddiad

Cyngor arbenigol ar y Cynulliad, datganoli, cyfansoddiad y DU, deddfwriaeth Cymru, y DU a'r UE, llywodraethu, is-ddeddfwriaeth, etholiadau, refferenda.

### Uwch Swyddog Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Alys Thomas***<br>0300 200 **6305**<br>**Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru** | Y Cynulliad, y cyfansoddiad |

## Yr economi, cymunedau a llywodraeth leol

Cyngor arbenigol ar yr economi, llywodraeth leol, tai, cyfiawnder cymdeithasol, lles, cyfleoedd cyfartal, y sector gwirfoddol, diwylliant, chwaraeon a hamdden, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, y Gymraeg, gwasanaethau cyhoeddus, adfywio, yr UE.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Ben Stokes**<br>0300 200 **6294**<br>**Ben.Stokes@Cynulliad.Cymru** | Busnes, datblygu economaidd, cronfeydd strwythurol |

### Uwch Swyddogion Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Jonathan Baxter**<br>0300 200 **6295**<br>**Jonathan.Baxter@Cynulliad.Cymru** | Tai, tlodi, cymunedau |
| **Hannah Johnson**<br>0300 200 **6297**<br>**Hannah.Johnson@Cynulliad.Cymru** | Cydraddoldeb, lles, y sector gwirfoddol |
| **Rhys Iorwerth***<br>0300 200 **6296**<br>**Rhys.Iorwerth@Cynulliad.Cymru** | Llywodraeth leol, y Gymraeg |



***Siaradwr Cymraeg**

| | |
|---|---|
| **Robin Wilkinson**<br>0300 200 **6298**<br>**Robin.Wilkinson@Cynulliad.Cymru** | Diwylliant, treftadaeth, chwaraeon, yr UE, twristiaeth, band eang, caffael |

### Ymchwilwyr Dan Hyfforddiant

**Joseph Champion**
0300 200 **7390**
**Joe.Champion@Cynulliad.Cymru**

**Megan Jones***
0300 200 **7391**
**Megan.Jones@Cynulliad.Cymru**

## Addysg a dysgu gydol oes

Cyngor arbenigol ar blant a phobl ifanc, addysg a dysgu gydol oes.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Anne Thomas**<br>0300 200 **6303**<br>**Anne.Thomas@Cynulliad.Cymru** | Addysg bellach ac uwch, dysgu gydol oes, hyfforddiant sgiliau |

### Uwch Swyddogion Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Siân Thomas***<br>0300 200 **6291**<br>**Sian.Thomas@Cynulliad.Cymru** | Addysg, plant a phobl ifanc |
| **Michael Dauncey**<br>0300 200 **6293**<br>**Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru** | Addysg a dysgu gydol oes |

### Swyddog Ymchwil Uwch

| | |
|---|---|
| **Siân Hughes**<br>0300 200 **6292**<br>**Sian.Hughes@Cynulliad.Cymru** | Addysg a dysgu gydol oes |

***Siaradwr Cymraeg**

# Yr amgylchedd a thrafnidiaeth

Cyngor arbenigol ar drafnidiaeth, ynni, dŵr, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, cynllunio ar gyfer defnydd tir, amaethyddiaeth, bwyd a diod, coedwigaeth, pysgodfeydd a materion morol, a lles anifeiliaid.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Andrew Minnis**<br>0300 200 **6314**<br>**Andrew.Minnis@Cynulliad.Cymru** | Trafnidiaeth, strategaeth drafnidiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, porthladdoedd a thrafnidiaeth ar y môr, priffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd, teithio llesol |

### Uwch Swyddogion Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Chloe Corbyn**<br>0300 200 **6316**<br>**Chloe.Corbyn@Cynulliad.Cymru** | Gwastraff, newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy, ynni |
| **Nia Seaton***<br>0300 200 **6313**<br>**Nia.Seaton@Cynulliad.Cymru** | Amaethyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth natur, tirweddau dynodedig a mynediad, pysgodfeydd a materion morol, lles anifeiliaid, asesiadau amgylcheddol |
| **Elfyn Henderson***<br>0300 200 **6317**<br>**Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru** | Cynllunio ar gyfer defnydd tir, rheoliadau a rheoli adeiladu, dŵr a charthffosiaeth, llifogydd ac erydu arfordirol, bwyd a diod |

### Cymorth Tîm

| | |
|---|---|
| **Nigel Barwise**<br>0300 200 **6315**<br>**Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru** | Cymorth ymchwil a gweinyddu ymholiadau |

# Yr Uned Craffu Ariannol

Cyngor arbenigol ar gyllid a chyllidebau'r Cynulliad, trethiant, cyllid llywodraeth leol, ac ystadegau cyffredinol, gan gynnwys dulliau a ffynonellau.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Martin Jennings**<br>0300 200 **6306**<br>**Martin.Jennings@Cynulliad.Cymru** | Craffu ar y gyllideb, cyllid, cost polisïau |

***Siaradwr Cymraeg**

### Uwch Swyddogion Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Christian Tipples**<br>0300 200 **7393**<br>**Christian.Tipples@Cynulliad.Cymru** | Trethiant, cyllid datganoledig |
| **Helen Jones**<br>0300 200**6309**<br>**Helen.Jones@Cynulliad.Cymru** | Craffu ar ddeddfwriaeth, cyllid addysg, ystadegau, arolygon, mapio |
| **Owen Holzinger**<br>0300 200 **7463**<br>**Owen.Holzinger@Cynulliad.Cymru** | Cyllid llywodraeth leol, a chraffu ar y gyllideb |

### Swyddog Ymchwil Uwch

| | |
|---|---|
| **Gareth David Thomas**<br>0300 200 **6307**<br>**GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru** | Y gweithlu llafur, ardrethi busnes, cost polisïau, cyllid cyffredinol, ystadegau |

### Swyddog Ymchwil

| | |
|---|---|
| **David Millett**<br>0300 200 **6311**<br>**David.Millett@Cynulliad.Cymru** | Ystadegau cyffredinol, ffeithluniau, cyllid cyffredinol, mapio |

## Iechyd a pholisi cymdeithasol

Cyngor arbenigol ar bolisi iechyd a gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a lles plant, pobl hŷn, a diogelwch cymunedol.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Paul Worthington**<br>0300 200 **7387**<br>**Paul.Worthington@Cynulliad.Cymru** | Gwasanaethau iechyd, polisi iechyd, gofal cymdeithasol |

### Uwch Swyddogion Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Philippa Watkins**<br>0300 200 **6320**<br>**Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru** | Polisi iechyd, gwasanaethau iechyd |
| **Amy Clifton**<br>0300 200 **6322**<br>**Amy.Clifton@Cynulliad.Cymru** | Iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion |

***Siaradwr Cymraeg**

| | |
|---|---|
| **Stephen Boyce**<br>0300 200 **6340**<br>**Stephen.Boyce@Cynulliad.Cymru** | Iechyd meddwl a gofal cymdeithasol |

### Swyddog Ymchwil Uwch

| | |
|---|---|
| **Rebekah James**<br>0300 200 **6321**<br>**Rebekah.James@Cynulliad.Cymru** | Iechyd a gofal cymdeithasol |

## Y llyfrgell

Gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddiadau swyddogol, papurau newydd, cyfnodolion, e-adnoddau a gwasanaethau monitro.

### Pennaeth y Llyfrgell

| | |
|---|---|
| **Stephanie Wilson**<br>0300 200 **6299**<br>**Stephanie.Wilson@Cynulliad.Cymru** | Rheoli'r llyfrgell, y broses gynefino, hyfforddiant |

### Rheolwr Gwasanaethau i Ddarllenwyr

| | |
|---|---|
| **Delyth Thomas***<br>0300 200 **6326**<br>**Delyth.Thomas@Cynulliad.Cymru** | Gwasanaethau i ddarllenwyr, Advisernet, Justis Parliament, trafodion y Cynulliad a San Steffan |

### Llyfrgellydd Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Gareth England***<br>0300 200 **6588**<br>**Gareth.England@Cynulliad.Cymru** | Catalog y llyfrgell, llyfryddiaeth y Cynulliad, llinell amser digwyddiadau o bwys |

### Arbenigwyr Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Sian Davies***<br>0300 200 **6325**<br>**Sian.Davies@Cynulliad.Cymru** | Archebu llyfrau, Newsstand, GRANTfinder, ffynonellau cyllid a gwybodaeth |
| **Lucy Hodson**<br>0300 200 **6324**<br>**Lucy.Hodson@Cynulliad.Cymru** | E-adnoddau, papurau newydd, cyfnodolion, benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, adnoddau cyfreithiol, WestLaw, busnes San Steffan a gwybodaeth am gwmnïau |
| **Tom Douch**<br>0300 200 **6323**<br>**Thomas.Douch@Cynulliad.Cymru** | Cyhoeddi gwaith ymchwil, datblygu'r rhyngrwyd a'r fewnrwyd, a datblygu cyfryngau cymdeithasol a'r blog |

***Siaradwr Cymraeg**

## Swyddogion Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Candice Boyes**<br>0300 200 **6302**<br>**Candice.Boyes@Cynulliad.Cymru** | Cyhoeddi gwaith ymchwil a chyfryngau cymdeithasol |

| | |
|---|---|
| **Emma Bailey**<br>0300 200 **6327**<br>**Emma.Bailey@Cynulliad.Cymru** | Benthyciadau ac adnewyddiadau |



***Siaradwr Cymraeg**



# Y cyfansoddiad

- Cymru a refferendwm yr UE
- Setliad datganoli newydd
- Awdurdodaeth benodol i Gymru
- Cymru a Bil Undebau Llafur y DU

# Cymru a refferendwm yr UE

## *Beth fydd goblygiadau canlyniad refferendwm yr UE i Gymru a'r Cynulliad?*

***Gregg Jones a Robin Wilkinson***

Ar 23 Mehefin 2016 bydd pobl y DU yn pleidleisio mewn refferendwm i benderfynu a ydynt am adael yr Undeb Ewropeaidd ynteu aros yn rhan ohono. Beth yw arwyddocâd y refferendwm hwn i Gymru a'r modd y mae'r Pumed Cynulliad yn ymwneud â materion yr UE?

### Goblygiadau aros

Byddai pleidlais i aros yn golygu y byddai **setliad newydd i'r DU yn yr UE** – setliad y llwyddodd Prif Weinidog y DU i'w sicrhau ym mis Chwefror 2016 – yn dod i rym.

Un elfen o'r setliad yw'r hyn sy'n cael ei alw'n 'gerdyn coch', a hwnnw'n galluogi seneddau cenedlaethol i roi feto ar ddeddfwriaeth arfaethedig yr UE. Dyma ran o'r setliad newydd sy'n arbennig o berthnasol i'r Cynulliad.

Ym mis Mawrth 2016, ysgrifennodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad at **David Lidington, y Gweinidog dros Ewrop**, yn galw iddo roi sylw i sut fyddai'r system hon yn ystyried buddiannau deddfwrfeydd datganoledig y DU.

O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd Aelodau yn y Pumed Cynulliad yn dymuno edrych yn fanylach ar y mater hwn mewn trafodaethau cynnar â Senedd y DU, y deddfwrfeydd datganoledig eraill a Llywodraeth y DU.

Byddai aros yn golygu parhau â'r berthynas rhwng Cymru a'r UE ar bynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru, a materion cysylltiedig eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i amaethyddiaeth a materion gwledig, gan gynnwys lles anifeiliaid a diogelwch bwyd, yn ogystal ag i bolisïau amgylcheddol, pysgodfeydd, ynni, addysg ac iechyd.

Yn yr un modd, ni fyddai unrhyw effaith ar **raglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru**, cyllid trwy'r **Polisi Amaethyddol Cyffredin**, na'r cyfle i Gymru gymryd rhan yn rhaglenni amrywiol yr UE fel **Horizon 2020**, **Cydweithredu Tiriogaethol** ac **Erasmus+**. Ni fyddai'n effeithio chwaith ar y cysylltiad rhwng Cymru a **Banc Buddsoddi Ewrop**.

Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am roi deddfwriaeth yr UE ar waith o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, a byddai'n dal i fod yn atebol am unrhyw achosion o fynd yn groes i'r ddeddfwriaeth honno.

Yn y Cynulliad ei hun, mae'n debygol y bydd y trafodaethau yn yr wythnosau'n dilyn y refferendwm yn canolbwyntio ar sut i roi sylw i faterion yr UE – un ai fel pwnc prif ffrwd fel yn y Pedwerydd Cynulliad, neu drwy sefydlu pwyllgor arbenigol ar gyfer yr UE i graffu ar y materion hyn.

## Goblygiadau gadael

Y cam cyntaf, er mwyn i'r bleidlais gael effaith, fyddai i Lywodraeth y DU roi gwybod i'r Cyngor Ewropeaidd am ei bwriad i adael er mwyn i'r broses a nodir yn Erthygl 50 o'r ***Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd*** ddod i rym.

Mae'r Erthygl hon yn rhoi amserlen o ddwy flynedd i'r DU a'r Cyngor Ewropeaidd (a fydd yn cynrychioli'r 27 aelod-wladwriaeth arall) drafod cytundeb ar gyfer gadael. Gellir ymestyn y cyfnod hwn o ddwy flynedd os bydd y ddwy ochr yn cytuno'n unfrydol.

Y manylion fydd yn bwysig, ac mae'n anodd dweud ymlaen llaw sut yn union fyddai’r cyfan yn digwydd, gan mai dyma fyddai'r tro cyntaf i aelod-wladwriaeth adael yr UE.

Byddai'r broses hon yn cynnwys cynnal trafodaethau am y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE ar ôl gadael. Gallai'r penderfyniad ar y trefniant hwn gael effaith sylweddol ar ffurf a natur y setliad terfynol, ac ar sut fyddai hwnnw’n effeithio ar Gymru.

Dyma rai materion y byddai angen mynd i'r afael â hwy yn y trafodaethau, ac a fyddai'n arbennig o berthnasol i Gymru:

- cyfraniad y DU at gyllideb yr UE ac at raglenni cyllido'r UE, gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd yn ystod cyfnod y rhaglenni presennol (sy'n para hyd at 2020), ac unrhyw ymrwymiadau parhaus a allai ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad y byddai'r DU yn gadael;
- sut fydd y DU yn y dyfodol yn ymwneud â’r Farchnad Sengl a thrafodaethau masnach yr UE, gan gynnwys dilyn rheolau cystadleuaeth, cymorth gwladwriaethol, prosesau caffael cyhoeddus, safonau, a diogelu defnyddwyr;
- yr effaith ar allu gweithwyr a myfyrwyr i symud o un wlad i'r llall, gan gynnwys eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac addysg;
- statws cyfraith bresennol yr UE yn y DU;
- tynnu allan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a'r effaith ar ddynodiadau daearyddol (fel cig oen Cymru a chig eidion Cymru); a
- dyfodol cynrychiolwyr y DU a Chymru yn sefydliadau'r UE.

Mae'n amlwg y byddai pob un o'r materion hyn o ddiddordeb i randdeiliaid yng Nghymru. Maent yn codi nifer o gwestiynau pwysig y byddai angen mynd i'r afael â hwy, er enghraifft:

- pa ran fydd gan Lywodraeth Cymru (a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU) yn y trafodaethau ffurfiol;
- sut roddir sylw i fuddiannau Cymru a sut fyddant yn cael eu hadlewyrchu yn sefyllfa Llywodraeth y DU wrth iddi gynnal trafodaethau;
- pa ran fydd gan y Cynulliad (a'r deddfwrfeydd datganoledig eraill) wrth fonitro a chraffu ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses hon a'r modd y mae Llywodraeth y DU yn cynrychioli buddiannau a phryderon Cymru; a
- sut fydd y Cynulliad yn trefnu gwaith ei bwyllgorau a busnes y Cyfarfod Llawn er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n rhan o’r broses hon.

Mynegodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei bryderon nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymwneud digon â'r Cynulliad yn ystod y trafodaethau ynglŷn â diwygio'r UE. Cododd **Senedd yr Alban bryderon tebyg**, sy'n awgrymu y bydd hwn yn faes pwysig i'w drafod ymhellach pe byddai pobl y DU yn pleidleisio o blaid gadael yn y refferendwm.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd yn ei **adroddiad etifeddiaeth** y dylid sefydlu pwyllgor penodol yn y Cynulliad i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am y broses o adael yr UE. Mae'n sicr y bydd y mater hwn yn codi yn y trafodaethau ynghylch strwythurau'r pwyllgorau newydd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

## Ffynonellau defnyddiol

- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, EU referendum: impact of an EU exit in key U**K policy areas** (Saesneg yn unig) (2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **EU Referendum: the process of leaving the EU** (Saesneg yn unig) (2016)
- Llywodraeth y DU, **HM Treasury analysis: the long-term economic impact of EU** membership and the alternatives (Saesneg yn unig) (2016)
- Y Cyngor Ewropeaidd, **A New Settlement for the UK within the EU** (Saesneg yn unig) (2016)
- Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol / Kings College Llundain, **UK in a Changing** EU (Saesneg yn unig) (gwefan)

# Setliad datganoli newydd

## *A oes gan Gymru y pwerau angenrheidiol i wneud cyfreithiau effeithiol?*

***Stephen Boyce***

Disgwylir i Fil Cymru newydd gael ei gyflwyno yn San Steffan yn ddiweddarach yn 2016. Mae hyn yn golygu y bydd cwestiynau ynghylch pa bwerau y dylid eu datganoli i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn amlwg ar agenda'r Pumed Cynulliad.

Wrth graffu ar Fil Cymru drafft yn y Pedwerydd Cynulliad, daeth yn glir bod llawer o anghytuno ynglŷn â ffurf y setliad datganoli arfaethedig. Bydd angen i Fil Cymru newydd roi setliad clir ac ymarferol, yn ogystal â denu cefnogaeth yng Nghymru a San Steffan.

### Bil Cymru drafft

Bu llawer o drafod yn y Pedwerydd Cynulliad (wedi'i ysgogi yn rhannol gan refferendwm annibyniaeth yr Alban) ynghylch diffygion y setliad datganoli presennol a sut ellid ei wella.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar **Fil Cymru drafft**, a hwnnw'n cyflwyno fframwaith datganoli newydd. Y bwriad oedd creu setliad parhaol a fyddai'n golygu bod pwerau Cymru yn fwy eglur a phendant.

Un o nodweddion pwysicaf y Bil drafft oedd model datganoli newydd ar sail 'cadw pwerau yn ôl'.

Mae'r model hwn yn nodi'n glir pa feysydd pwnc sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Roedd ail adroddiad **Comisiwn Silk** (2014) ar ddatganoli yn argymell y dylid mabwysiadu model o'r fath, a daeth i'r casgliad y byddai'n gliriach ac yn symlach i'w weinyddu na'r trefniant presennol.

Byddai hefyd yn helpu i atal rhagor o achosion o gyfeirio deddfwriaeth y Cynulliad at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad ynglŷn â chymhwysedd, fel sydd wedi digwydd dair gwaith ers i'r Cynulliad gael pwerau deddfu llawn yn 2011.

Craffwyd ar Fil Cymru drafft yn Senedd y DU ac yn y Cynulliad. Croesawodd rhanddeiliaid rai o'i ddarpariaethau, ond denodd rhannau eraill gryn feirniadaeth. Er enghraifft:

- roedd y Bil drafft yn cynnwys rhestr faith o feysydd lle byddai'r pwerau drostynt yn cael eu cadw yn ôl gan Senedd y DU;
- roedd yn creu profion newydd a fyddai'n pennu a oedd deddfwriaeth newydd Cymru o fewn cymhwysedd y Cynulliad; ac
- roedd yn creu amgylchiadau newydd pryd y byddai angen cydsyniad Gweinidog yn Llywodraeth y DU cyn pasio rhai darnau o ddeddfwriaeth y Cynulliad.

#### Model cadw pwerau yn ôl

O dan y model datganoli 'cadw pwerau yn ôl', nodir mewn deddfwriaeth pa bwerau sy'n cael eu cadw yn ôl gan Lywodraeth y DU, a chaiff yr holl bwerau eraill eu datganoli i'r Cynulliad.

Ar hyn o bryd, mae'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru wedi'u rhestru o dan 20 pennawd yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Y farn gyffredin yw bod y model cadw pwerau yn ôl, a ddefnyddir yn yr Alban, yn symlach ac yn fwy eglur.

## Beirniadaeth o Fil Cymru drafft

Awgrymodd arbenigwyr cyfreithiol fod y Bil drafft yn 'gam yn ôl' o ran cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu, yn enwedig o ystyried y 'profion angenrheidrwydd' newydd y byddai'n rhaid eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y Cynulliad pe bai'n effeithio ar Loegr, yn addasu'r gyfraith ar faterion a gadwyd, neu'n addasu cyfraith breifat neu droseddol.

Barnwyd bod y rhain yn rhoi cyfyngiadau gormodol a diangen ar allu'r Cynulliad i wneud deddfwriaeth effeithiol i Gymru.

Daeth **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Pedwerydd Cynulliad i'r casgliad nad oedd y Bil drafft yn cydymffurfio ag egwyddorion sybsidiaredd, eglurder, symlrwydd ac ymarferoldeb. Materion oedd y rhain a ddylai, ym marn y Pwyllgor, fod yn sail i'r setliad datganoli newydd.

Argymhellodd **Pwyllgor Materion Cymreig** Tŷ'r Cyffredin y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried oedi cyn cyflwyno'r Bil ac ailystyried y rhestr o gymalau cadw a'r profion cymhwysedd. Roedd amrywiaeth barn hefyd ynghylch mater cyfansoddiadol arall, sef yr angen i Gymru ddatblygu awdurdodaeth benodol neu ar wahân ai peidio ar gyfer y corff cynyddol o gyfraith Gymreig (gweler yr erthygl ar awdurdodaeth benodol i Gymru).

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Stephen Crabb, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, 'saib' yn y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac oedi cyn cyhoeddi'r Bil terfynol. Mae'n debygol y bydd y Bil nawr yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru, a oedd wedi dadlau dros lai o gymalau cadw a phrofion cymhwysedd, wedi cyhoeddi ei **fersiwn ei hun** o'r Bil sydd, ym marn y Llywodraeth, yn gosod setliad tecach a mwy eglur.

## Beth y dylid cadw golwg amdano mewn Bil Cymru newydd

Croesawyd rhai agweddau ar y Bil drafft yn gyffredinol, ac mae'n debygol y byddai'r rhain yn dal i gael eu cynnwys mewn fersiwn wedi'i hailddrafftio.

Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn sefydliadau parhaol o dan y gyfraith, ac ar gyfer datganoli pwerau sylweddol i'r Cynulliad dros ei swyddogaethau a'r dull o gynnal etholiadau'r Cynulliad. Mae'r olaf yn cynnwys pwerau i benderfynu ar yr etholfraint; y system etholiadol; nifer a maint etholaethau'r Cynulliad; a nifer yr Aelodau Cynulliad.

Roedd y Bil drafft hefyd yn rhoi i'r Cynulliad ragor o gymhwysedd mewn meysydd newydd fel ynni, trafnidiaeth a llywodraeth leol, ac roedd yn pennu'r trefniadau ar gyfer sut mae'r Cynulliad yn cymeradwyo deddfwriaeth San Steffan sy'n effeithio ar faterion a ddatganolwyd i Gymru ('confensiwn Sewell'). Ar y cyfan, prin oedd y dadlau am y materion hyn.

Yn ei **ddatganiad ym mis Chwefror 2016**, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ei fwriad i gael gwared ar y 'profion angenrheidrwydd', i leihau nifer y cymalau cadw, ac i ailedrych ar y gofynion ar gyfer cydsyniad gweinidogion.

Felly, mae newidiadau arwyddocaol yn debygol o gael eu gwneud yn y meysydd hyn, a bydd y gwaith o graffu ar y Bil newydd yn canolbwyntio arnynt hwy ac ar y darpariaethau sy'n ymddangos fel pe baent yn ein rhwystro rhag symud tuag at setliad clir ac ymarferol i Gymru.

Bydd pawb nawr â llygaid barcud ar Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, wrth iddo baratoi i gyflwyno Bil Cymru diwygiedig. Y Bil fydd y cam nesaf yn y broses ddatganoli ac mae'n sicr o gael sylw manwl yng Nghymru ac yn San Steffan.

## Ffynonellau defnyddiol

- Llywodraeth y DU, **Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Y Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru drafft** (Saesneg yn unig) (2016)
- Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, **Craffu cyn deddfu ar Fil Cymru drafft: Adroddiad cyntaf sesiwn 2015-16** (Saesneg yn unig) (2016)
- Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk'), **Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru** (2014)
- Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, **Adroddiad ar Fil Cymru drafft Llywodraeth y DU** (2015)

# Awdurdodaeth benodol i Gymru

## *Mae mwy a mwy o wahaniaethau yng nghyfreithiau Cymru a Lloegr. A yw'n bryd cael awdurdodaeth benodol?*

***Alys Thomas***

Mae'r diffiniad o awdurdodaeth yn un hyblyg ond mae'r rhan fwyaf o arbenigwyr yn cytuno ei bod yn cwmpasu tiriogaeth benodol, y gyfraith sy'n gymwys iddi, strwythur llysoedd ar wahân, a sefydliadau cyfreithiol ar wahân. Ar hyn o bryd, un awdurdodaeth sydd gan Gymru a Lloegr, ac nid yw gweinyddu cyfiawnder yn faes sydd wedi'i ddatganoli.

Ers 2007, mae gan y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol – ehangwyd y pwerau hyn yn 2011. O ganlyniad, mae rhai pobl yn honni bod gan Gymru gasgliad cynyddol o gyfreithiau neilltuol – er enghraifft, cyfraith addysg a gwasanaethau cymdeithasol – a bod hynny'n gwneud parhau ag un awdurdodaeth yn broblemus. Mae eraill yn anghytuno â hynny, gan fynnu nad yw cyfreithiau neilltuol Cymru ond yn rhan fechan o gyfraith Cymru a Lloegr.

Mae'r ddadl wedi dwysáu ers craffu ar **Fil Cymru drafft** ac ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi **Bil amgen** ac ynddo ddarpariaethau ar gyfer creu awdurdodaeth benodol i Gymru.

### Hunaniaeth gyfreithiol yn dod i'r amlwg

Mae'r ddadl ynghylch awdurdodaeth Cymru wedi symud tir yn sylweddol yn y misoedd diwethaf. Yn ôl yn 2012, cafwyd **adroddiad pellgyrhaeddol ar y pwnc** gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad. Nid oedd yr adroddiad yn argymell creu awdurdodaeth ar wahân, ond nododd fod hunaniaeth gyfreithiol Cymru yn cryfhau. Awgrymodd yr adroddiad y dylid newid model unedig presennol Cymru a Lloegr i sicrhau bod hwnnw'n cydnabod yr hunaniaeth gyfreithiol oedd yn dod i'r amlwg.

Hefyd yn 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ynghylch awdurdodaeth i Gymru**. Yn ei chasgliadau, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid datganoli plismona, ond nid cyfiawnder troseddol a gweinyddu cyfiawnder. Oherwydd hyn, ni fyddai'n rhaid creu awdurdodaeth ar wahân, ond roedd Llywodraeth Cymru yn credu bod angen paratoi ar gyfer adeg pan fyddai gwneud hynny'n angenrheidiol ac yn fuddiol.

Mor ddiweddar â thair blynedd yn ôl, felly, roedd Llywodraeth Cymru'n gweld y posibilrwydd o awdurdodaeth ar wahân neu awdurdodaeth benodol i Gymru yn rhywbeth dymunol, ond fel amcan tymor hir yn unig.

### Bil Cymru drafft

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Cymru drafft. Un o brif ddarpariaethau'r Bil drafft oedd symud i fodel cadw pwerau yn ôl, a hwnnw'n rhestru'r pynciau na châi'r Cynulliad ddeddfu yn eu cylch, yn hytrach na'r pynciau y mae'n cael deddfu yn eu cylch.

Wrth i bwyllgorau yn y Cynulliad a Thŷ'r Cyffredin graffu ar y Bil drafft, daeth yn amlwg bod hwnnw wedi'i lunio mewn ffordd a fyddai'n diogelu awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr. Dywedodd Stephen Crabb, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod Llywodraeth y DU yn awyddus i ddiogelu cyfanrwydd awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Felly, roedd angen drafftio'r ddeddfwriaeth mewn ffordd a fyddai'n rhoi rhyddid i Lywodraeth

Cymru i ddeddfu ac i orfodi ei deddfwriaeth, ond a fyddai hefyd yn pennu rhyw fath o ffin a fyddai'n diogelu'r awdurdodaeth sengl.

Roedd **tystion eraill** o blaid symud tuag at awdurdodaeth 'benodol', yn hytrach nag awdurdodaeth 'ar wahân'. Byddai hynny'n cydnabod bod gwahaniaethau i'w cael rhwng cyfraith Lloegr a chyfraith Cymru, ond ni fyddai angen datganoli'r pŵer i weinyddu cyfiawnder, sefydlu llysoedd neu system lysoedd ar wahân yng Nghymru, na sefydlu proffesiynau cyfreithiol gwahanol yng Nghymru a Lloegr.

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd y byddai **'saib' yn ei gynlluniau i gyflwyno Bil Cymru**. Dywedodd ei fod hefyd wedi ystyried galwadau am 'awdurdodaeth benodol' neu 'awdurdodaeth ar wahân', ond ar y pryd ni welai ddadl dros y naill na'r llall. Cyhoeddodd, er hynny, ei fod yn sefydlu gweithgor, a oedd yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus, a Llywodraeth Cymru, i ystyried pa drefniadau penodol y byddai eu hangen i gydnabod anghenion Cymru o dan awdurdodaeth Cymru a Lloegr pe cyflwynid model cadw pwerau yn ôl.

## Y Bil amgen

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog y **Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru**. Bil wedi'i ddrafftio gan Lywodraeth Cymru oedd hwn, ac ynddo ddarpariaethau i greu awdurdodaeth gyfreithiol benodol yng Nghymru, gan wahanu cyfraith Cymru oddi wrth gyfraith Lloegr. Eglurodd Llywodraeth Cymru iddi wneud gwaith manwl a hwnnw'n dangos y gallai cael model cadw pwerau yn ôl, law yn llaw ag awdurdodaeth ar y cyd, greu cymhlethdodau newydd ac ansicrwydd. Dyna pam yr oedd safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid mewn ychydig o flynyddoedd.

Ehangwyd ar ddadl Llywodraeth Cymru mewn **erthygl gan Thedore Huckle CF**, sef y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd. Ynddi, dadleuodd y byddai'n rhaid cael un gyfraith – sef cyfraith Cymru a Lloegr – er mwyn cynnal un awdurdodaeth. Dywedodd mai'r neges a gyflëid fel arall oedd mai'r un oedd y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn ei farn ef, 'ffolineb' yw parhau i esgus bod hyn yn wir.

## Y camau nesaf

Wrth gwrs, nid Bil San Steffan mo'r Bil amgen, na Bil Cynulliad chwaith. Pan gyflwynodd y Prif Weinidog y Bil gerbron y Cynulliad, mynnodd ei fod yn gwneud hynny **'mewn ysbryd o gydweithio adeiladol'**. Wrth gyhoeddi'r oedi yn hynt Bil Cymru, nododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei bod yn debygol y byddai'r Bil yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016. Amser a ddengys a fydd y Bil amgen yn dylanwadu ar y gwaith o lunio Bil Cymru neu ar drafodaethau'r gweithgor.

## Ffynonellau defnyddiol

– **Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru** (Saesneg yn unig) (2016)

– Canolfan Llywodraethiant Cymru, **Her a Chyfle: Bil Cymru Drafft 2015** (2016)

– Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, **Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru** (2012)

# Cymru a Bil Undebau Llafur y DU

## *A allai Bil yn y Pumed Cynulliad geisio gwyrdroi rhai o effeithiau Bil Undebau Llafur y DU yng Nghymru?*

***Alys Thomas***

Ym mis Ionawr 2016, gwrthododd y Pedwerydd Cynulliad roi ei gydsyniad i rannau o Fil Undebau Llafur Llywodraeth y DU ar y sail bod rhannau ohono'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Cynulliad. Dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, y byddai Llywodraeth Cymru, os byddai'n ôl mewn grym, yn cyflwyno Bil yng Nghymru i wrthdroi rhannau perthnasol o Fil y DU. Mae'n anghydfod a allai fynd i'r Goruchaf Lys.

### Bil yr Undebau Llafur

Cyflwynwyd **Bil yr Undebau Llafur** yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2015. Mae ei ddarpariaethau yn cynnwys bod yn rhaid sicrhau cefnogaeth o leiaf 50% o aelodau undeb er mwyn gallu cynnal streic. Ar gyfer 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' rhaid sicrhau cefnogaeth 40% o'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio er mwyn gallu cynnal streic. Ar hyn o bryd, dim ond mwyafrif syml sydd ei angen.

Mae'r Bil wedi ennyn gwrthwynebiad cryf o du'r undebau gyda'r **TUC yn ei alw'n fygythiad i'r hawl sylfaenol i streicio**. Mae hefyd wedi'i wrthwynebu yn Senedd y DU.

### Cydsyniad deddfwriaethol

Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth ddiwethaf Cymru wedi gwrthwynebu'r Bil. Gan fod rhannau ohono'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, roeddent yn dadlau bod angen cydsyniad Senedd yr Alban a'r Cynulliad cyn gallu pasio'r rhannau hynny. Mae Llywodraeth y DU yn haeru bod pwnc y Bil yn fater sydd wedi'i gadw'n llwyr i Senedd y DU. Yn ystod **trafodaeth yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn Senedd y DU** ym mis Hydref 2015, dywedodd Nick Boles, Gweinidog Sgiliau y DU, nad oedd yn gweld unrhyw reswm pam y dylai Llywodraeth y DU gael cydsyniad cyn bwrw ymlaen i gyflwyno'r darpariaethau cynhennus .

#### Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (neu Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon), mae confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn gallu pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Bydd y Cynulliad yn rhoi'r cydsyniad hwn drwy gyfrwng Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, sy'n dod law yn llaw â Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gofyn i Senedd yr Alban wrthod cydsyniad i'r Bil oherwydd y byddai'n effeithio ar faterion datganoledig. Fodd bynnag, dyfarnodd Llywydd Senedd yr Alban nad oedd rhaid cael cydsyniad Senedd yr Alban. Golygai hynny na allwyd cynnal pleidlais ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban.

Yng Nghymru, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Tachwedd 2015. Roedd y Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru y byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer rhai cymalau o'r Bil gan eu bod yn ymwneud â materion datganoledig. Roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y cymalau hyn yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan eu bod yn ymwneud â chyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cyflogwyr hynny yn darparu ystod o

wasanaethau cyhoeddus datganoledig gan gynnwys addysg a hyfforddiant, gwasanaethau tân ac achub, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau llywodraeth leol a gwasanaethau trafnidiaeth.

Cafwyd dadl yn y Cynulliad ar y **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** ym mis Ionawr 2016. Mynnodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd bod 'rhannau sylweddol o'r Bil yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus sydd yn amlwg wedi'u datganoli, ac nid yw'n dderbyniol i Lywodraeth y DU geisio ei orfodi ar Gymru.'

## Dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd y Prif Weinidog **ddatganiad ysgrifenedig** lle'r oedd yn dadlau bod **dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014 ar Fil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru)** yn golygu bod y Cynulliad yn iawn i atal ei gydsyniad i Fil yr Undebau Llafur. Roedd dyfarniad 2014 yn nodi, er nad oedd cyflogaeth wedi'i rhestru fel pwnc datganoledig yn **Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006***, fod amaethyddiaeth wedi'i rhestru a bod cynnwys *Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru)* yn ymwneud â hynny. Nid oes rhaid i rywbeth fod yn gyfan gwbl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig er mwyn iddo fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Ym mis Ionawr 2016, daeth **llythyr i'r fei** a anfonwyd gan Weinidog Sgiliau y DU at Weinidogion eraill y DU. Roedd yn dangos bod cyngor cyfreithiol i Lywodraeth y DU yn awgrymu bod achos cryf fod darpariaethau Bil yr Undebau Llafur wedi'u cadw'n ôl yng nghyd-destun yr Alban, ond bod gan Lywodraeth y DU 'achos gwan iawn' yng nghyd-destun Cymru gan fod y cynsail wedi'i osod gan ddyfarniad y Goruchaf Lys. Pleidleisiodd y Cynulliad o blaid gwrthod cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil o 43 pleidlais i 13.

Ym mis Ebrill 2016, yn y **cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi**, cyflwynodd Arglwyddi Llafur, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol welliannau i ddatgymhwyso rhannau o'r Bil i gyrff cyhoeddus Cymru, ond gwrthododd Llywodraeth y DU y dadleuon a thynnwyd y gwelliannau yn ôl.

## Y camau nesaf

Yn ei sylwadau i gloi'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, nododd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, pe câi Llywodraeth Cymru ei hail-ethol i'r Cynulliad, byddai'n 'symud yn gyflym iawn ar ôl yr etholiad ym mis Mai i gyflwyno'r hyn yr wyf am ei alw, at ddibenion heddiw, yn Fil datgymhwyso undebau llafur (Cymru)'. Dywedodd y byddai'n defnyddio hyn i gael gwared ar y cymalau sy'n cael eu herio ym Mil y DU.

Pe bai'r Cynulliad yn pasio Bil o'r fath, byddai angen i Lywodraeth y DU benderfynu a ddylid ei gyfeirio at y Goruchaf Lys i benderfynu a yw o fewn cymhwysedd y Cynulliad. O ystyried fod cyngor cyfreithiol Llywodraeth y DU wedi dweud bod ganddi 'achos gwan iawn' byddai rhywfaint o risg ynghlwm wrth hyn.

Ar y llaw arall, byddai angen i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad weithredu'n gyflym. Bydd Bil Cymru – Bil y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gyflwyno'n fuan – yn creu setliad datganoli newydd yng Nghymru drwy gyflwyno model cadw pwerau yn ôl. Byddai'r model hwn yn debyg i'r un yn yr Alban, sy'n golygu y gallai Bil Undebau Llafur y DU gael ei ystyried y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.

## Ffynonellau defnyddiol:

– **Bil yr Undebau Llafur** (Saesneg yn unig) (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU** (2015)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru): Dyfarniad y Goruchaf Lys** (2014)

# Cyllid a llywodraethu

- Pwerau trethu i Gymru
- Dyfodol trefn gyllido Cymru
- Diwygio llywodraeth leol
- Cyllido llywodraeth leol
- Y Comisiynwyr a'r ombwdsmon



# Pwerau trethu i Gymru


*Yn ystod y Pumed Cynulliad, bydd Cymru'n cael cyfrifoldeb am ei threthi ei hun am y tro cyntaf ers dros 800 mlynedd. Beth mae hyn yn ei olygu i drethdalwyr Cymru?*

***Christian Tipples***

Yn 2018, bydd y trethi datganoledig cyntaf yn cael eu trosglwyddo i Gymru. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n cael pwerau benthyca sylweddol yn y cyfnod hanesyddol hwn. Bydd y pwerau hyn yn rhoi mwy o atebolrwydd ariannol i Lywodraeth Cymru, a bydd angen craffu'n agos ar hyn yn y Pumed Cynulliad.

## Pa drethi a gaiff eu datganoli i Gymru?

Mae ***Deddf Cymru 2014*** yn golygu bod amryw o drethi am gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2018, bydd Cymru'n cael cyfrifoldeb am y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.




** Rhagolwg Refeniw Treth Cymru (£m) 2018-19*

## Beth sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer trethi datganoledig?


Pasiodd y Pedwerydd Cynulliad ***Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*** ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a'i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig.

Disgwylir i Lywodraeth newydd Cymru gyflwyno dau Fil yn ymwneud yn benodol â threthi yn fuan ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2016, a'r rheini'n gwneud trefniadau i weinyddu'r ddwy dreth uchod.

## Sut fydd trethi Cymru yn gweithio?

### Treth Trafodiadau Tir

Bydd y Dreth Trafodiadau Tir yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru a bydd yn berthnasol i drafodion eiddo preswyl a dibreswyl. Daw cyfran sylweddol o'r Dreth Trafodiadau Tir o drafodion eiddo preswyl.




Ym mis Rhagfyr 2014, newidiodd Llywodraeth y DU ei dull o **gyfrifo treth stamp ar drafodion eiddo preswyl** drwy symud i system gyfradd ymylol. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar y gyfran o werth yr eiddo sy'n dod o fewn pob band Treth Dir y Dreth Stamp y bydd pob un o gyfraddau newydd y dreth hon yn daladwy.

Yn ei dogfen ymgynghori **Datganoli Trethi i Gymru – Treth Trafodiadau Tir**, barn Llywodraeth Cymru yw bod hon yn system decach ar gyfer prynwyr cartrefi a chynigiodd barhau â system gyfradd ymylol. Fodd bynnag, Llywodraeth newydd Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ac yn sefydlu'r cyfraddau a'r bandiau treth newydd.

Newidiodd Llywodraeth y DU Dreth Dir y Dreth Stamp hefyd ar gyfer trafodion eiddo dibreswyl (fel eiddo masnachol, tir amaethyddol a thir datblygu) i **system gyfradd ymylol** ym mis Mawrth 2016. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu sut gaiff trafodion dibreswyl eu trethu pan gyflwynir y Bil Treth Trafodiadau Tir yn y Pumed Cynulliad.

### Treth Gwarediadau Tirlenwi

Bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn disodli Treth Tirlenwi Llywodraeth y DU, sef treth ar gyfer cael gwared ar wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Bwriedir i'r dreth newydd gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd, gwastraff, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn **cadarnhau cyfraddau'r dreth yn nes at gyflwyno'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi**.

## A fydd unrhyw beth arall yn digwydd ar ôl i'r trethi gael eu datganoli?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cael pwerau ychwanegol i reoli ei chyllid drwy gronfa arian wrth gefn a phwerau benthyca helaeth.

### Cronfa arian wrth gefn

Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cadw refeniw sydd ganddi dros ben, a defnyddio'r **gronfa newydd honno** i reoli ansefydlogrwydd mewn refeniw treth neu fel gwariant ychwanegol.

### Pwerau benthyca

Mae ***Deddf Cymru 2014*** hefyd yn cynnwys pwerau benthyca newydd i Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu fenthyciwr arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu benthyca o fis Ebrill 2018.

| Benthyciad | Diben | Cap |
| --- | --- | --- |
| **Refeniw £500m** | Ymdrin â’r gwahaniaethau rhwng rhagolygon treth a’r hyn a dderbynnir mewn gwirionedd ar gyfer trethi datganoledig.<br>Rheoli llif arian drwy Gronfa Gyfunol Cymru. | **£200m y flwyddyn** |
| **Cyfalaf £500m** | Ariannu prosiectau cyfalaf Llywodraeth Cymru (ee ffordd liniaru’r M4) | **£125m y flwyddyn** |

## A gaiff trethi eraill eu datganoli yn y dyfodol?

Mae cynlluniau ar gyfer datganoli ffrydiau treth eraill i Gymru yn y dyfodol. Nid oes amserlen glir, ond mae potensial i'r trethi hyn gael eu datganoli'n llawn neu ddechrau cael eu datganoli yn ystod y Pumed Cynulliad.

### Ardoll Agregau

Treth yw'r ardoll hon ar ymelwa masnachol ar graig, tywod a graean yn y DU. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddatganoli'r **ardoll yn amodol ar benderfyniad ynghylch heriau cyfreithiol cyfredol**. Byddai'r ardoll agregau yn codi £32 miliwn pe caiff ei datganoli yn 2018-19 yn ôl rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

### Treth Incwm

Yn **Adolygiad o Wariant 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad** i gael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm yng Nghymru cyn **datganoli treth incwm yn rhannol**. Ar gyfer pob cyfradd treth incwm, disgwylir i Lywodraeth Cymru gasglu 10 ceiniog am bob punt a enillir dros y lwfans personol (hyd at £11,000 ar gyfer 2016-17). Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yw y byddai Llywodraeth Cymru yn casglu dros £2 biliwn y flwyddyn gan drethdalwyr Cymru i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus unwaith y bydd treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol.

## Ffynonellau defnyddiol

- **Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)** (2015)
- ***Deddf Cymru 2014*** (Saesneg yn unig)
- Llywodraeth y DU, **Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol** (2014)
- Llywodraeth Cymru, **Dogfen Ymgynghori: Datganoli Trethi i Gymru – Treth Trafodiadau Tir** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Dogfen Ymgynghori: Treth Trafodiadau Tir** (2015)
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Devolved Taxes Forecast – March 2016** (Saesneg yn unig) (2016)

# Dyfodol trefn gyllido Cymru

*Bydd trethi Cymreig yn rhoi rheolaeth i Gymru dros ei ffrydiau refeniw ei hun am y tro cyntaf ers datganoli. Sut fydd y grant bloc yn cael ei addasu i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o arian?*


***Christian Tipples***

Yn 2018 bydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros beth o refeniw trethi Cymru am y tro cyntaf ers dros 800 mlynedd. Os na chytunir ar ddull priodol i wneud iawn am y refeniw hwn yn y grant bloc, fe allai Cymru golli cannoedd o filiynau o bunnoedd ar ôl i'r holl drethi gael eu datganoli.

## Sut mae Cymru yn cael ei hariannu ar hyn o bryd?

Cyn mis Ebrill 2015, câi cyllideb Llywodraeth Cymru ei hariannu'n gyfan gwbl drwy **grant bloc gan Lywodraeth y DU**.

Mae'r grant bloc yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio **fformiwla Barnett**, sef y dull y mae Trysorlys y DU yn ei ddefnyddio i addasu faint o arian a ddyrennir i Gymru. Mae hwn yn adlewyrchu newidiadau mewn lefelau gwariant yn Lloegr mewn meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru, gan ystyried poblogaeth Cymru o'i chymharu â Lloegr.




**Enghraifft**

Pe byddai cynnydd o £100 miliwn yng ngwariant arfaethedig adran drafnidiaeth y DU (adran lle mae 73.1% o'i gweithgareddau wedi'i ddatganoli i Gymru), a 5.69% yw'r amcangyfrif o boblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth Lloegr, byddai grant bloc Cymru yn cynyddu £4.16 miliwn.

**£100 miliwn x 73.1% x 5.69%**

Yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU derfyn ariannu isaf o 15%. Mae hyn yn golygu na fydd grant bloc Cymru yn gostwng yn is na 115% o'r gwariant cymharol y pen yn Lloegr. Daw'r terfyn ariannu isaf i ben ar ddiwedd y tymor seneddol yn 2020, gan greu ansicrwydd ynghylch y grant bloc yn y dyfodol.


## Pa effaith fydd datganoli treth yn ei chael ar lefelau ariannu yng Nghymru?

Cafodd Llywodraeth Cymru ei ffynhonnell refeniw annibynnol gyntaf y tu allan i'r grant bloc yn sgil datganoli ardrethi annomestig (ardrethi busnes) ym mis Ebrill 2015. Gwnaed addasiad untro i'r grant bloc eisoes. Mae'r dreth gyngor hefyd wedi cael ei datganoli i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Bydd gan Lywodraeth nesaf Cymru ragor o ffynonellau refeniw sy'n annibynnol ar y grant bloc yn sgil cyflwyno'r Dreth Trafodion Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ym mis Ebrill 2018. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu datganoli'r ardoll agregau a datganoli treth incwm yn rhannol, er bod yr amserlenni yn parhau i fod yn aneglur.

Mae rhagolygon y **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol** yn dangos y byddai Llywodraeth newydd Cymru yn rheoli 18.3% yn ychwanegol o gyfanswm ei chyllid erbyn 2019-20 (heb gynnwys ardrethi annomestig) os ydym yn tybio y caiff yr ardoll agregau a threth incwm eu datganoli yn y flwyddyn honno.

**Addasu'r grant bloc i wneud yn iawn am drethi datganoledig**




**2018-19: Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi*
*Ar ôl 2019: Treth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardoll Agregau*

Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch sut fydd y grant bloc yn cael ei addasu i wneud iawn am y trethi datganoledig hyn yn y dyfodol.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r trethi gael eu datganoli?

Bydd y grant bloc yn mynd trwy broses a elwir yn 'addasu'r grant bloc' i wneud iawn am refeniw'r trethi datganoledig. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pryd a sut fydd yr addasiad yn cael ei wneud. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r trethi gael eu datganoli, yr oll fydd yn digwydd yw bod yr un swm â'r refeniw y disgwylir iddo gael ei godi trwy drethi Cymreig yn cael ei dynnu oddi ar y grant bloc. Ni fyddai'r addasiad hwn yn briodol yn y blynyddoedd wedi hynny gan na fyddai'n rhoi ysgogiad i Lywodraeth Cymru gynyddu'r sylfaen dreth.

Ystyriodd Comisiynau **Holtham** a **Silk** amrywiaeth o ddulliau posibl ar gyfer y tymor hir, ac argymhelliad y ddau oedd dull lle y byddai'r grant bloc yn cael ei addasu yn unol â'r newid blynyddol yn sylfaen dreth y DU. Gelwir hyn yn 'ddull didyniad wedi'i fynegrifo'.

Os defnyddir y dull anghywir o addasu'r grant bloc, gallai Cymru golli cannoedd o filiynau o bunnoedd o'r gyllideb ar ôl datganoli trethi. Bydd cyfraniad y Pumed Cynulliad yn hollbwysig o ran adolygu'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac o ran sicrhau bod y dull a ddewisir yn addas ar gyfer Cymru.

Mae'r trafodaethau hir rhwng Llywodraethau'r Alban a'r DU i gytuno ar **ddull ariannu teg** ar gyfer yr Alban hefyd yn dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod y bloc grant yn cael ei addasu'n gywir. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai'r dull pum mlynedd y cytunwyd arno ar gyfer yr Alban o reidrwydd yn rhoi canlyniad derbyniol yng Nghymru o ystyried bod dosbarthiad incwm trethdalwyr yn wahanol.

## Beth yw goblygiadau hyn i Gymru?

Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae **cyfran Cymru o dreth incwm y DU wedi lleihau ers 2009-10**, a nododd ei bod yn debygol mai effeithiau anghymesur mesurau polisi llywodraeth y DU a oedd yn gyfrifol am hyn.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae polisïau codi refeniw yn gyffredinol wedi targedu pen uchaf y dosbarthiad incwm a thoriadau treth wedi cael mwy o effaith ar y pen isaf (ee cynyddu'r lwfans personol, sy'n debygol o barhau i fod yn un o bolisïau Llywodraeth y DU).

O gofio bod lefelau incwm Cymru ymhell islaw cyfartaledd y DU, mae newidiadau polisi o'r fath wedi cael effaith anghymesur ar dderbyniadau treth incwm yng Nghymru, gan arwain at refeniw is yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU.

Cyhoeddodd Canolfan Llywodraethiant Cymru adroddiad ar **dreth incwm yng Nghymru** ym mis Chwefror 2016, yn disgrifio'r effaith anghyson a gaiff polisi'r DU ar refeniw treth incwm yng Nghymru. Awgrymodd nad oes rheswm i gredu, o ganlyniad, y gwneir iawn yn ddigonol am y cyllid treth incwm y bydd Llywodraeth Cymru yn ei golli yn sgil polisi treth y DU.

Mae hyn yn dangos yr heriau y mae Llywodraeth newydd Cymru a'r Pumed Cynulliad yn eu hwynebu wrth atal goblygiadau a allai fod yn niweidiol i Gymru.

## Ffynonellau defnyddiol

- Canolfan Llywodraethiant Cymru, **Income Tax and Wales: The Risks and Rewards of New Model Devolution** (Saesneg yn unig) (2016)
- Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham), **Fairness and Accountability: A New Funding Settlement for Wales** (Saesneg yn unig) (2010)
- Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), **Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru** (2012)
- Llywodraeth Cymru, **Dogfen Ymgynghori: Datganoli Trethi i Gymru – Treth Trafodiadau Tir** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Dogfen Ymgynghori: Treth Gwarediadau Tirlenwi** (2015)
- Llywodraeth y DU, **Spending Review and Autumn Statement 2015** (Saesneg yn unig) (2015)
- Y Gwasanaeth Ymchwil, **Cyfres y Gyllideb 1: Ariannu datganoli yng Nghymru** (2013)
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Devolved Taxes Forecast – March 2016** (Saesneg yn unig) (2016)


# Diwygio llywodraeth leol

*Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad bu cryn ddadlau am ailstrwythuro llywodraeth leol. A fydd Llywodraeth newydd Cymru yn bwrw ymlaen â chynlluniau o'r fath?*

***Rhys Iorwerth***

Ers 1996, bu gan Gymru 22 o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (neu 'awdurdodau lleol'). Wrth i'r hinsawdd ariannol waethygu, mae ein gwleidyddion wedi cwestiynu fwyfwy a oes angen pob un o'r cynghorau hyn arnom. Maent hefyd wedi anghytuno am y nifer gorau os derbynnir bod 22 yn ormod. Mae cryn amheuaeth, felly, a fydd gennym yr un faint o awdurdodau lleol erbyn diwedd y Pumed Cynulliad.

**Wyth awdurdod posibl**




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016
Arolwg Ordnans 100047295

## Cynlluniau'r Llywodraeth ddiwethaf

Yn 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Gomisiwn Williams** i edrych drwyddi draw ar sut oedd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru. Roedd adroddiad y Comisiwn yn un eang, ond un o'i brif gasgliadau oedd bod llawer o'n hawdurdodau lleol yn rhy fach i berfformio'n llwyddiannus. Awgrymodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru uno'r 22 cyngor i greu rhwng 10 a 12 o awdurdodau, a bwrw ati i wneud hynny yn ddiymdroi.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar y cychwyn drwy ddweud ei bod yn **ffafrio model 12 awdurdod**. Newidiodd hyn ym mis Mehefin 2015 pan gyhoeddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, fap yn dangos bod Llywodraeth Cymru bellach o blaid naill ai **wyth neu naw o awdurdodau**.

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft.** Byddai'r Bil drafft hwn yn rhoi'r broses uno ar waith, yn ogystal â gwneud newidiadau mawr eraill i sut mae llywodraeth leol Cymru yn gweithio. Yn ôl y Gweinidog, roedd 'pwysau ariannol difrifol ac anghynaliadwy' ar wasanaethau cyhoeddus yn golygu nad oedd 'gwneud dim yn opsiwn'. Er bod **Llywodraeth Cymru yn cydnabod** y gallai'r broses uno gostio hyd at £254 miliwn, honnai hefyd y gallai arbed hyd at £915 miliwn dros 10 mlynedd, pe bai'r cyfan yn cael ei gwblhau erbyn 2020-21.


Daeth ymgynghoriad ar y Bil drafft i ben ym mis Chwefror 2016, ac ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod wrthi'n **dadansoddi'r ymateb**. Yn gynnar yn y Pumed Cynulliad, felly, bydd gofyn i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a yw am fwrw ymlaen â fersiwn o'r Bil drafft hwn ai peidio.

## Yr ymateb i'r cynlluniau uno

Argymhellodd Comisiwn Williams uno'r 22 awdurdod gan ddefnyddio'u ffiniau presennol yn sail, yn hytrach nag ail-greu map newydd sbon. Cytunai Llywodraeth ddiwethaf Cymru fod hyn yn synhwyrol, gan fynnu y byddai'n arwain at greu awdurdodau mwy o faint, a mwy effeithlon, heb achosi'r strach a allai ddeillio o newid ffiniau'r cynghorau yn fwy sylfaenol.

Roedd eraill, fel **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** y Pedwerydd Cynulliad, yn honni bod angen edrych ar swyddogaethau'r awdurdodau cyn penderfynu ar eu ffurf. Byddai hyn yn golygu asesu – cyn dechrau ailstrwythuro – pa fath o wasanaethau y dylai llywodraeth leol fod yn eu darparu yn y Gymru ddatganoledig. Awgrymodd y Pwyllgor mai dim ond wedyn y gellid llunio map synhwyrol a phenderfynu sawl awdurdod sydd orau. Roedd y Pwyllgor hefyd yn honni y byddai hyn yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir nag asio'r blociau presennol o gynghorau at ei gilydd.

**Naw awdurdod posibl**




## Atebolrwydd lleol

Mae rhai sylwebwyr yn pryderu y gallai cael wyth neu naw o awdurdodau mawr danseilio atebolrwydd lleol a'r berthynas rhwng y cynghorau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yn y Bil drafft, roedd yn fwriad gan y Llywodraeth greu 'pwyllgorau ardal' i roi llais i ardaloedd o fewn y cynghorau mwy, ond **mae amheuon** ynghylch pa mor effeithiol y gallai hyn fod.

Mewn **dogfen drafod** yn 2014, cynigiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ffordd wahanol o fynd ati. Awgrymodd barhau â'r 22 awdurdod presennol er mwyn cadw ymdeimlad lleol, ond creu pedwar corff rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau pwysig. Gallai'r cyrff rhanbarthol hyn fod yn seiliedig ar yr

**awdurdodau cyfunol** sydd yn Lloegr. Byddai hynny'n caniatáu i rai gwasanaethau gael eu darparu'n fwy effeithiol ar raddfa fawr, heb amharu ar gysylltiadau lleol.

Os bydd llai o gynghorau sir, a rheini'n fwy o faint, mae sylwebwyr eraill wedi awgrymu cryfhau'r elfen leol drwy ddiwygio a grymuso cynghorau tref a chymuned – sef haen isaf llywodraeth leol yng Nghymru.

## Y berthynas rhwng y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol

Er mai materion strwythurol a daearyddol sy'n dueddol o gipio'r penawdau, mae llywodraeth leol ei hun wedi galw am newid mwy sylfaenol yn y berthynas rhyngddi hi a Llywodraeth Cymru. Mae datganoli wedi newid y ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu, felly mae'r cynghorau yn credu bod angen ailddiffinio ac edrych o'r newydd ar rôl llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn ei dogfen **O blaid atebolrwydd lleol**, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn feirniadol o Lywodraeth ddiwethaf Cymru am '[d]datblygu ymagwedd fwy canolog' tuag at wasanaethau cyhoeddus. Awgrymodd y dylai llywodraeth leol gael 'y rhyddid a'r hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau yn ôl yr amgylchiadau lleol'. Nid oes dwywaith y bydd y galwadau hyn yn parhau.

Bydd gan Lywodraeth newydd Cymru benderfyniadau mawr i'w gwneud, felly, ynghylch nifer a maint ein hawdurdodau lleol. Ond bydd hefyd yn wynebu pwysau parhaus o du'r sector am newid mwy pellgyrhaeddol ar yr un pryd.

## Ffynonellau defnyddiol


– **Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft** (2015)

– Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Atebolrwydd Lleol 2016-21 - Cynllun ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (2016)

– Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **O Blaid Atebolrwydd Lleol** (2014)

– Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **The Creation of Four Combined Authorities for Wales?** (Saesneg yn unig) (2014)

– Llywodraeth Cymru, **Dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru** (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** (2015)

# Cyllido llywodraeth leol

## *Cafodd cyllidebau llywodraeth leol eu cwtogi'n sylweddol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Os bydd y pwysau ariannol yn cynyddu yn ystod y Pumed Cynulliad, a fydd y model cyllido yn newid?*

*Owen Holzinger*

Rhwng 2010-11 a 2014-15, bu gostyngiad o **£461 miliwn** mewn termau real yn y cyllid refeniw a roddwyd i lywodraeth leol. Mae'r pwysau ariannol hwn wedi arwain at gwestiynau ynghylch sut gaiff y cyllid ei rannu, ac ar lefel fwy sylfaenol, a yw'r model ariannol presennol yn ddigon cadarn i ymdopi â rhagor o straen.

### Toriadau i lywodraeth leol

Llywodraeth Cymru sy'n rhoi tua 80% o gyllid awdurdodau lleol. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, bu cwtogi sylweddol ar y cyllid hwn wrth i'r gostyngiad yng ngrant bloc Cymru effeithio ar lywodraeth leol (amcangyfrifir bod y grant hwn **£1.2 biliwn** yn llai mewn termau real yn 2014-15 nag yn 2010-11).

Mae'r gostyngiadau wedi effeithio'n anghymesur ar rai gwasanaethau. Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif** bod llyfrgelloedd, gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau trafnidiaeth (ymhlith pethau eraill) wedi ysgwyddo toriadau o rhwng 20% a 50%, gan newid y ffordd y darperir y gwasanaethau hyn yn sylweddol. Mae gwasanaethau eraill, fel gofal cymdeithasol ac ysgolion, wedi'u diogelu.

#### Newidiadau demograffig

Er bod y cyllid yn lleihau, mae'r pwysau ar wasanaethau lleol yn cynyddu. Mae poblogaeth Cymru yn tyfu ac mae **Llywodraeth Cymru yn rhagweld** cynnydd tebyg yn y grwpiau oedran mwyaf dibynnol (0-15 a 65+) o gymharu â'r boblogaeth oedran gweithio.

Mae awdurdodau lleol wedi ymateb i'r toriadau yn eu cyllidebau drwy sicrhau arbedion mewnol, neu drwy atal gwasanaethau, cyfyngu ar wasanaethau neu eu gwneud yn fwy masnachol. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cynyddu'r dreth gyngor bob blwyddyn ers 2011 (rhwng 2010-11 a 2015-2016, mae **cost cyfartalog y dreth gyngor wedi cynyddu 18%** ledled Cymru).

Mae awdurdodau lleol hefyd wedi bod yn ystyried defnyddio modelau cyflawni amgen a mentrau trosglwyddo asedau cymunedol i ddarparu'r gwasanaethau hyn, boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymgynghori ar fframwaith cenedlaethol** er mwyn gwneud penderfyniadau ar fodelau cyflawni amgen, ac wedi llunio **canllawiau arfer gorau ar drosglwyddo asedau cymunedol**. Efallai y gwelwn ragor o ddefnydd o'r dulliau arbed arian hyn yn ystod y Pumed Cynulliad.

Yn 2014-15, roedd gan awdurdodau lleol **£832 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a £196 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol**. Os bydd gostyngiadau cyllid mwy eithafol yn y dyfodol, efallai y gwelir rhagor o waith craffu ar sut ddefnyddir y cronfeydd hyn.

## Cynnal y fformiwla

Oherwydd y toriadau mewn cyllidebau, mae llawer wedi cwestiynu'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddosbarthu cyllid i awdurdodau lleol. Yr **is-grŵp dosbarthu** sy'n cynnal y 'fformiwla dyrannu' a defnyddir 68 o ddangosyddion wrth bennu setliad.
Er enghraifft, mae dangosyddion sy'n ymwneud â:

– phoblogaeth;

– nifer y plant ac oedolion hŷn;

– hyd ffyrdd;

– amddifadedd; a

– natur wledig a theneurwydd poblogaeth.

### Argymhelliad y Pedwerydd Cynulliad

Wrth adolygu cyllideb 2016-17 a'r setliad llywodraeth leol, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r fformiwla cyllido.

Caiff elfennau o'r fformiwla eu diweddaru bob blwyddyn, a'r tro diwethaf i'r fformiwla gael ei adolygu'n llawn oedd cyn setliad 2001-02. Mae rhai o'r cyfrifiadau yn defnyddio data o Gyfrifiad 1991 neu Gyfrifiad 2001, a mynegwyd pryder ynghylch hynny.

Yn hanesyddol, defnyddiwyd terfynau ariannu isaf, terfynau ariannu uchaf a symiau atodol i gyfyngu ar ostyngiadau yn ôl yr angen. Yn fwyaf diweddar yn 2016-17, cafodd y tri awdurdod lleol â'r gostyngiadau mwyaf grant atodol, gan olygu nad oedd unrhyw ostyngiad yn fwy na 3%. Roedd angen dyrannu £2.5 miliwn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hynny.

Mae awdurdodau gwledig wedi dadlau nad yw'r fformiwla yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r gost ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth. O'r holl ddangosyddion, dim ond 6% sy'n ymwneud â theneurwydd y boblogaeth, tra bod 69% yn seiliedig ar gleientiaid (e.e. poblogaeth, niferoedd disgyblion) a 25% ar amddifadedd.

Gallai newid sylweddol yn y data arwain at sefyllfaoedd ariannu gwahanol iawn i awdurdodau o un flwyddyn i'r nesaf a byddai angen i unrhyw adolygiad ystyried sut i gymedroli gostyngiadau mawr mewn cyllid.

## Hyblygrwydd a'r elfen leol

Ochr yn ochr â diwygiadau eraill, nododd Llywodraeth ddiwethaf Cymru fod **angen adolygu'r system ariannu ar gyfer llywodraeth leol**, a bod y system bresennol yn gymhleth. Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru y byddai'n ceisio creu system sy'n rhoi mwy o ryddid i wneud penderfyniadau lleol, ymhlith pethau eraill.

Mae cyrff llywodraeth leol wedi galw am newidiadau hefyd, gan ofyn am fwy o annibyniaeth ariannol a mwy o hyblygrwydd i benderfynu sut mae awdurdodau'n gwario'u harian. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl sicrhau atebion lleol a mwy o atebolrwydd, ac **ym marn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, byddai'n ategu'r gwaith arbed a'r arloesi** sydd ei angen yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r **Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru (2016)** hefyd wedi galw am fwy o hyblygrwydd.

Gallai Bil Cymru roi pwerau i'r Cynulliad gynllunio ei broses ei hun ar gyfer y gyllideb ac, o bosibl, gweithredu rhai o'r argymhellion hyn. Gallai cyllideb ar ei newydd wedd gynnwys pethau fel strategaethau ariannu amlflwyddyn, yn unol â'r argymhelliad yn **ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r arferion gorau o ran y gyllideb a chais awdurdodau lleol.**

Yn dilyn **cyhoeddiad** Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2015 y bydd cynghorau yn Lloegr yn cadw 100% o'r ardrethi busnes a gesglir erbyn 2020, gallai Llywodraeth Cymru, o bosibl, ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru gadw'r ardrethi hefyd. Byddai peidio â neilltuo grantiau penodol hefyd yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol ddewis sut i wario'u harian.

## Pwysau yn y Pumed Cynulliad

Nododd yr **Adolygiad o Wariant** gan Lywodraeth y DU yn 2015 y bydd grant bloc Cymru yn parhau i leihau mewn termau real wrth symud i'r Pumed Cynulliad. Yn unol â hynny, efallai bod angen i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer toriadau tebyg yn y gyllideb i'r hyn a gafwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, o leiaf yn y dyfodol agos.

Mae newidiadau strwythurol, fel uno'r awdurdodau, yn cynnig ateb posibl (gweler yr erthygl ar ddiwygio llywodraeth leol) ond byddai hynny'n costio arian ac nid yw lefel yr arbedion yn sicr. Wrth i'r pwysau gynyddu, bydd penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch y model ariannu yn hollbwysig i ddyfodol hirdymor ein hawdurdodau lleol.

## Ffynonellau defnyddiol

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Atebolrwydd Lleol 2016-21 - Cynllun ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni** (2015)
- Swyddfa Archwilio Cymru, **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015** (2015)
- Y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru, **Uchelgais ar gyfer newid: Anelu'n Uwch** (2016)
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Economic and Fiscal Outlook – Mawrth 2016** (Saesneg yn unig) (2016)
- Yr Is-grŵp Dosbarthu, **Cyflwyniad yr Is-grŵp Dosbarthu** (2015)

# Y comisiynwyr a'r ombwdsmon

*Bu llawer o drafod am y gwahaniaethau ym mhwerau a threfniadau llywodraethu ein comisiynwyr a'r ombwdsmon. A yw'n bryd ailwampio pethau?*

***Stephen Boyce***

Ers i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddechrau yn ei swydd ym mis Ebrill 2016, mae gan Gymru bedwar comisiynydd statudol ac ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus. Ond a yw eu swyddogaethau yn ddigon clir, ac a ydynt yn wirioneddol annibynnol? Mae'r trefniadau i'w penodi a'u dwyn i gyfrif yn anghyson, ac mae rhai, gan gynnwys rhai o'r comisiynwyr eu hunain, o'r farn bod angen newid.

## Y comisiynwyr a'r ombwdsmon yng Nghymru

Ers creu comisiynydd cyntaf Cymru yn 2001 – ar gyfer plant a phobl ifanc – mae comisiynwyr wedi sefydlu'u hunain yn rhan o'n bywyd cyhoeddus. Maent yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn hawliau dinasyddion Cymru a gwella gwasanaethau cyhoeddus o fewn eu meysydd gwaith.

Erbyn hyn mae comisiynwyr ar gyfer pobl hŷn, y Gymraeg, cenedlaethau'r dyfodol a phlant, yn ogystal â chomisiynydd safonau'r Cynulliad ac ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn y maes hwn – pan grëwyd rhai o swyddi'r comisiynwyr, y rhain oedd y cyntaf o'u math. Cydnabyddir hefyd bod creu un ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus drwy uno tri chorff blaenorol yn enghraifft o arfer da.

## Annibyniaeth y comisiynwyr

Craffodd sawl pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad ar y prosesau ar gyfer penodi'r comisiynwyr a'u dwyn i gyfrif. Y casgliad oedd y dylai rhanddeiliaid neu grwpiau trawsbleidiol ymwneud mwy â'r broses benodi, neu bod y Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud hynny.

### Gwahanol drefniadau llywodraethu

Mae'r comisiynwyr ar gyfer pobl hŷn, y Gymraeg, cenedlaethau'r dyfodol a phlant i gyd yn cael eu penodi a'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, er eu bod yn annibynnol. Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei benodi gan y Frenhines yn dilyn argymhelliad gan y Cynulliad, a'i ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff y Comisiynydd Safonau, sy'n ymwneud â safonau yn y Cynulliad, ei benodi gan y Cynulliad a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Er nad oes awgrym o unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru, mae'r comisiynydd plant presennol yn ogystal â'r un blaenorol wedi dadlau y dylai deilydd y swydd fod yn atebol i'r Cynulliad a chael ei benodi ganddo. Yn yr un modd, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cwestiynu a yw'n briodol mai Llywodraeth Cymru sy'n ariannu ei swydd.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi awgrymu mai ymrwymiad y ddwy ochr i wneud i'r trefniant weithio sy'n gyfrifol am y diffyg gwrthdaro rhwng ei swyddfa a Llywodraeth Cymru. Ac ystyried yr angen i gomisiynwyr fwrw llygad beirniadol dros waith y llywodraeth, mae amheuaeth a fydd y trefniadau presennol yn ddigon cadarn yn y tymor hir.

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Dr Mike Shooter i gynnal **adolygiad annibynnol** o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Gwnaeth adroddiad Shooter nifer o argymhellion ynghylch cylch gwaith y comisiynydd, ynghyd â'r trefniadau atebolrwydd, penodi, ariannu a llywodraethu. Roedd hyn yn cynnwys argymell ymestyn cylch gwaith y comisiynydd i gynnwys materion sydd heb eu datganoli. Cytunodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru, gan dderbyn llawer o'r argymhellion yr oedd o fewn ei phwerau i'w gweithredu. Fodd bynnag, mae agweddau eraill ar yr adroddiad wedi arwain at anghytuno mawr.

Argymhellodd yr adolygiad mai'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru ddylai benodi ac ariannu'r comisiynydd plant yn y dyfodol. Anghytunodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru, er mawr siom i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai unrhyw bwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad bwyso'n gryf dros ailystyried y penderfyniad hwn. Nododd adroddiad Shooter hefyd fod angen i'r Cynulliad graffu'n fwy trylwyr ar y comisiynydd.

## Dull strategol

Mae gwahaniaethau mewn pwerau yn ogystal â threfniadau llywodraethu rhwng y comisiynwyr; mae pob un wedi cael ei sefydlu dan ddeddfwriaeth ar wahân. Oherwydd y gwahaniaethau hyn, awgrymodd adroddiad Shooter y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr hyn sy'n ofynnol gan bob comisiynwr a drafftio un ddeddf a allai bennu diffiniadau, egwyddorion, swyddogaethau a phwerau sy'n gyffredin i bob un. Gallai materion sy'n benodol i bob comisiynydd gael eu nodi mewn rheoliadau.

Ni fyddai drafftio deddfwriaeth i gynnwys yr holl gomisiynwyr yn fater syml, ac ystyried eu cylchoedd gwaith gwahanol, ond gallai dull mwy cydlynol eu gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau bod y cyhoedd yn deall eu gwaith yn well.

Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru nad oedd wedi'i hargyhoeddi bod angen un darn o ddeddfwriaeth a fyddai'n cwmpasu'r comisiynwyr i gyd. Fodd bynnag, ymrwymodd i wneud rhywfaint o waith ymchwil ar ddeddfwriaeth bosibl. Yn y cyfamser, lluniodd is-ddeddfwriaeth i sicrhau bod cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cyd-fynd â thymhorau'r comisiynwyr eraill ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Wrth i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fwrw ati, mae gwaith swyddfeydd y comisiynwyr yn dylanwadu ar fywydau nifer cynyddol o bobl. O ystyried proffil cyhoeddus amlwg deiliaid swyddi o'r fath, bydd yn bwysicach nag erioed cael eglurder am eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.

## Ffynonellau defnyddiol

- Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru** (2014)
- Llywodraeth Cymru, **Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru** (2016)
- Royles, E. a Powel, D., **Y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon a seilwaith llywodraethiant Cymru: gwersi o Gymru a gwersi i Gymru** (2014)



# Iechyd a gofal cymdeithasol

- Tegwch wrth roi meddyginiaethau
- Newid gwasanaethau mewn ysbytai
- Gweithlu cynaliadwy yn y GIG
- Dyfodol gofal cymdeithasol
- Cysgod mawr dementia
- Mynd i'r afael â gordewdra

# Tegwch wrth roi meddyginiaethau

## *A oes loteri cod post yn bodoli wrth ariannu cyffuriau'r GIG, ynteu a yw'r prosesau cywir gennym i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael y triniaethau gorau mewn ffordd deg?*

***Philippa Watkins***

Bydd y cyfryngau yn aml yn rhoi sylw i achosion lle bydd cleifion yn methu â chael meddyginiaethau penodol drwy'r GIG. Bydd gwleidyddion hefyd yn clywed am etholwyr sydd wedi cael anhawster yn cael y driniaeth fwyaf addas iddynt yn eu barn hwy a'u meddygon.

Mae'n fater emosiynol ac anodd. Gyda chyllideb gyfyngedig a galw cynyddol am wasanaethau, mae GIG Cymru o dan bwysau cynyddol i ddangos ei fod yn blaenoriaethu'n effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian. Mae cleifion yng Nghymru, serch hynny, am gael eglurder a sicrwydd ynghylch triniaethau ac, yn fwy na dim, am deimlo nad ydynt yn rhan o loteri cod post.

### Arfarnu meddyginiaethau

Cyn y gellir defnyddio meddyginiaethau newydd i drin cleifion y GIG fel mater o drefn, mae'n rhaid mynd drwy broses arfarnu i benderfynu a yw'r budd i gleifion yn cyfiawnhau'r gost.

Mae'r **Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)** yn cynghori'r GIG ar effeithiolrwydd clinigol ac effeithiolrwydd cost meddyginiaethau sydd newydd gael eu trwyddedu. Mae sail statudol i'r cyngor hwn yng Nghymru a Lloegr, gyda rhwymedigaeth gyfreithiol ar fyrddau iechyd Cymru i ariannu meddyginiaethau sydd wedi'u cymeradwyo gan NICE.

Mae gan **Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)** gyfrifoldeb i arfarnu meddyginiaethau newydd nad ydynt ar raglen waith NICE. Mae gofyniad cyfreithiol ar fyrddau iechyd yng Nghymru i ariannu meddyginiaethau a gymeradwywyd gan AWMSG hefyd.

### Cronfa Cyffuriau Canser

Yn Lloegr, mae'r Gronfa Cyffuriau Canser yn ariannu'n rheolaidd nifer o feddyginiaethau canser nad ydynt ar gael drwy'r GIG. Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, roedd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r galw am gronfa debyg. Ei dadl oedd bod cronfa o'r fath yn gwahaniaethu yn erbyn cyflyrau iechyd eraill, ac nad yw'r gronfa wedi bod yn well i gleifion yn Lloegr nag yng Nghymru wrth gynnig meddyginiaethau newydd a chost-effeithiol. Yn 2013, **dywedodd y Prif Weinidog**:

> *… rydym yn gwybod nawr nad yw'r gronfa cyffuriau canser yn ddim mwy na thwyll. Byddaf yn egluro pam rwy'n dweud hynny. O'r rhai sy'n gwneud cais am gyllid i'r gronfa cyffuriau canser, mae mwy na 70% yn cael eu gwrthod. O ran y gronfa gyfatebol yng Nghymru, y ceisiadau cyllido cleifion unigol, sy'n agored i bobl â phob cyflwr, nid yn unig y rhai sy'n dioddef o ganser, derbynnir mwy na hanner y ceisiadau.*

### Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)

Os nad yw meddyginiaeth arbennig wedi cael ei chymeradwyo gan NICE neu AWMSG at ddefnydd cyffredinol yn y GIG yng Nghymru, gall clinigydd anfon Cais Cyllido Claf Unigol at fwrdd iechyd. Caiff y ceisiadau hyn eu hystyried ar sail pa mor 'eithriadol' yw'r achos. Cyhoeddwyd **polisi Cymru gyfan** ar gyfer hyn yn 2011, gyda'r nod o sicrhau dull cyson o benderfynu ar y ceisiadau.

Mae’r broses hon wedi cael ei beirniadu’n gyson. Clywodd **ymchwiliad canser** Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad yn 2014 ei bod yn bosibl bod paneli’r byrddau iechyd yn ymdrin â cheisiadau mewn ffyrdd gwahanol, ac argymhellodd y Pwyllgor fod panel cenedlaethol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru **adolygiad (a gyhoeddwyd yn 2014)** a wnaeth nifer o argymhellion i gryfhau'r broses, ond ni wnaeth yr adolygiad hwn argymell creu panel ar gyfer Cymru gyfan.

## Newidiadau i'r Gronfa Cyffuriau Canser

Bydd model newydd ar gyfer y Gronfa Cyffuriau Canser yn cael ei gyflwyno yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y gronfa bellach yn dod o dan gylch gwaith NICE, a dylai hyn sicrhau bod cleifion yn cael cyffuriau newydd yn gynt a bod mwy o sicrwydd am ba driniaethau sydd ar gael. Mae NICE a GIG Lloegr wedi cadarnhau mai cyfrifoldeb y gwledydd datganoledig fydd penderfynu sut maent am ymateb i drefniadau newydd y Gronfa Cyffuriau Canser. Nid yw'n glir eto sut allai'r newidiadau effeithio ar Gymru.

Bydd NICE yn arfarnu llawer mwy o gyffuriau, a hynny yn gynharach yn y broses. Gallai hyn effeithio ar raglen waith AWMSG, neu ar gyllideb meddyginiaethau GIG Cymru, ac ystyried bod yn rhaid i fyrddau iechyd ariannu meddyginiaethau a gymeradwywyd gan NICE.

Yn Lloegr, o dan y model newydd, os gwneir argymhelliad drafft i’r GIG i gomisiynu cyffuriau fel mater o drefn, neu i’w defnyddio drwy’r Gronfa Cyffuriau Canser, yna bydd y cyffuriau hynny ar gael ar unwaith i gleifion, gan eu hariannu dros dro drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser. Mae Cancer Research UK yn galw am eglurder ynghylch beth fydd goblygiadau'r newidiadau i gleifion yn y gwledydd datganoledig lle nad oes unrhyw ddull tebyg ar gael i ariannu’r meddyginiaethau hyn dros dro.

Mae **Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan** wedi sefydlu un dull posibl o ariannu rhai triniaethau newydd yng Nghymru. Bydd y **broses 'Cymru'n Un'** yn caniatáu comisiynu meddyginiaethau dros dro ar gyfer carfannau penodol o gleifion, cyn belled â bod cynhyrchwyr y meddyginiaethau hynny yn cytuno i gymryd rhan mewn arfarniad dilynol gan AWMSG neu NICE. Rhagwelir, fodd bynnag, na fydd y broses hon yn cael ei defnyddio'n aml.

Waeth beth fo'r newidiadau yn Lloegr, bydd cleifion a rhanddeiliaid eraill am deimlo'n hyderus bod y system i arfarnu ac ariannu meddyginiaethau yng Nghymru yn gadarn ac yn dryloyw, ac yn sicrhau bod triniaethau effeithiol ar gael yng Nghymru mewn ffordd deg.

## Ffynonellau defnyddiol

- Cancer Research UK, **Changing the Cancer Drugs Fund: a step towards fixing how the NHS provides the best medicines** (Saesneg yn unig) (2016)
- GIG Cymru, **All Wales Policy – Making Decisions on Individual Patient Funding Requests (IPFR)** (Saesneg yn unig) (2011)
- GIG Lloegr, **Ymgynghoriad ynghylch y Gronfa Cyffuriau Canser** (Saesneg yn unig) (2015)
- Grŵp Adolygu IPFR Cenedlaethol, **Review of the Individual Patient Funding Request Process - Report for the Minister for Health and Social Services (PDF 539KB)** (Saesneg yn unig) (2014)
- Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru** (2014)
- Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, **Gwybodaeth am y broses newydd ar gyfer y Gronfa Cyffuriau Canser** (Saesneg yn unig) (2016)

# Newid gwasanaethau mewn ysbytai

*Mae'r cynlluniau i newid gwasanaethau mewn ysbytai wedi achosi cryn ddadlau. Beth yw'r achos o blaid ac yn erbyn newid, a sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn ymateb?*

***Paul Worthington***

Mae unrhyw gynlluniau i newid gwasanaethau mewn ysbytai bron yn sicr o ddenu sylw. Mae gan gymunedau deimladau cryfion am eu hysbytai lleol. Mae ad-drefnu gwasanaethau wedi dod yn derm trymlwythog ei ystyr, ac mae'n hawdd iawn iddo begynnu barn. Mae rhai yn ystyried bod newidiadau yn gyfystyr â bygythiad i 'israddio' gwasanaethau; gall eraill eu gweld fel cam cadarnhaol sy'n angenrheidiol er mwyn gwella'r gwasanaethau hynny.

Cyfeiriodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn gyson at **yr angen i newid gwasanaethau iechyd Cymru,** gan symud buddsoddiad a gwasanaethau o'r ysbytai i'r gymuned. Mae **Swyddfa Archwilio Cymru**, Cymdeithas Feddygol Prydain a **Chonffederasiwn GIG Cymru** i gyd wedi adleisio'r alwad honno, gan ddadlau ei bod yn hanfodol trawsnewid gofal iechyd mewn ffordd radical er mwyn sicrhau bod GIG Cymru yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Ceir consensws proffesiynol hefyd bod rhai gwasanaethau ysbyty arbenigol yn cwmpasu ardaloedd daearyddol rhy eang, gan arwain at bryderon ynglŷn â **hyfforddi a recriwtio meddygon**.

Mae Conffederasiwn GIG Cymru, **Cymdeithas Feddygol Prydain** a **sylwebyddion ym maes polisi iechyd** wedi pwysleisio'r angen i gael sgyrsiau onest â'r cyhoedd a chlinigwyr am y dewisiadau, ac am sut fydd y dewisiadau hynny'n effeithio ar wasanaethau gofal iechyd lleol. Mae cleifion, y cyhoedd a chlinigwyr wedi mynegi amheuon am y sail resymegol dros newid, ac wedi lleisio pryderon ynghylch pa mor effeithiol fu'r broses o drafod y cynigion hynny â'r bobl a'r cymunedau perthnasol.

## Beth yw'r achos o blaid newid?

Yn 2012 cyhoeddodd **Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru adolygiad annibynnol** o sut roedd gwasanaethau ysbytai Cymru wedi'u trefnu. Daeth yr adolygiad hwn i nifer o gasgliadau:

- nid oedd y modd yr oedd gwasanaethau ysbyty wedi'u trefnu ar y pryd yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion;
- gallai rhai gwasanaethau gau heb fwriad, a methu'n llwyr o bosibl, oherwydd prinder staff meddygol;
- oherwydd bod gwasanaethau'n dod yn fwy a mwy arbenigol, gellid sicrhau gwell canlyniadau i gleifion mewn rhai gwasanaethau trwy ganoli staff clinigol arbenigol a lleoli gwasanaethau penodol mewn un safle;
- bydd gofyn teithio ymhellach o ganlyniad i ganoli, ond gellir lleihau effaith hyn trwy wella'r gofal sydd ar gael y tu allan i'r ysbyty a darparu gwell cludiant; ac
- roedd achos cryf dros newid sut mae rhai gwasanaethau mewn ysbytai yn cael eu darparu.

Mae Comisiwn Bevan hefyd wedi cyhoeddi papur dylanwadol ar **ofal iechyd darbodus** (2013), a oedd yn nodi angen dybryd am gyflwyno mwy o ofal iechyd y tu allan i ysbytai. **Derbyniodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru** yn benodol yr argymhellion gofal iechyd darbodus fel sail ar gyfer bwrw ymlaen.


Nid yw pawb wedi derbyn yr achos dros newid. Mae gwrthbleidiau, **grwpiau ymgyrchu,** cymunedau lleol a rhai clinigwyr wedi mynegi amheuon. Bu galwadau am foratoriwm ar gau ysbytai, ac am ailagor rhai ysbytai a gwasanaethau uned mân anafiadau. Mae **gwaith gan y King's Fund yn Lloegr** wedi cefnogi'r achos dros newid gwasanaethau, ond roedd hefyd yn cynghori y dylid bod yn ofalus ynglŷn ag effaith hynny, gan bwysleisio na fydd yr un ateb yn briodol bob tro ar gyfer gwasanaethau lleol.

Nid yw newid bob amser yn anochel. Cafodd cynigion i ganoli gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd eu herio gan gymunedau lleol a staff clinigol. Yn ddiweddarach, **penderfynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr beidio â bwrw ymlaen** â'r cynigion.

## Beth yw'r heriau?

Ochr yn ochr â galwadau i symud oddi wrth ofal ysbyty, mae'r pwysau ar ysbytai acíwt ledled Cymru yn parhau i gynyddu, gyda'r niferoedd sy'n mynd i **adrannau damweiniau ac achosion brys** ac **sy'n cael eu derbyn fel achosion brys** yn uchel.

### Ysbytai acíwt Cymru




Pobl dros 65 oed yw prif ddefnyddwyr gwasanaethau acíwt y GIG, ac yng Nghymru mae nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Mae'r **Prif Swyddog Meddygol wedi dadlau** nad ysbytai acíwt o reidrwydd yw'r lle cywir ar gyfer pobl hŷn, ond mae'n nodi eu bod yn debygol o aros yn yr ysbyty am amser hwy, yn rhannol oherwydd anghenion ym maes adsefydlu. Mae lefelau **clefydau cronig hefyd yn cynyddu**, gan gynnwys diabetes, problemau â'r cymalau a chlefyd y galon, a bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar

wasanaethau iechyd. Mae llawer o'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen buddsoddi mwy mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol cryfach er mwyn rheoli'r galw hwn.

## Beth sydd wedi digwydd hyd yma?

Mae gan Gymru 16 o ysbytai mawr acíwt a thros 50 o ysbytai cymunedol - heb gynnwys darpariaeth canser arbenigol ac iechyd meddwl.

Mae newid eisoes wedi digwydd. Mae rhai ysbytai cymunedol ac unedau mân anafiadau wedi cau, er bod gwasanaethau newydd wedi agor yng Nghwm Cynon, Ystrad Mynach, Llanfair-ym-muallt, y Fflint a mannau eraill. Buddsoddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru gryn dipyn o **arian ychwanegol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol** yn hytrach nag mewn ysbytai.

Mae ymgynghoriadau o bwys wedi'u cynnal ar ad-drefnu gwasanaethau ysbytai yn y **gogledd**, y **gorllewin** a'r **de**, ac mae newidiadau eisoes ar y gweill mewn ysbytai acíwt mawr, gan gynnwys:

- symud gwasanaethau mamolaeth o **Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfforddd i Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin**;
- agor gwasanaethau gofal brys newydd dan arweiniad nyrsys a meddygon teulu yn **Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli**;
- dechrau cyflwyno newidiadau ym maes damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau mamolaeth, pediatreg a gofal newydd-enedigol, a fydd yn cael eu darparu mewn **llai o ysbytai ledled y de**; a
- chanoli gwasanaethau asesu strôc ar un safle yng **Nghwm Taf.**

Mae byrddau iechyd yn gweithio ar gynigion ynglŷn â dyfodol gwasanaethau eraill, gan gynnwys trawma mawr, diagnosteg a rhai arbenigeddau llawfeddygol: fe allai hynny arwain at alwadau am fwy o gymorth yn y gymuned ond hefyd am ganoli mwy ar rai gwasanaethau ysbyty. Fodd bynnag, nid oes fawr wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd.

Mae'r ddadl ynglŷn â dyfodol gofal iechyd yng Nghymru yn annhebygol o ddiflannu. Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn ymateb i'r gwahanol safbwyntiau, y pwysau a'r dewisiadau amrywiol a fydd yn pennu cyfeiriad a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd yng Nghymru?

## Ffynonellau defnyddiol

- Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, **Y trefniant gorau ar gyfer gwasanaethau ysbytai Cymru: Adolygiad o'r dystiolaeth (PDF 944KB)** (2012)
- Comisiwn Bevan, **Simply Prudent Healthcare** (Saesneg yn unig) (2013)
- Conffederasiwn GIG Cymru, **Her 2016 Gweledigaeth i GIG Cymru (PDF 627KB)** (2015)
- Swyddfa Archwilio Cymru, **GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14** (2014)

# Gweithlu cynaliadwy yn y GIG

*Heb y staff cywir ni fydd y GIG yn gallu cwrdd ag anghenion gofal iechyd y boblogaeth. Ond a wyddom ddigon am gyfeiriad gwasanaethau i gynllunio'r gweithlu sydd ei angen arnom?*

***Philippa Watkins***

Cael gweithlu cynaliadwy yw'r her fwyaf sy'n wynebu GIG Cymru dros y blynyddoedd nesaf, yn ôl sefydliadau'r GIG a gweithwyr iechyd. Mae pryderon amlwg am brinder staff mewn rhai meysydd, ac mae rhai'n cwestiynu a yw'r niferoedd a'r math cywir o staff meddygol a staff gofal iechyd yn cael eu recriwtio a'u cadw i ddarparu gofal yn y dyfodol.

Er bod ffocws cryf yn y cyfryngau ar waith meddygon, mae'n amlwg bod angen ffordd ehangach, amlddisgyblaethol o gynllunio – ffordd sy'n gofalu am y 'person cyfan'. Elfen bwysig yn hyn o beth fydd datblygu sgiliau staff presennol y GIG.

## Gofal sylfaenol

Mae'n bolisi clir yng Nghymru i newid ffocws y ddarpariaeth iechyd er mwyn canolbwyntio ar wasanaethau gofal cymunedol a sylfaenol, yn hytrach na gwasanaethau mewn ysbytai (gofal eilaidd). Yn hanesyddol bu ffocws ar drin salwch, ond nawr mae llawer mwy o bwyslais ar sut all y GIG atal salwch ac ymyrryd yn gynnar.

A yw'r gweithlu gennym i gyflawni'r newid hwn? Mae pryderon yn dal i gael eu gwyntyllu am y cyflenwad o feddygon teulu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Gwnaed nifer o argymhellion gan **ymchwiliad gweithlu meddygon teulu** Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad (2015), gyda'r nod o wella'r broses o recriwtio a chadw meddygon teulu. Ond er ei bod yn amlwg y bydd meddygon teulu yn parhau i fod yn hollbwysig, mae **cynllun gweithlu gofal sylfaenol** Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn pwysleisio y bydd cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau yn dibynnu ar wneud y mwyaf o gyfraniad ystod eang o broffesiynau. Mae **sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol** hefyd o'r un farn, ac wedi tynnu sylw at werth gweithwyr ym maes diagnosteg, therapi a fferylliaeth, ynghyd â gweithwyr cymdeithasol a pharafeddygon, wrth ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae cynllun gweithlu gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r angen am ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu sy'n cwmpasu'r system gyfan, ond mae'n cydnabod bod bylchau mewn gwybodaeth am y gweithlu presennol. Mae hefyd angen i ffurf y gwasanaethau fydd yn cael eu darparu yn y gymuned yn y dyfodol fod yn fwy eglur, er mwyn deall yn llawn y math o weithlu sydd ei angen yn y tymor hwy.

## Gwasanaethau acíwt ac arbenigol

Mae'r sector hefyd yn parhau i godi pryderon am gynaliadwyedd y gweithlu meddygol mewn gwasanaethau acíwt (ysbytai). Mae byrddau iechyd lleol yn dweud ei bod yn anodd recriwtio ar gyfer rhai arbenigeddau (er enghraifft, meddygaeth frys, seiciatreg a phediatreg). Mae prinder staff meddygol sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol wedi arwain pobl i gredu bod rhai gwasanaethau yn anniogel. Yn 2015, er enghraifft, roedd cynlluniau i atal gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hynny oherwydd problemau staffio. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae **niferoedd cyffredinol** y meddygon yng Nghymru wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Rhwng 2005 a 2015, cynyddodd nifer y meddygon ymgynghorol mewn ysbytai dros 40%.

Un rhan o'r darlun yn unig yw'r gweithlu meddygol fodd bynnag – dim ond 8% o weithlu'r GIG sy'n feddygon (er eu bod yn cyfrif am tua 20% o'r gost). Ochr yn ochr â'r cynnydd cyffredinol yn nifer y meddygon, mae'r niferoedd wedi aros yr un fath neu wedi lleihau mewn **grwpiau eraill o staff**, er enghraifft staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol.

## Sgiliau'r gweithlu presennol

Mae gofal iechyd yn symud i gyfeiriad amlwg, sef un sy'n dibynnu'n gynyddol ar gynllunio aml-ddisgyblaethol, aml-asiantaeth, a hynny'n cyd-fynd ag egwyddorion **gofal iechyd** darbodus ('gwnewch yr hyn na all neb ond chi ei wneud'). Fel yr amlygwyd yng nghynllun gweithlu gofal sylfaenol Llywodraeth ddiwethaf Cymru, mae swyddi 'uwch ymarferydd' newydd a meithrin sgiliau estynedig ymhlith staff anfeddygol yn debygol o fod yn hollbwysig wrth ymateb i'r her sy'n dod yn sgil cynnydd yn y galw a phoblogaeth sy'n heneiddio – poblogaeth ac iddi anghenion iechyd a gofal cymhleth.

Rydym yn gwybod bod 80% o'r gweithlu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt eisoes yn gweithio yn y GIG yng Nghymru, ac felly bydd yn hanfodol ailgynllunio a datblygu'r gweithlu presennol.

## Adolygu'r gweithlu

Roedd yr adolygiad **'Shape of training'** gan yr Athro Greenaway (2013) yn edrych ar ddiwygiadau posibl i strwythur addysg a hyfforddiant meddygol i ôl-raddedigion ledled y DU. Un o brif negeseuon yr adroddiad yw bod angen mwy o feddygon sydd â'r gallu i ddarparu gofal cyffredinol mewn meysydd arbenigol eang ac mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol. Gan gynrychioli pedair gwlad y DU, sefydlwyd Grŵp Llywio Shape of Training i weithredu argymhellion yr adolygiad ar sail consensws y pedair gwlad.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ei **hadolygiad o weithlu'r GIG**. Roedd hwn yn ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu a thâl, a hynny yng nghyd-destun yr heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG (heriau y rhoddwyd sylw iddynt yn adroddiad 2014 Ymddiriedolaeth Nuffield, **Degawd o galedi yng Nghymru?**). Dywedodd yr adolygiad o'r gweithlu nad oes gweledigaeth strategol ynghylch beth fydd natur GIG Cymru ymhen deng mlynedd, a bod hyn yn rhwystr i'r gwaith o gynllunio modelau ar gyfer y gweithlu, sgiliau a gwahanol swyddi. Nododd yr adolygiad ymhellach fod hyn yn wir yn y gwasanaeth iechyd, ond ei fod yn fwy gwir byth mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Er mwyn cynllunio'r gweithlu'n well, argymhellodd yr adolygiad y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth strategol newydd a chlir ar gyfer GIG Cymru, a hynny yn ddiymdroi.

## Ffynonellau defnyddiol

- Greenway, Yr Athro David, **Adolygiad Shape of Training** (Saesneg yn unig) (2013)
- Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu GIG Cymru, **Gweithlu GIG Cymru – Prif themâu a thueddiadau** (2015)
- Llywodraeth Cymru, B**uddsoddiad mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Adolygiad Gweithlu'r GIG Cymru** (2016)
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Ymchwiliad i'r Gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru** (2015)
- Ymddiriedolaeth Nuffield, **Degawd o galedi yng Nghymru? Y pwysau cyllido yn wynebu'r GIG yng Nghymru hyd at 2025/26** (2014)

# Dyfodol gofal cymdeithasol

## *Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn mynd trwy gyfnod o newid mawr. Ond beth fydd hyn yn ei olygu wrth gael gwasanaethau, wrth dalu am ofal, ac i'r gweithlu?*

***Amy Clifton***

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu sawl her mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol a galw cynyddol. Mae tri mater yn debygol o fod yn arbennig o amlwg ar agenda'r Pumed Cynulliad: yr hawl i gael gwasanaethau, talu am ofal, a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### Yr hawl i gael gwasanaethau

Daeth ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** i rym ym mis Ebrill 2016, ac mae'r sylw wedi canolbwyntio ar beth fydd hyn yn ei olygu o ran hawl unigolion i gael gwasanaethau o dan y meini prawf cenedlaethol newydd.

Y meini prawf hyn fydd yn penderfynu a oes gan unigolyn hawl ddiamod i gael gofal a chymorth wedi'i ddarparu neu wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol.

Clywodd Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad bryderon y gallai'r meini prawf beri rhwystrau ac oedi i unigolion sy'n ceisio cael gwasanaethau.

Roedd sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau yn pryderu y gellid gwrthod gwasanaethau ar gam i rai pobl, ac y gellid rhoi gofalwyr di-dâl dan bwysau i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn golygu y bydd yn rhaid dibynnu mwy ar adnoddau cymunedol, ond cwestiynodd rhai rhanddeiliaid a oedd cymunedau yn barod am hyn, yn enwedig ar adeg o doriadau i gyllidebau awdurdodau lleol.

#### Y meini prawf newydd

Asesiad yw hwn sy'n penderfynu a ellir ateb anghenion yr unigolyn a gofalu am ei les drwy gynllun sydd wedi'i ddarparu neu wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol, a thrwy gynllun o'r fath yn unig. Os gall yr unigolyn ei hun neu unrhyw un arall wneud hyn, neu os gellir gwneud hyn drwy wasanaethau cymunedol neu unrhyw ddull arall, mae'n annhebygol y byddai'r unigolyn yn gymwys i gael gofal a chymorth statudol personol.

Yn wahanol i ***Ddeddf Gofal 2014*** yn Lloegr, nid yw'r Ddeddf yng Nghymru yn cynnwys proses apelio, ond gall unigolion ofyn am adolygiad neu ailasesiad o benderfyniadau ynglŷn â chymhwysedd mewn rhai amgylchiadau.

Tynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at yr angen i fonitro'n ofalus sut y gweithredir y Ddeddf. Ymrwymodd Mark Drakeford, y Gwenidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, i **werthuso'r Ddeddf** yn y Pumed Cynulliad, gan ganolbwyntio ar y drefn asesu a'r meini prawf er mwyn penderfynu a yw amcanion y Ddeddf yn cael eu cyflawni.

### Talu am ofal preswyl

Cydnabuwyd ers tro bod angen diwygio'n sylweddol y ffordd mae unigolion yn talu am ofal preswyl yng Nghymru a Lloegr. Y farn yw bod y system bresennol yn gymhleth, yn annheg ac yn anghynaliadwy, ac ystyried gofynion poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'n anodd canfod atebion, ac mae

hefyd yn faes costus, ond nid yw hwn yn fater fydd yn diflannu.

Bu llawer o drafod ac ymgynghori ynghylch sut i symud ymlaen, ond mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi oedi cyn cyflwyno newidiadau. Cyn etholiad y Cynulliad yn 2016, gwnaeth nifer o bleidiau gwleidyddol Cymru addewidion yn eu maniffestos i newid y system bresennol.

Un opsiwn, a gefnogir gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, yw codi'r trothwy sy'n dynodi a oes yn rhaid i unigolion dalu costau llawn eu gofal. Dywedodd y grŵp y byddai codi'r uchafswm cyfalaf i £100,000 yn golygu y byddai'n rhaid i **lai o bobl dalu** am eu gofal preswyl eu hunain, gan eu galluogi i gadw cyfran uwch o'u cyfalaf.

Mae **rhai'n amcangyfrif** y byddai hyn ar y cychwyn yn costio £30 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### Y system codi tâl

Disgwylir i unrhyw un sydd â dros £24,000 o gyfalaf (gan gynnwys cynilion, asedion ac eiddo) dalu am gostau llawn ei ofal hyd nes bod y cyfalaf yn disgyn yn is na'r trothwy. O dan y trothwy hwn, dim ond o'i incwm dydd i ddydd (fel pensiwn) y disgwylir i'r person gyfrannu at y costau.

## Y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae ansawdd a chynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn fater sy'n cael cryn sylw ar hyn o bryd, ac mae cwestiynau ynghylch gallu'r gweithlu i ymdopi â'r pwysau cynyddol sydd ar wasanaethau gofal. Ceir pryderon am gofrestru'r gweithlu, am y telerau ac amodau, ac am y tâl.

Ar hyn o bryd, nid yw gweithwyr gofal preswyl na gofal yn y cartref wedi'u cofrestru a'u rheoleiddio yn yr un modd â staff gofal cymdeithasol eraill.

Yn ystod y gwaith craffu ar ***Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016***, ymrwymodd Mark Drakeford, y Gweinidog ar y pryd, i gofrestru'r holl weithwyr gofal yn y cartref o 2020 a gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn 2022.

Yn 2015, **adroddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** y gall telerau ac amodau gwael ar gyfer gweithwyr gofal arwain at drosiant staff uchel a safonau gofal is.

Comisiynodd y Gweinidog blaenorol **waith ymchwil** i ganfod sut gaiff gweithwyr gofal yn y cartref eu recriwtio a'u cadw. Dangosodd hyn pa ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd y gofal. Mae'r rhain yn cynnwys contractau dim oriau, cyflogau isel, dim taliadau ar gyfer amser teithio, llwyth gwaith trwm, ymweliadau gofal 15-munud a hyfforddiant gwael.

### Trosiant staff gofal yn y cartref


Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod gan y sector gofal yn y cartref drosiant o tua 32% a bod 6% o swyddi yn wag.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod cyfyngiadau ar ymweliadau gofal o lai na 30 munud, ac ymgynghorodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru ar gynigion i wneud **rhagor o ddiwygiadau**. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau a sicrhau bod cyflogwyr yn talu gweithwyr gofal yn y cartref yr isafswm cyflog cenedlaethol (gan gynnwys amser teithio). Mae'n bosibl felly y bydd Llywodraeth newydd Cymru am fwrw ymlaen i weithredu ar hyn.

Mae darparwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr wedi mynegi pryder y bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol newydd (sy'n disodli'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol gyda swm uwch o fis Ebrill 2016) yn rhoi pwysau ariannol cynyddol ar y sector, ac y gallai arwain at doriadau i wasanaethau.

Rhybuddiodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol (Cymru) y caiff y sector gofal yng Nghymru ei **daro'n arbennig o galed** gan mai'r sector cyhoeddus, sydd o dan bwysau ariannol ei hun, sy'n talu am y mwyafrif helaeth o wasanaethau gofal.

**Rhagamcaniadau o ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, 2013-2030**




**Nodyn:** Ar sail oedolion oedd yn defnyddio gwasanaethau ar 31 Mawrth 2013. Mae'r rhagamcaniadau wedi'u llunio ar sail cyfraddau defnyddio gwasanaethau gofal presennol a rhagamcaniadau o natur ddemograffig y boblogaeth yn y dyfodol. Nid ydynt yn ystyried unrhyw newidiadau posibl yn y gyfradd y bydd pobl hŷn yn defnyddio gwasanaethau gofal.

## Ffynonellau defnyddiol

– ***Deddf Gofal 2014*** (Saesneg yn unig)

– ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***

– ***Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016***

– Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)** (2015)

– LE Wales, **Future of paying for social care in Wales – First report** (Saesneg yn unig) (2014)

– LE Wales, **Future of paying for social care in Wales – Second report** (Saesneg yn unig) (2014)

– Llywodraeth Cymru, **Dogfen ymgynghori ar y Gweithlu Gofal yn y Cartref** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal yn y cartref** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Adroddiad y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Talu am Ofal** (2015)

# Cysgod mawr dementia

*Mae pobl Cymru yn pryderu mwy am ddementia na'r un cyflwr arall. Er mai yng Nghymru y mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU, ni sydd â'r gyfradd isaf o ran cael diagnosis o ddementia. A fydd strategaeth ddementia newydd yn gwella hyn?*

***Amy Clifton***

Ac ystyried bod y boblogaeth yng Nghymru yn heneiddio, ac mai yma y mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU, nid yw'n syndod bod llawer o bobl yn pryderu am ddementia. Mae **arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru** yn dangos mai dementia sydd ar frig y rhestr o bryderon iechyd yng Nghymru; mae 76% o'r boblogaeth yn poeni am ddangos arwyddion o ddementia pan fyddant yn hŷn.

## Maint y broblem

Mae effaith ariannol ac effaith ddynol dementia ar Gymru yn sylweddol. Y gost i **economi Cymru bob blwyddyn yw £1.4 biliwn**, sef cyfartaledd blynyddol o £31,300 ar gyfer pob person sydd â dementia. Mae hynny'n cynnwys costau i'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol, er bod **ymchwil** yn dangos bod pobl â dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn talu dwy ran o dair o'r costau hyn eu hunain. Cyfanswm hyn yw £298 miliwn i ofal cymdeithasol preifat, a £622 miliwn i ofalwyr di-dâl.

### Un o flaenoriaethau iechyd y byd

'The overwhelming number of people whose lives are altered by dementia, combined with the staggering economic burden on families and nations, makes dementia a public health priority'.

- Dr Margaret Chan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Sefydliad Iechyd y Byd

Mae gan un o bob pump person yng Nghymru aelod teulu agos neu ffrind sydd â dementia. Mae tua **45,000 o bobl yng Nghymru yn byw â'r cyflwr ar hyn o bryd**, ac amcangyfrifir y bydd y ffigurau hyn yn cynyddu'n raddol dros y degawdau nesaf. Amcangyfrifodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru y byddai cynnydd o 31% yn nifer y bobl â dementia rhwng 2011 a 2021, gyda chynnydd o gymaint â 44% mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn **amcangyfrif** y bydd 55,000 o bobl yn byw â dementia yng Nghymru erbyn 2021, ac y bydd y ffigur yn codi i fwy na 100,000 erbyn 2055.




Mae 76% o bobl yng Nghymru yn poeni am ddangos arwyddion o ddementia

## Cyfraddau diagnosis a chael cymorth

Cymru sydd â'r gyfradd isaf o ran diagnosis dementia o blith cenhedloedd y DU, ac nid yw'r ffigurau wedi gwella fawr ddim dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl y **ffigurau diweddaraf** (2015), dim ond 43.4% o'r bobl sy'n byw â dementia yng Nghymru sydd wedi cael diagnosis o'r clefyd. Mae'r cyfraddau diagnosis

yn amrywio ledled Cymru, o 49.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 37.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Noda'r Gymdeithas Alzheimer fod **pobl sy'n byw â dementia yng Nghymru** yn llai tebygol o gael diagnosis ac yn llai tebygol o gael cymorth ar ôl cael diagnosis na gweddill y DU. Canfu ei gwaith ymchwil mai dim ond 58% o bobl sydd â dementia sy'n dweud eu bod yn byw'n dda.

## Y camau a gymerwyd hyd yma

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Weledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia** yn 2011.

Ym mis Ebrill 2015, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** ei huchelgais i'r Cymry fod yn genedl 'sy'n deall dementia'. Pennodd darged i gynyddu'r gyfradd ddiagnosis i 50%, a chyhoeddi £1 miliwn o gyllid, yn cynnwys arian ar gyfer gweithwyr gofal a nyrsys cyswllt gofal sylfaenol newydd.

Ym mis Chwefror 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch **GWNA FE nawr i leihau dy risg o gael dementia**, i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y camau y gall pobl eu cymryd i leihau'r risg i'w hiechyd. Mae'n awgrymu y gallai byw bywyd iach leihau'r risg o ddementia 60%.



Mae 43% o'r bobl sydd â dementia yng Nghymru wedi cael diagnosis

Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hefyd ar gynllun cyflawni tair blynedd newydd: **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**. Mae'r cynllun hwn yn nodi bod dementia yn flaenoriaeth bwysig, ac mae ynddo ymrwymiad i lunio cynllun strategol ar ddementia erbyn mis Rhagfyr 2016.

## Galw am ragor o weithredu

Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn honni fod **diffyg adnoddau, diffyg monitro a diffyg perchenogaeth** o'r cynlluniau gweithredu wedi atal cynnydd wrth wireddu'r weledigaeth bresennol ar gyfer dementia.

Croesawodd yr elusen yr ymrwymiad diweddar i gynllun strategol ar ddementia, gan nodi bod angen dybryd am strategaeth newydd sydd â llinellau atebolrwydd clir ac adnoddau digonol. Fodd bynnag, mae wedi nodi meysydd lle yr hoffai weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach, gan ddweud nad yw'r targed o 50% ar gyfer diagnosis yn mynd yn ddigon pell. Mae am weld ymrwymiad i gynyddu diagnosis i o leiaf 75% ym mhob bwrdd iechyd erbyn 2021, gyda byrddau iechyd yn ymrwymo i gynyddu'r gyfradd diagnosis o leiaf 5% yn eu hardaloedd.



Mae 58% o'r bobl sydd â dementia yng Nghymru yn dweud eu bod yn byw'n dda

Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn nodi hefyd mai dim ond 30 o swyddi a gaiff eu creu drwy'r cynlluniau i sicrhau rhagor o weithwyr cymorth dementia, er bod angen 300 o weithwyr cymorth ym marn y Gymdeithas. Mae am i gynghorwr dementia neu weithiwr proffesiynol tebyg fod ar gael i bawb sydd wedi cael diagnosis o ddementia er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth ystyrlon ar ôl cael diagnosis.

Yn2 016, cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru **Dementia: Mwy na dim ond colli'r cof**. Dogfen oedd hon yn rhoi llais i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o gamau pellach y gellid eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant gwell o ran dementia i staff iechyd a gofal er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y cyflwr a dealltwriaeth ohono, a rhagor o gymorth ar ôl i gleifion gael diagnosis, gan gynnwys un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor. Mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i ofyn am sicrwydd y byddant yn rhoi'r newidiadau sydd eu hangen ar waith. Dywedodd y Comisiynydd y byddai'n ymgymryd â gwaith dilynol i fonitro cynnydd.

A fydd Llywodraeth nesaf Cymru yn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad blaenorol ac yn creu strategaeth newydd ar gyfer dementia erbyn mis Rhagfyr 2016? A fydd y cynllun yn gwella'r cyfraddau diagnosis a'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru? Dyma rai o'r cwestiynau pwysig y bydd Aelodau'r Pumed Cynulliad o bosibl am eu gofyn.

## Ffynonellau defnyddiol


– Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, **Dementia: Mwy na dim ond colli'r cof** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad ar Law yn llaw at iechyd meddwl – Cynllun cyflawni 2016 - 2019** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia** (2011)

– Sefydliad Iechyd y Byd, **Dementia: a public health priority** (Saesneg yn unig) (2012)

– Y Gymdeithas Alzheimer, **Diagnose or disempower: Receiving a diagnosis of dementia in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)

– Y Gymdeithas Alzheimer, **Dementia 2014 Wales report** (Saesneg yn unig) (2014)

– Y Gymdeithas Alzheimer, **Dementia 2014: Opportunity for change - Wales summary** (Saesneg yn unig)(2014)

– Y Gymdeithas Alzheimer, **The Hidden cost of dementia in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)

– Y Gymdeithas Alzheimer, **Wales Diagnosis rates 2015** (Saesneg yn unig) (2015)


# Mynd i'r afael â'r epidemig gordewdra

*A hithau'n wynebu epidemig gordewdra, a fydd Llywodraeth newydd Cymru yn barod i fynd i'r afael ag un o heriau iechyd cyhoeddus mwyaf ein hoes, ynteu a yw'n faes rhy gymhleth?*

***Rebekah James***

Mae gordewdra yn **un o brif achosion marwolaethau y gellir eu hatal** yng Nghymru. Ynghyd â'r cyflyrau iechyd sy'n dod law yn llaw â gordewdra, mae'n rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd ac yn costio £73 miliwn y flwyddyn i **GIG Cymru.** Mae'r ffigur hwn yn codi i bron £86 miliwn os caiff pobl dros bwysau eu cynnwys hefyd.

Mae **gordewdra yn cynyddu'r risg** o gael clefyd y galon a gall gyfrannu at gyflyrau cronig fel diabetes math 2, rhai mathau o ganser, pwysedd gwaed uchel, dystroffi'r cyhyrau ac iselder. Gall **gordewdra effeithio** ar les unigolion, ar ansawdd bywyd ac ar y gallu i ennill cyflog. Gall **plant gordew** gael problemau iechyd ac maent yn fwy tebygol wedyn o fod yn oedolion gordew.




Er bod Llywodraeth ddiwethaf Cymru wedi cymryd camau i geisio mynd i'r afael â'r cyflwr, nid yw lefelau gordewdra **i'w gweld yn gostwng** ar hyn o bryd. Mae deiet gwael a diffyg ymarfer corff yn ffactorau pwysig, ond mae cysylltiad hefyd **rhwng gordewdra ac amddifadedd**: mae lefelau gordewdra yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig gan gynnwys Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen a Chastell-nedd Port Talbot.

## Nifer yr achosion o ordewdra

Yn ôl **Arolwg Iechyd Cymru 2014**, roedd **22% o oedolion yng Nghymru yn cael eu hystyried yn ordew** a **58% o oedolion yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew.** Mae hyn yn uwch na'r ffigur o 54% pan gyhoeddwyd yr arolwg cyntaf yn 2003/04.


Mae nifer yr oedolion sydd dros bwysau ac yn ordew yn codi o 53% yn yr **ar daloedd lleiaf difreintiedig** i 61% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae'r darlun ymhlith plant Cymru yr un mor heriol. Dengys **Rhaglen Mesur Plant Cymru 2013/14** bod **27.3% o blant dros bwysau neu'n ordew**.

Mae nifer yr achosion hyn yn codi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd, o 22.2% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig i 28.5% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Y ffigur ar gyfer plant blwyddyn derbyn (4-5 oed) yng Nghymru oedd 26.5% – sy'n uwch nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr, lle'r oedd y nifer uchaf o achosion yn 24%.

## Mynd i'r afael â'r broblem

Yn 2010 lansiodd Llywodraeth Cymru ***Lwybr Gordewdra Cymru Gyfan***, yn nodi sut y byddai'n ceisio atal a thrin gordewdra ymhlith plant ac oedolion.




Mae achosion gordewdra yn gymhleth, a gallant gynnwys ffactorau meddygol, cymdeithasol ac economaidd. Ceisiodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru fynd i'r afael â'r gwahanol ffactorau gydag amrywiaeth o bolisïau a deddfwriaeth, gan ganolbwyntio ar fwyta'n iach a gweithgarwch corfforol. Roedd y rhain yn cynnwys: Ein Dyfodol Iach; Newid am Oes; MEND; *Deddf Teithio Llesol Cymru (2013)*; Creu Cymru Egnïol; Blas am Oes a Dringo'n Uwch.

**Pedair haen y Llwybr Gordewdra**

- Lefel 1: Atal yn y gymuned ac ymyrraeth gynnar (hunanofal)
- Lefel 2: Gwasanaethau rheoli pwysau yn y gymuned ac yn y maes gofal sylfaenol
- Lefel 3: Gwasanaethau tîm amlddisgyblaethol arbenigol i reoli pwysau
- Lefel 4: Gwasanaethau meddygol a llawfeddygol arbenigol

Mae camau diweddar sydd wedi'u crybwyll gan wleidyddion a gweithwyr iechyd fel atebion posibl yn cynnwys **treth ar ddiodydd llawn siwgr** a **gwahardd hysbysebion** bwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr. Yn 2016 lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru **restr 10 cam** i fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant.

## Pryderon am y cynnydd

Mae pobl wedi beirniadu'r Llwybr Gordewdra, gan honni nad yw wedi cael ei weithredu'n gyflawn a bod diffyg gwasanaethau lefel 3. Bu galwadau hefyd am arweiniad cenedlaethol cliriach i fynd i'r afael â'r broblem.

Cynhaliodd pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliadau i **wasanaethau bariatrig** a **gordewdra ymysg plant**. Cododd y ddau ymchwiliad bryderon am lwyddiant y Llwybr Gordewdra a'r diffyg cysondeb wrth roi hwnnw ar waith. Yn 2014, canfu **adolygiad o'r Llwybr** bod holl fyrddau iechyd Cymru yn darparu gwasanaethau lefel 1 a 2, ond mai anghyson oedd darpariaeth lefel 3. Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwneud mwy ac y byddai angen i'r Pumed Cynulliad sicrhau bod y pryderon hyn yn cael sylw.

Nid yw rhai meysydd lle y gellid gweithredu wedi'u datganoli'n llawn. Er enghraifft, cyfyngedig yw gallu Cymru i ddylanwadu ar y diwydiant bwyd a diod, ac efallai bod angen dull mwy cydlynol ar lefel y DU a'r UE i achub ar bob cyfle i fynd i'r afael â gordewdra.

## Ystyriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar ordewdra, gan gynnwys amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae pryderon hefyd bod gennym **ddiwylliant o 'normaleiddio' gordewdra**. Mae rhai’n awgrymu bod angen mwy o arweiniad cenedlaethol a bod angen i adrannau Llywodraeth Cymru weithio’n well â’i gilydd, yn enwedig o ran hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff.

Nid yw rhai o’r camau a gymerwyd ers tro i leihau gordewdra yng Nghymru wedi **cael unrhyw effaith**. Bydd angen i Aelodau'r Pumed Cynulliad a Llywodraeth Cymru benderfynu pam nad oes digon o gynnydd, ac efallai ystyried dulliau newydd o geisio datrys y broblem.

## Ffynonellau defnyddiol


- BMA Cymru Wales, **What about health? Three steps to a healthier nation. A manifestro from BMA Cymru Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **10 Cam i Bwysau Iach** (2016)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Gordewdra: Trosolwg** (gwefan)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Rhaglen Mesur Plant Cymru 2013/2014** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Arolwg Iechyd Cymru 2014** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Asesu y costau i'r GIG sy'n gysylltiol a alcohol a gordewdra yn Cymru** (2011)
- Llywodraeth Cymru, **Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan** (2010)
- Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Argaeledd gwasanaethau bariatrig** (2014)
- Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, **Ymchwiliad i Ordewdra ymysg Plant** (2014)



# Addysg, plant a phobl ifanc

- Gwella safonau mewn ysgolion
- Diwygio’r cwricwlwm a hyfforddi athrawon
- Cyllido addysg uwch
- Diwygio’r system anghenion addysgol arbennig
- Blaenoriaethu plant a phobl ifanc

# Gwella safonau mewn ysgolion

*Rhoddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru flaenoriaeth i wella safonau a pherfformiad mewn ysgolion, ar ôl y 'sioc i'r system' yn sgil canlyniadau siomedig PISA. A fydd y sylw hwn yn parhau a beth yw'r prif heriau?*

***Michael Dauncey***

Roedd y ffocws a roddodd Llywodraeth Cymru ar safonau a pherfformiad ysgolion yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yn ddigynsail. Cyfaddefodd Gweinidogion fod llywodraethau blaenorol o'r un lliw gwleidyddol â hwy wedi **tynnu eu 'llygaid oddi ar y bêl'**. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a ddylid parhau â'r un dull â'i rhagflaenydd wrth ymateb i'r heriau hyn.

## Dylanwad PISA

Ym mis Rhagfyr 2010, disgrifiodd Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ganlyniadau Cymru yn y **Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)** yn 2009 fel **ysgytwad i system hunanfodlon**.

### Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)

– Mae'n arolygu galluoedd disgyblion 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth

– Caiff ei chynnal gan yr OECD mewn cylchoedd tair blynedd

– Rhoddir sgôr a safle i wledydd ar sail canlyniadau perfformiad eu sampl

Ymatebodd drwy gyflwyno cynlluniau oedd yn canolbwyntio o'r newydd ar lythrennedd a rhifedd, yn ogystal â gwell atebolrwydd ac arweinyddiaeth a rheolaeth gryfach mewn ysgolion. Nid oedd **Canlyniadau PISA 2012** fawr gwell gyda Chymru yn sgorio'n is na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn is na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Fodd bynnag, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod ei diwygiadau yn dal i fwrw gwreiddiau ac y byddai'n cymryd blynyddoedd i oresgyn yr heriau a amlygwyd gan PISA.

Yn gynnar yn 2016, dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, fod canlyniadau 2009 yn **sioc i'r system** a bod llawer wedi newid o ganlyniad i PISA.

## Cynllun gwella addysg

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwella addysg, **Cymwys am Oes**. Roedd hyn yn rhannol mewn ymateb i **adolygiad a gomisiynwyd gan yr OECD (2014)** a ddaeth i'r casgliad bod diffyg gweledigaeth hirdymor a diffyg strategaeth weithredu glir a chyffredin ar gyfer gwella ysgolion.

Mae Cymwys am Oes yn cynnwys pecyn o ddiwygiadau tan 2020, yn seiliedig ar bedwar amcan strategol:

– gweithlu proffesiynol rhagorol;

– cwricwlwm sy'n ddeniadol ac yn atyniadol;

– cymwysterau sy'n cael eu parchu'n rhyngwladol; a

– system sy'n hunanwella gydag arweinyddiaeth gref.

Hefyd, ymrwymodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru i gyhoeddi Cerdyn Adroddiad Addysg Cymru yn flynyddol yn nodi'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni ochr yn ochr â phob amcan strategol. Cyhoeddodd y **Cerdyn Adroddiad Addysg Cymru** ym mis Mawrth 2016. Dywedodd hwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd ym mhob cyfnod addysg a'i bod yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Fodd bynnag, dadleuodd y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr nad oedd y cerdyn adrodd yn rhoi'r darlun cyfan. Cyfeiriodd y Gymdeithas at yr adroddiad blynyddol diweddaraf gan Estyn gan nodi bod y Gweinidog yn marcio ei waith cartref ei hun, fel petai.

**Sgoriau PISA 2012**

*sgôr gymedrig*

| | Mathemateg | Darllen | Gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | **468** | **480** | **491** |
| Lloegr | 495 | 500 | 516 |
| Yr Alban | 498 | 506 | 513 |
| Gogledd Iwerddon | 487 | 498 | 507 |
| Y DU | 494 | 499 | 514 |
| OECD | 494 | 496 | 501 |

**Cyflawniad disgyblion yng Nghymru, yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim 2010/11 – 2014/15**

*canran yn cyflawni trothwy cynwysedig lefel 2*

| | Pob disgybl | Dim FSM | Hawl i FSM | Gwahaniaeth pwynt canran |
|---|---|---|---|---|
| 2010/11 | 50.1 | 55.7 | 22.0 | 33.7 |
| 2011/12 | 51.1 | 56.6 | 23.4 | 33.2 |
| 2012/13 | 52.7 | 58.5 | 25.8 | 32.7 |
| 2013/14 | 55.4 | 61.6 | 27.8 | 33.8 |
| 2014/15 | 57.9 | 64.1 | 31.6 | 32.5 |

Noder: Trothwy cynwysedig lefel 2 = 5 TGAU graddau A*–C neu fwy gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg, neu gymwysterau cyfatebol.

FSM = prydau ysgol am ddim. Dyma'r prif fesur y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ddynodi disgyblion dan anfantais.

## Yr heriau a amlygwyd gan Estyn

Mae'n amlwg y bydd gan Lywodraeth newydd Cymru nifer o heriau i'w goresgyn os yw am wella safonau ysgolion a chanlyniadau disgyblion. Amlygwyd rhai o'r rhain yn **adroddiad blynyddol 2014/15** Prif Arolygydd Estyn. Daeth i'r casgliad, er bod cynnydd wedi'i wneud, fod mwy i'w wneud o hyd. Gan adrodd ar y sampl o ysgolion a arolygwyd yn ystod 2014/15, dywedodd y Prif Arolygydd:

– fod safonau'n amrywio a bod bwlch rhy eang rhwng yr ysgolion gorau a'r ysgolion gwaethaf na ellir ei egluro gan ffactorau economaidd-gymdeithasol yn unig;

– mai dim ond hanner yr ysgolion uwchradd sydd â chynlluniau addas ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Yn yr hanner arall, mae cynllunio ar draws y cwricwlwm yn 'wan';

– mai dim ond mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd y mae safon yr addysgu'n dda neu'n well. Yn yr hanner arall, mae 'ansawdd yr addysgu yn anghyson ac nid yw gweithgareddau'n ddigon heriol'; ac

– mai arweinyddiaeth dda sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgol.

## Polisi'r dyfodol a chanlyniadau PISA 2015

Yn ystod wythnosau olaf y Pedwerydd Cynulliad, **honnodd y Gweinidog** fod momentwm newydd yn y byd addysg. Tynnodd sylw at well canlyniadau TGAU a'r ffaith bod y bwlch cyrhaeddiad yn sgil tlodi yn lleihau, sef un o'i brif flaenoriaethau.

Mae targed Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau PISA yn darged hirdymor: sgoriau o 500 ym mhob un o'r tri maes (darllen, mathemateg a gwyddoniaeth) erbyn 2021. Fodd bynnag, bydd canlyniadau **cylch 2015** yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2016 a dylent ddangos faint o effaith y mae'r llu o ddiwygiadau dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf wedi'i chael. Ym mis Ionawr 2016, **dywedodd y Gweinidog** wrth Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad fod yn rhaid i dystiolaeth o system gyfan yn symud yn ei blaen gael ei hadlewyrchu yn y canlyniadau hynny gan PISA.

Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru y byddai'n parhau i yrru'r broses wella yn ei blaen ac mae'n anodd dychmygu unrhyw lywodraeth newydd yn cael gwared ar y flaenoriaeth hon. Fodd bynnag, a fydd yn rhoi cymaint o bwys ar PISA ac a fydd yn parhau â'r diwygiadau sydd eisoes ar y gweill? Os na fydd, pa ddull gwahanol y bydd y llywodraeth newydd yn ei fabwysiadu i fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn?

## Ffynonellau defnyddiol


– Estyn, **Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi 2014/15** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Cyraeddiadau a'r hawl i brydau ysgol am ddim** (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Gwella Safonau a Pherfformiad** (2011)

– Llywodraeth Cymru, **Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru** (2014)

– OECD, **Improving Schools in Wales** (Saesneg yn unig) (2014)

– Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, **Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012** (2013)

– Western Mail, Minister criticised over education report card (Copi caled) (Saesneg yn unig) (2016)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **Polisi addysg yn gogwyddo tuag at PISA?** (2015)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **PISA 2012** (2013)

# Diwygio'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon

*Mae bwriad i gyflwyno cwricwlwm cwbl newydd, a bydd athrawon y presennol a'r dyfodol yn hollbwysig er mwyn iddo lwyddo. A all Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod yr athrawon yn barod am hyn?*

***Siân Hughes***

Ym mis Chwefror 2015, canfu **adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru** o'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu nad yw'r rheini bellach yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc Cymru. Dywedodd yr Athro Graham Donaldson, awdur yr adolygiad, fod 'y ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus'.

Yn wyneb ymdrechion parhaus i wella safonau ysgolion a'r ffaith nad yw perfformiad disgyblion Cymru cystal â'r disgwyl o'i gymharu â'u cyfoedion, **derbyniodd Llywodraeth Cymru** argymhellion yr Athro Donaldson. Dyma gychwyn cyfnod newydd yn y broses o ddiwygio addysg yng Nghymru.

## Diwygiadau mewn tair rhan

Ym mis Mawrth 2015, canfu adolygiad arall a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod y **trefniadau i hyfforddi athrawon** wedi cyrraedd trobwynt arwyddocaol. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad fod angen hyfforddiant ehangach er mwyn rhoi agenda Donaldson ar waith, gan 'roi i'r athrawon eu hunain y sgiliau, yr wybodaeth a'r awydd i arwain y newidiadau angenrheidiol'.

O ganlyniad, nid yw cwricwlwm newydd i Gymru ond yn un rhan o'r hyn a alwodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, yn broses ddiwygio mewn tair rhan.

Y ddwy elfen arall yw datblygiad proffesiynol athrawon presennol a hyfforddiant cychwynnol darpar athrawon. Yng ngeiriau'r Gweinidog, mae'r r **elfennau hyn yn hanfodol** er mwyn i'r gweithlu gyflawni'r broses o 'ail-greu cwricwlwm hollol newydd o'r gwaelod i fyny gydag athroniaeth wahanol yn sail iddo'.

Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol i weledigaeth Donaldson ac i'r angen i ddiwygio'r gweithlu, sy'n golygu bod y mater hwn yn debygol o fod yn amlwg ar agenda'r Pumed Cynulliad waeth pwy sy'n ffurfio'r llywodraeth.

### Prif nodweddion y cwricwlwm newydd

- Pedwar prif ddiben, sef creu dysgwyr uchelgeisiol, galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac unigolion iach a hyderus
- Chwe maes dysgu, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg
- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgwyliedig gan bob athro
- Pum cam, mewn dilyniant o dair blynedd, yn lle'r cyfnodau allweddol, a phwyntiau cyfeirio ar gyfer mesur cynnydd disgyblion yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

## Cwricwlwm newydd

Mae'r cwricwlwm presennol wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith ers ei sefydlu ym 1988, ond mae cynigion yr Athro Donaldson yn ei ailwampio'n sylfaenol. Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn eglur nad mater o wneud mân waith trwsio yma ac acw mo hyn. Fel y dywedodd y Gweinidog blaenorol, **'mae'r hen system ar fin marw'**.

Roedd amserlen Llywodraeth ddiwethaf Cymru ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol. Er y byddai gan ysgolion rywfaint o hyblygrwydd, gallai'r cwricwlwm newydd fod ar gael erbyn mis Medi 2018 gyda phob ysgol yn ei ddefnyddio o fis Medi 2021. Cafodd y cynigion gefnogaeth pob plaid wleidyddol yn y Pedwerydd Cynulliad, a chan fudiadau athrawon hefyd. Un cwestiwn mawr yw sut ac i ba raddau y bydd y disgyblion eu hunain yn rhan o'r broes. Bydd gan weithwyr proffesiynol yn y maes gyfraniad enfawr i'w wneud at y gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm.

## Datblygiad proffesiynol athrawon presennol

Bydd datblygiad proffesiynol athrawon yn rhan hanfodol o'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Cydnabu'r Gweinidog blaenorol nad oes gan ysgolion y sgiliau ar hyn o bryd i fynd i'r afael â dyfnder y newid arfaethedig. Gyda golwg ar ofynion y cwricwlwm newydd, cyflwynwyd agwedd newydd ar ddatblygiad proffesiynol athrawon yn 2014 (**y 'Fargen Newydd'**). Nod y Fargen Newydd hon oedd gwella addysgu a dysgu.

Fel yn achos y cwricwlwm newydd, bydd 'ysgolion arloesi' yn arwain y gwaith o gynllunio a darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Cydnabu'r **Gweinidog blaenorol** nad oes digon o gyllid yn y system i gefnogi'r Fargen Newydd ond dywedodd yn glir nad oes arian ychwanegol ar gael. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch pwy fydd yn talu'r gwahaniaeth, a sut wneir hynny, gyda Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn awgrymu y dylai'r gweithlu ei hun gyfrannu at ariannu'r Fargen Newydd.

### Prif nodweddion y Fargen Newydd

- Hawl i ddatblygiad proffesiynol
- Pasport dysgu proffesiynol ar-lein
- Symud oddi wrth gyrsiau hyfforddi 'untro' i gyfeiriad datblygiad ar y cyd

## Athrawon y dyfodol

Trydedd elfen y diwygiadau yw hyfforddiant cychwynnol ac addysg darpar athrawon. Cynhaliwyd nifer o adolygiadau o hyfforddiant athrawon ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Y mwyaf diweddar oedd **Adroddiad Furlong** ym mis Mawrth 2015, a ganfu fod ansawdd hyfforddiant athrawon wedi gwaethygu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Dywedodd yr Athro Furlong hefyd nad yw hyfforddiant athrawon yng Nghymru yn adlewyrchu'r arferion gorau rhyngwladol na'r hyn a fydd yn ofynnol i weithredu'r cwricwlwm newydd. Ymatebodd y Gweinidog blaenorol drwy ddweud bod dyddiau'r system bresennol wedi dod i ben.

Roedd **Llywodraeth ddiwethaf Cymru** yn bwriadu gwella ansawdd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon trwy ailwampio'r cymhwyster addysgu a'r broses achredu, a thrwy ddiwygio safonau addysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys llwybr israddedig newydd ar gyfer darpar athrawon, a hwnnw'n para pedair blynedd; mwy o arbenigedd pwnc i'r rhai sydd am addysgu oedran cynradd; a chwrs dwy flynedd newydd i fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r camau hyn yn rhan o gynllun ehangach, tymor hir i weithio tuag at broffesiwn addysgu lle mae gan bob athro radd meistr.

Nid ydym yn gwybod eto sut fydd hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol. Awgrymodd yr Athro Furlong y gellid cael un, tair neu bum canolfan hyfforddi, ond argymhellodd y dylid dilyn proses o dendro cystadleuol ar gyfer darparwyr achrededig. Er na wnaeth y Gweinidog blaenorol ragnodi nifer y canolfannau, rhybuddiodd fod angen i ddarparwyr presennol wella eu safonau os oeddent am fod yn rhan o'r weledigaeth yn y dyfodol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru, fel arall, yn barod i brynu'r hyfforddiant gorau o ble bynnag y caiff ei gynnig. O ystyried y twf mewn hyfforddiant sy'n cael ei arwain gan ysgolion, fel **School Direct**, a'r amheuon ynglŷn â pha mor gynaliadwy yw darpariaeth prifysgolion yn Lloegr, gall y weledigaeth hon fod yn ddeniadol i ganolfannau y tu allan i Gymru.

Lansiwyd y broses ddiwygio hon yn ystod cyfnod o bolisïau oedd wedi'u hanelu'n benodol at wella ysgolion. Yr her i Lywodraeth newydd Cymru fydd diwygio'r cwricwlwm a'r gweithlu mewn ffordd sy'n cyflymu, yn hytrach nag yn arafu, gwelliannau mewn safonau ysgolion a pherfformiad disgyblion.

## Ffynonellau defnyddiol


– Donaldson, Yr Athro Graham, **Dyfodol Llwyddiannus, Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru** (2015)

– Furlong, yr Athro John, **Addysgu Athrawon Yfory** (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes** (2015)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **Addysgu Athrawon Yfory – trobwynt allweddol** (2015)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **Adolygiad Donaldson: Beth nesaf** (2015)

# Cyllido addysg uwch

## *Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn sicrhau bod addysg uwch yn fforddiadwy i fyfyrwyr o Gymru, ac ar yr un pryd yn ariannu sector addysg uwch cryf a chystadleuol?*

***Anne Thomas***

A yw hi'n bosibl ariannu sector addysg uwch cryf ar y naill law, a chynnal y gyfundrefn bresennol sy'n rhoi cyllid i fyfyrwyr ar y llall, pan mai dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael?

Yn 2012, cododd ffioedd dysgu blynyddol yn Lloegr i uchafswm o £9,000. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ganiatáu i brifysgolion yng Nghymru godi eu ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn i lefel debyg. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth Cymru hefyd roi blaenoriaeth i ehangu mynediad i addysg uwch. Pryderai'r Llywodraeth y byddai'r ffioedd uwch yn rhwystr i ddarpar fyfyrwyr, yn enwedig rhai o ardaloedd difreintiedig. Oherwydd hyn, ymrwymodd na fyddai unrhyw fyfyriwr israddedig amser llawn yng Nghymru yn talu ffioedd uwch (mewn termau real) yn ystod y Pedwerydd Cynulliad na myfyrwyr yn 2010/11. Dyma oedd y sefyllfa ble bynnag y byddai myfyrwyr o Gymru'n dewis astudio yn y DU.

### Beth oedd y polisi yn y Pedwerydd Cynulliad?

Er mwyn cadw'r addewid hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnig Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Dim ond rhan o'r ffioedd dysgu uwch newydd y byddai'n rhaid iddynt ei dalu, a byddai Llywodraeth Cymru yn talu'r gweddill. Roedd gan fyfyrwyr cymwys (gan gynnwys myfyrwyr yr UE yng Nghymru):

- hawl i gael Grant Ffioedd Dysgu newydd nad oedd yn ad-daladwy (hyd at £5,190 yn 2015/16); a
- hawl i wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu myfyrwyr ad-daladwy (£3,810 yn 2015/16).

Mae tua 57,000 o fyfyrwyr yn elwa ar y polisi hwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai yn beirniadu'r polisi, gan honni bod ariannu'r Grant Ffioedd Dysgu yn dwyn adnoddau oddi wrth rannau eraill o'r sector addysg uwch neu oddi wrth bolisïau a blaenoriaethau eraill. Yn ôl Llywodraeth Cymru:

- cost y polisi yn 2015-16 fydd tua £241 miliwn, gan gynyddu i tua £257 miliwn yn 2016-17 (sef 16% o gyfanswm y gyllideb addysg a sgiliau);
- cyfanswm cost y polisi dros bum mlynedd fydd £887 miliwn (2012-13 i 2016-17); ac
- o'r £887 miliwn, bydd £564 miliwn (64%) yn cael ei dalu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a £324 miliwn (36%) yn cael ei dalu i sefydliadau addysg uwch mewn rhannau eraill o'r DU.

O wynebu cyhuddiadau bod y polisi i bob pwrpas yn rhoi cymhorthdal i addysg uwch yn Lloegr, ymateb Llywodraeth Cymru oedd bod mwy o fyfyrwyr yn dod i Gymru nag sy'n mynd oddi yma. O ganlyniad, mae £50 miliwn yn fwy o gyllid yn dod i'r sector addysg uwch yng Nghymru bob blwyddyn (drwy ffioedd dysgu myfyrwyr o rannau eraill o'r DU) na'r hyn sy'n cael ei dalu allan (drwy'r Grant Ffioedd Dysgu i sefydliadau addysg uwch y tu allan i Gymru).

Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu felly ai hwn yw'r defnydd mwyaf effeithiol o £257 miliwn y flwyddyn.

## Beth yw barn rhanddeiliaid a myfyrwyr?

Yn 2014, gofynnodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i'r Athro Syr Ian Diamond gadeirio panel adolygu annibynnol i edrych ar drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Mae **adroddiad interim** Adolygiad Diamond (Rhagfyr 2015) yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd ac yn amlinellu'r themâu a'r negeseuon a ddaeth i'r amlwg. Er enghraifft:

– mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu nad oes modd cynnal y sefyllfa fel ag y mae, tra bo diffyg consensws o ran y ffordd ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cydnabod y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd;

– er y byddai'r sector ei hun yn gwadu hyn, mae llawer yn credu bod y sector addysg uwch yng Nghymru wedi elwa o gynnydd net mewn incwm ers cyflwyno'r ffioedd presennol a'r gyfundrefn ariannu. Ond nid yw'r cynnydd mor uchel â'r hyn a ragwelwyd ac mae cryn wahaniaethau yn lefel y newid yn incwm gwahanol sefydliadau;

– mae pryder, yn enwedig yn y sector addysg uwch, fod bwlch cyllido mawr a chynyddol rhwng addysg uwch yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU;

– mae myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn elwa o fod â llai o ddyled ar ôl gadael y brifysgol o'u cymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr; ac

– nid yw'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael yn ddigon i dalu costau cychwynnol myfyrwyr, ac mae hynny'n fwy o broblem i fyfyrwyr nag ad-dalu eu benthyciad ffioedd dysgu ar ôl dechrau gweithio.

## Beth am gyllido cyrsiau addysg uwch rhan-amser?

Mae proffil myfyrwyr addysg uwch rhan-amser yn dra gwahanol i broffil myfyrwyr amser llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio gwneud penderfyniad hirdymor ar gyllido darpariaeth addysg uwch rhan-amser, yn rhannol gan i nifer y myfyrwyr rhan-amser yn Lloegr ostwng yn sylweddol ar ôl cyflwyno system fenthyciadau a ffioedd uwch ar eu cyfer.

Cafodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru **ar y trefniadau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser** ei gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad interim Adolygiad Diamond. Mae cytundeb cyffredinol bod angen strategaeth gyllido ar wahân ar gyfer y sector rhan-amser cyn gynted â phosibl.

## Beth sy'n debygol o ddigwydd yn y Pumed Cynulliad?

Gofynnwyd i banel adolygu'r Athro Diamond wneud argymhellion ymarferol, a rhai sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Bydd ei adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth newydd Cymru erbyn mis Medi 2016. Un o benderfyniadau cyntaf Llywodraeth newydd Cymru felly fydd sut i sicrhau cydbwysedd rhwng ariannu sector addysg uwch cryf a helpu myfyrwyr i dalu costau addysg uwch.

## Ffynonellau defnyddiol

– Cyllid Myfyrwyr Cymru, **Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch sy'n hanu o Gymru yn 2016/17**

– Llywodraeth Cymru, **Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru, o dan arweiniad yr Athro Syr Ian Diamond (Adroddiad Interim)** (2015)

– Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), **Addysg Uwch Ran Amser yng Nghymru: Adroddiad Terfynol** (2015)

– Y Pwyllgor Cyllid, **Cyllido Addysg Uwch** (2014)

# Diwygio'r system anghenion addysgol arbennig

*Roedd Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn cydnabod nad yw'r system anghenion addysgol arbennig yn addas i'w diben. Sut fyddai deddfwriaeth newydd yn gallu newid pethau?*

***Michael Dauncey***

Mae'r angen i ddiwygio'r ffordd y mae'r sector addysg a'r sector iechyd yn darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi bod ar yr agenda am gryn amser ers dechrau datganoli. Yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd pob plaid yn cytuno bod angen newid, ac mae rhanddeiliaid yn disgwyl newid i'r drefn hefyd. Felly, mae'n debygol y bydd rhyw fath o ddiwygio yn ystod y Pumed Cynulliad, pwy bynnag sydd mewn grym.

## Beth yw anghenion addysgol arbennig?

Yn ôl y diffiniad yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan blant a phobl ifanc AAA os ydynt yn cael llawer mwy o drafferth dysgu na'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr un oedran â hwy, neu os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag manteisio ar yr addysg sydd ar gael yn gyffredinol. Er mwyn ystyried anawsterau dysgu yn anghenion addysgol arbennig, mae'n rhaid bod angen ymyriadau arnynt sy'n ychwanegol i'r ffyrdd gwahanol o ddysgu a gynigir fel arfer gan athrawon. Yn 2014/15, nodwyd bod gan **23% o ddisgyblion** (105,000) mewn ysgolion a gynhelir ledled Cymru AAA.

## Beth oedd cynigion Llywodraeth ddiwethaf Cymru?

Yn 2015, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).** Roedd tri amcan i'r Bil drafft:

– un fframwaith deddfwriaethol gydag un diffiniad, sef 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY), ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anawsterau dysgu;

– proses integredig gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cydweithio; a

– system deg a thryloyw ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor ac ymdrin â phryderon ac apeliadau.

I ryw raddau, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu'r cysyniad o ADY yn hytrach nag AAA. Felly, mae'r ffocws ar ADY yn lle AAA yn gymharol gyffredin bellach o ran arfer a pholisi, er nad yw'n rhan o'r gyfraith eto. Yn ogystal â newid y term cyfreithiol, roedd y Bil drafft yn cynnig cyflwyno un math o gynllun yn lle'r system tair haen bresennol. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr sydd ag AAA yn cael un o ddwy lefel o gymorth gan yr ysgol (Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy) neu, os bydd gan ddysgwyr anghenion mwy difrifol, mae'r awdurdod lleol yn cyhoeddi datganiad sy'n rhoi hawl gyfreithiol i becyn penodol o gymorth.

Mae defnyddio'r dulliau gwahanol hyn wedi creu tensiwn. Yn ei ragair i **Bapur Gwyn yn 2014**, cyfeiriodd Huw Lewis, y Gweinidog ar y pryd, at **adolygiadau o'r broses ddatganiadau bresennol** gan ddweud ei bod 'yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad'. O dan y Bil drafft, byddai gan bob dysgwr o dan 25 oed sydd ag ADY gynllun datblygu unigol, ni waeth beth fo'i oedran na difrifoldeb ei anghenion.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Gweinidogion wedi ystyried y ffordd orau o wella a diwygio'r broses, gan benderfynu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cynllun unigol i bob dysgwr sydd ag ADY. Roedd y Bil drafft yn cynnig peidio â defnyddio datganiadau mwyach ac felly ni fyddai'r ffaith bod gan ddysgwr ddatganiad yn ystyriaeth wrth bennu lefel yr ymyrraeth. Ar hyn o bryd, dim ond disgyblion sydd â datganiad sydd â hawl statudol i ddarpariaeth ychwanegol, sef 3% o'r holl ddisgyblion (12,000). O dan y system newydd arfaethedig, byddai gan bob dysgwr sydd ag ADY hawl statudol i Gynllun Datblygu Unigol, sef 23% o'r holl ddisgyblion (105,000).

## Pa faterion a nodwyd yn ystod y gwaith craffu cyn deddfu?

Clywodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad dystiolaeth am y Bil drafft ac ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015, gan **nodi'r materion** y byddai angen i Weinidogion fynd i'r afael â hwy cyn cyflwyno deddfwriaeth. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'n fawr y bwriad i ddiwygio'r system, ond yn gweld bod 'llawer o waith i'w wneud' i fynd i'r afael â 'llawer o feysydd o ansicrwydd'. Tynnodd y Pwyllgor sylw at bedwar prif faes:

- darpariaeth annigonol o ran cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, gyda'r Pwyllgor yn credu bod angen rhoi dyletswyddau cadarnach ar gyrff iechyd;
- y galw i'r cynlluniau datblygu unigol cyffredinol gadw manteision y dull tair haen presennol sy'n rhoi cymorth dwysach i ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth a difrifol, ac i'w gwneud yn gliriach pwy fyddai'n gyfrifol am y cynlluniau;
- yr angen i Dribiwnlys Addysg Cymru gael pwerau cryfach wrth ystyried apeliadau gan deuluoedd yn erbyn awdurdodau lleol a byrddau iechyd; ac
- y diffyg manylion ynghylch y ddarpariaeth ar ddechrau a diwedd yr ystod oedran 0-25 oed – hynny yw, pa drefniadau fydd ar waith ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16?

## Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'w Bil drafft, gan gynnwys canlyniadau gwaith craffu cyn deddfu'r Pwyllgor, wrth i'r Pedwerydd Cynulliad ddirwyn i ben. Dywedodd y Gweinidog ei fod am weld **Bil yn cael ei gyflwyno** yn gynnar yn y Cynulliad nesaf, ond bod hynny'n amlwg yn benderfyniad i Lywodraeth newydd Cymru.

Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Bil drafft hefyd, a phenderfynu i ba raddau y bydd yn bwrw yn ei blaen â chynigion y Llywodraeth ddiwethaf. Bydd pwy bynnag sydd wrth y llyw yn gorfod canfod atebion i fater sydd wedi herio gweinidogion a llunwyr polisi ers dros ddegawd.

## Ffynonellau defnyddiol

- **Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Cynigion deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol – Papur gwyn** (2014)
- Llywodraeth Cymru, **Y diweddaraf am yr Ymgynghoriad ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft** (2016)

# Blaenoriaethu plant a phobl ifanc

## *Heb eu gweld na'u clywed? Pa mor amlwg fydd buddiannau plant a phobl ifanc yn y Pumed Cynulliad?*

***Siân Thomas***

Dywedir mai'r modd y mae gwlad yn trin ei phlant a'i phobl ifanc sy'n datgelu ei gwir gymeriad. Yn ystod dyddiau cynnar datganoli, ystyriwyd Cymru yn wlad flaengar a oedd yn rhoi sylw amlwg i blant a'u hawliau. Mae'n gwestiwn a yw plant o hyd yn ganolog i wleidyddiaeth a pholisïau Cymru.

Mae elusennau plant yn honni bod y **'traddodiad cryf o greu polisïau sy'n canolbwyntio ar blant'** – traddodiad a ddatblygodd ar ôl datganoli – wedi mynd yn dameidiog ac nad oes cymaint o sylw yn cael ei roi i hyn bellach. Galw am wneud mwy, a hynny'n well, y mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau sy'n lobïo i ddylanwadu ar faniffestos pleidiau ar draws y meysydd polisi datganoledig. Yn eironig, mae **Maniffesto'r Elusennau Plant Cenedlaethol ar gyfer Etholiadau 2016** yn canolbwyntio ar geisio adennill tir a gollwyd.

I ba raddau felly y bydd buddiannau plant a phobl ifanc yn cael sylw yng nghanol strwythurau a dadleuon gwleidyddol y Pumed Cynulliad? Gall hyn fod yn ffordd o farnu Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Yn bwysicach, fe fydd yn ffactor allweddol wrth benderfynu beth fydd cyfleoedd bywyd a dyfodol ein plant a'n pobl ifanc.

### Y sylw cynnar ar blant a phobl ifanc

Roedd buddiannau plant a phobl ifanc yn amlwg iawn yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynulliad. Rhoddwyd eu lles a'u diogelwch yn gadarn ar yr agenda wleidyddol pan gyhoeddwyd canfyddiadau **Ymchwiliad Waterhouse** yn 2000. Ymchwiliad oedd hwn a wnaeth gadarnhau bod nifer fawr o blant, dros ddegawdau, wedi cael eu cam-drin yn rhywiol ac yn gorfforol mewn cartrefi gofal yn y gogledd.

Roedd natur y setliad datganoli cynnar hefyd yn rhannol gyfrifol am y sylw a roddwyd i blant a phobl ifanc ym mlynyddoedd cyntaf y Cynulliad. Yn wahanol i rai meysydd polisi eraill, roedd gan y Cynulliad lawer o'r pwerau oedd eu hangen (iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol) er mwyn caniatáu i lywodraeth y cyfnod ddatblygu polisïau gwahanol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ffactor arall oedd bod gan rai o Aelodau 'blaenllaw' y Cynulliadau cynnar, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd, ddiddordeb cyffredin mewn materion a oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â phrofiad yn y maes.

### Deddfwriaeth arloesol a chamau blaengar eraill

Mae llawer o enghreifftiau o'r cyfnod ar ôl datganoli lle'r ystyriwyd bod Cymru ar flaen y gad ym maes plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

– Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu Comisiynydd Plant (2001);

– yr amlygrwydd a roddwyd i faterion plant a phobl ifanc yn strwythurau cabinet cynnar Llywodraeth Cymru: cafwyd Gweinidog yr oedd ei bortffolio a'i deitl yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Yn ogystal, sefydlwyd is-bwyllgor cabinet yn benodol er mwyn penderfynu ar bolisïau a oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc;

- y gydnabyddiaeth ryngwladol a roddwyd i Lywodraeth Cymru ar y pryd pan gyflwynodd gyfraith 'arloesol' trwy'r ***Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011***. Dyma'r ddeddfwriaeth gyntaf o'i math yn y DU, yn gwneud **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP) yn rhan o gyfraith y wlad; ac
- y cyllid a roddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru i'r Ddraig Ffynci, ('Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru'), a'r hyn a ystyrid yn agwedd flaengar y Llywodraeth wrth hyrwyddo a chefnogi'r modd roedd plant a phobl ifanc yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ar bob lefel.

## Tro ar fyd i blant a phobl ifanc

Bu newid yn y ffordd y rhoddwyd sylw i faterion plant a phobl ifanc yn y Cynulliad ac ym mholisïau Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- newid mewn cyfrifoldebau gweinidogol a strwythurau'r cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, law yn llaw â symud at ragor o gynllunio, polisïau a deddfwriaeth 'pob oedran' (yn hytrach na rhai'n canolbwyntio'n benodol ar blant);
- penderfyniad Llywodraeth ddiwethaf Cymru i beidio â bwrw ymlaen â'i bwriad i gyflwyno Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gan y byddai rhai o'r darpariaethau yn cael eu cynnwys mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth;
- gwanhau'r consensws ar faterion plant, fel y gwelwyd yn ystod dadleuon tanllyd yn y Cynulliad ynghylch newid y gyfraith ar gosbi plant yn gorfforol (cyfeirir at hyn yn aml fel 'gwahardd smacio'). Gwelwyd hynny hefyd yn y cwestiynau a godwyd ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â pharhau i gyllido'r Ddraig Ffynci a rhoi cyllid yn lle hynny i waith sy'n canolbwyntio mwy ar gael plant a phobl ifanc i gyfrannu at bolisïau'r Llywodraeth; a
- sylwadau'r Comisiynydd Plant ar y pryd, (2014) fod Llywodraeth Cymru yn 'ymddangos yn rhy gyfforddus gyda'i statws fel arloeswr rhyngwladol ym maes hawliau plant', ynghyd â'r sylw fod 'gwasanaethau hollbwysig sy'n ceisio amddiffyn plant a phobl ifanc agored i niwed mewn perygl o gael eu colli, yn sgil diffyg gweledigaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru'.

Efallai y byddai Llywodraeth ddiwethaf Cymru wedi gwadu'n gryf yr awgrym bod ei pholisïau'n fwy 'tameidiog', ac wedi dadlau bod modd rhoi gwell sylw i fuddiannau plant a phobl ifanc drwy ymgorffori'r cyfrifoldeb drostynt yn holl bortffolios y gweinidogion. Gallai hefyd fod wedi cyfeirio at yr amrywiaeth eang o bolisïau, rhaglenni ac ymrwymiadau cyllido yn ei **Rhaglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, 2015**.

### Plant a phobl ifanc yng Nghymru

- Mae 667,300 o bobl 0-18 oed yn byw yng Nghymru (a 298,300 o bobl 19-25 oed)
- Mae 31% o blant yn byw mewn tlodi (amcangyfrifir bod hynny'n 172,000 o blant)
- Mae 5,615 o blant yn cael gofal
- Mae 2,907 o blant (0-18 oed) yn aros am apwyntiad ar ôl cael eu hatgyfeirio at driniaeth seiciatreg plant a'r glasoed
- Amcangyfrifir bod gan fwy na 2,000 o blant riant yn y carchar
- Mae 680 o deuluoedd digartref a chanddynt blant sy'n byw mewn llety dros dro
- Mae plant 0-17 oed sy'n byw yn rhannau mwyaf difreintiedig Cymru bron ddwywaith yn fwy tebygol o farw na'r rhai sy'n byw yn y rhannau lleiaf difreintiedig

## Penderfyniadau o bwys yn y Pumed Cynulliad

Dyma rai o'r prif benderfyniadau y bydd angen eu gwneud yn y Pumed Cynulliad yn y maes hwn:

- A fydd gan Lywodraeth nesaf Cymru weinidog y bydd ei bortffolio'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, ac a fydd yn gyfrifol ac yn atebol am bob polisi sy'n effeithio ar blant a'u hawliau? Pa mor debygol yw y bydd is-bwyllgor cabinet ar gyfer plant yn cael ei ailsefydlu?
- A fydd strwythur newydd pwyllgorau'r Cynulliad yn cynnwys pwyllgor a fydd yn canolbwyntio ar blant a phobl Ifanc, fel y digwyddodd ym mhob Cynulliad blaenorol?
- Beth nesaf o ran y posibilrwydd o gael Cynulliad neu Senedd Genedlaethol i Blant a Phobl Ifanc?
- Sut fydd Llywodraeth nesaf Cymru yn ymateb i argymhellion sydd i ddod yn fuan gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn dilyn ei waith ffurfiol yn edrych ar hawliau plant yng Nghymru?
- Yn dilyn addewidion mewn maniffestos, beth nesaf o ran y galw i newid y gyfraith ar gosbi plant yn gorfforol ('gwaharddiad smacio'), sef o bosibl y prif fater ynghylch hawliau plant y bydd angen i'r Pumed Cynulliad benderfynu yn ei gylch?

## Ffynonellau defnyddiol

- CEWC-Cymru, **Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
- Elusennau Plant Cenedlaethol, **Maniffesto ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad** (2016)
- Grŵp Monitro CCUHP Cymru, **Adroddiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (2015)
- Gwasg Prifysgol Cymru, The Rights of the Child in Wales (Copi caled) (Saesneg un unig) (2013)
- Llywodraeth Cymru, **Rhaglen Plant a Phobl Ifanc** (2015)
- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, **Adroddiadau blynyddol**
- Y Gwasanaeth Ymchwil, **Amser pwysig i hawliau plant yng Nghymru** (2016)



# Yr economi a thrafnidiaeth

- Dyfodol y diwydiant dur
- Ffordd liniaru'r M4
- Banc datblygu i fusnesau
- Twf yn y de-ddwyrain
- Trafnidiaeth yn y gogledd
- Dyfodol teithio ar y rheilffyrdd

# Dyfodol y diwydiant dur

## *Datblygiadau yn y diwydiant dur oedd un o'r materion gwleidyddol amlycaf yn 2016. Beth yw'r prif bwysau sy'n wynebu'r diwydiant a sut all Llywodraeth newydd Cymru helpu i sicrhau dyfodol hirdymor cynaliadwy iddo?*

***Gareth Thomas***

Penderfyniad Tata Steel ym mis Mawrth 2016 i **werthu ei asedau** yn y DU oedd y datblygiad diweddaraf mewn 'storm berffaith' o heriau diweddar i'r diwydiant dur yng Nghymru a'r DU.

Yn ogystal â'r gweithfeydd dur ym Mhort Talbot, mae gan Tata **nifer o weithfeydd eraill yng Nghymru**: Llanwern, yr Orb yng Nghasnewydd, Shotton, a Throstre ger Llanelli. Ymhlith y cynhyrchwyr eraill sydd â gweithfeydd yng Nghymru mae Celsa Steel a Liberty House Steel UK. Ledled Cymru, roedd 6,630 o bobl yn **cael eu cyflogi** yn y diwydiannau haearn a dur yn 2014, ac roedd y **diwydiant dur sylfaenol a'r gadwyn gyflenwi** yn cyfrif am yn agos at 20,000 o swyddi.

Canfu'r Uned Ymchwil i Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd mai **£3.2 biliwn yw cyfanswm effaith economaidd Tata** yng Nghymru bob blwyddyn, a'i fod yn cefnogi Gwerth Ychwanegol Gros o £1.6 biliwn. Mae Tata yn cyfrannu £200 miliwn mewn cyflogau i economi Cymru bob blwyddyn, ac mae pob swydd yn Tata yn cefnogi 1.22 o swyddi eraill yn economi Cymru.

### Dympio

Ystyr dympio yw pan fydd pris allforio cynnyrch fel dur yn is na phris y farchnad yng ngwlad yr allforiwr, neu efallai hyd yn oed yn is na'r pris cost. Mae'r UE yn ymchwilio i'r achosion hyn, ac mae'n gallu gosod tariffau ar lefel y dympio, oni bai y byddai tariff is yn gwneud iawn am y golled i gynhyrchwyr yn yr UE. Y rheol 'dyletswydd leiaf' yw'r enw ar hyn.

## Beth yw'r opsiynau i sicrhau dyfodol gweithfeydd Tata Steel?

Cymerodd naw mis i gael y **cytundeb gwerthiant amodol** ar gyfer gweithfa Tata yn Scunthorpe ym mis Ebrill 2016, ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi annog Tata i ganiatáu digon o amser ar gyfer gwerthu. Ym mis Mawrth 2016, **prynodd Llywodraeth yr Alban** ddau o weithfeydd dur Tata cyn eu gwerthu ymlaen i Liberty Steel ar yr un diwrnod.

Mae'r opsiynau posibl ar gyfer safleoedd Tata yn cynnwys: gwerthu'r holl weithfeydd; rheolwyr yn prynu safleoedd penodol; gwladoli; cyd-fuddsoddi rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat; rhewi'r safleoedd dros dro yn eu cyflwr presennol i alluogi eu hailagor yn y dyfodol; neu gau'r cyfan.

Cynigiodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru **becyn gwerth dros £60 miliwn** i Tata, a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer cynnyrch amgylcheddol a sgiliau a hyfforddiant, a benthyciad masnachol i ddatblygu llinell galfaneiddio ar gyfer gorchuddio dur. Trafodwyd hefyd gyd-fuddsoddi mewn gorsaf bŵer ar safle Port Talbot, a fyddai'n arwain at gostau ynni is ac at ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

O ystyried maint y buddsoddiad sydd ei angen yng ngweithfeydd Tata, byddai hefyd angen cymorth gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y byddai'n ystyried **cyd-fuddsoddi â phrynwr** ar delerau masnachol, gan gynnwys, o bosibl, derbyn y cyfrifoldeb am rai o'r dyledion sy'n gysylltiedig


â'r gweithfeydd. Gallai Llywodraeth y DU hefyd helpu gyda'r cyflenwad pŵer, drwy **Gynllun Pensiwn Dur Prydain**, ac o ran y seilwaith.

## Sut mae mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector?

Ar ddechrau'r argyfwng, roedd y diwydiant o'r farn ei fod yn wynebu **pum prif her**, ac mae pedwar ohonynt yn bryderon mawr i'r sector o hyd. Mae rhai o'r rhain yn feysydd sydd heb eu datganoli, sy'n golygu y bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â hwy.

Yr UE sy'n gyfrifol am roi sylw i **'ddympio' dur**, ac mae'r pryderon yn ymwneud â gallu dur Ewropeaidd i gystadlu'n fyd-eang ag allforion Tsieina a Rwsia. Lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd **gynigion i fynd i'r afael â'r heriau hyn** ym mis Mawrth 2016, gan gynnwys lleihau faint o amser y mae ymchwiliadau gwrth-ddympio yn ei gymryd a newid y ffordd y mae tariffau gwrth-ddympio yn cael eu cyfrifo mewn rhai amgylchiadau. Pryder arall yw'r effaith y byddai **dyfarnu Statws Economi'r Farchnad i Tsieina** yn ei chael ar gamau y gellid eu cymryd yn erbyn 'dympio'.

**Gweithfeydd dur Cymru**



Mae **prisiau ynni** ar gyfer cynhyrchwyr dur yn y DU yn uwch na gwledydd eraill Ewrop, er bod Llywodraeth y DU yn digolledu diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni. Er bod cynhyrchwyr dur wedi croesawu'r pecyn digolledu, maent yn dal i **dalu llawer mwy am drydan** na'u cystadleuwyr yn Ewrop ac maent am weld rhagor yn cael ei wneud.

Mae'n debyg bod ardrethi busnes sy'n cael eu talu gan gynhyrchwyr yn y DU **rhwng pump a deg gwaith yn uwch** na'r rhai mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Yng Nghymru, mae pwerau dros ardrethi busnes wedi'u datganoli'n llwyr i Lywodraeth Cymru. Mae'r sector wedi galw am beidio â chynnwys gwerth peiriannau a pheirianwaith wrth gyfrifo biliau ardrethi busnes, gan fod hynny'n cymell cwmnïau i beidio â buddsoddi. Ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, roedd **Llywodraeth ddiwethaf Cymru** yn dal i ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer holl ddiwydiant gweithgynhyrchu Cymru.

Mae'r diwydiant dur hefyd am i sector cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddefnyddio'r broses gaffael ar gyfer prosiectau seilwaith mawr i roi mwy o gefnogaeth i ddur y DU. Roedd Llywodraeth ddiwethaf Cymru o'r farn bod ei pholisïau caffael yn cefnogi egwyddorion y **Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy Prydeinig**, er bod y diwydiant wedi galw am fonitro a gweithredu polisïau caffael yn agosach. Mae **Tasglu Tata,** a sefydlwyd gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru, yn datblygu rhestr o brosiectau seilwaith a allai fod o gymorth i'r diwydiant dur, ac yn edrych ar sut mae **prosiectau cyfalaf mawr** yn gosod meini prawf ar gyfer caffael dur.

Mae'r diwydiant dur hefyd wedi nodi y byddai cyd-fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn ymchwil a datblygu **yn ffordd i ddatblygu'r sector dur**.

Bydd penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn effeithio ar ddyfodol agos a dyfodol hirdymor y diwydiant. Gan fod miloedd o swyddi a dyfodol diwydiant cyfan yn y fantol, un o'r heriau mawr cyntaf i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithio â phartneriaid i leddfu'r pwysau sy'n wynebu'r sector hwn.

## Ffynonellau defnyddiol


– Llywodraeth Cymru, **Tasglu Tata** (gwefan)

– UK Steel, **Energy costs and the steel sector** (Saesneg yn unig) (2016)

– UK Steel, **The future of the UK steel sector** (Saesneg yn unig) (2016)

– Uned Ymchwil i Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, **The Economic Impact of Tata Steel in Wales** (Saesneg yn unig) (2012)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **Gwrth-ddympio** (gwefan) (Saesneg yn unig)

– Y Pwyllgor Dethol ar Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Tŷ'r Cyffredin, **Diwydiant dur yn y DU: Ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng** (Saesneg yn unig) (2015)


– Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, **Strong foundation industries: How improving conditions for core material producers could boost UK manufacturing** (Saesneg yn unig) (2016)

# Ffordd liniaru'r M4

*Mae tagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd yn cael effaith fawr ar y de, yn enwedig ar yr economi. A oes modd cyfiawnhau costau ariannol ac amgylcheddol creu ffordd liniaru?*

***Andrew Minnis***

Bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru wneud penderfyniadau mawr yn gynnar yn y Pumed Cynulliad ar brosiect seilwaith mwyaf Llywodraeth Cymru hyd yn hyn – ffordd liniaru'r M4.




## Y cynllun

Mae cynlluniau i gynyddu'r capasiti ar yr M4 o amgylch Casnewydd wedi cael eu trafod ers y 1990au cynnar pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ffafrio llwybr sy'n eithaf tebyg i'r cynigion presennol. Barnwyd yn 2009 y byddai'r prosiect yn rhy ddrud, ond fe'i hadfywiwyd yn sgil y cytundeb ar bwerau benthyca rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2013.

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen **Coridor yr M4 o Amgylch Casnewydd - Y Cynllun**. Roedd y ddogfen hon yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio llwybr ar gyfer traffordd tair lôn i'r de o Gasnewydd rhwng Magwyr a Chas-bach. Roedd y ddogfen hefyd yn rhestru pedwar ffactor pwysig a oedd yn sail i'r cynllun:

– capasiti: erbyn 2037, bydd llif y traffig rhwng cyffordd 23A a chyffordd 29 yr M4 bresennol yn fwy na 100% o'r capasiti yn ystod yr oriau brig ganol wythnos;

– y gallu i ymdopi: mae angen gwella gallu'r rhwydwaith i ymdopi â gwrthdrawiadau a digwyddiadau;

– diogelwch: mae i'r M4 bresennol gyfyngiadau dylunio, tra bo tagfeydd cynyddol yn achosi mwy o ddigwyddiadau a gwrthdrawiadau; a

– datblygu cynaliadwy: mae tagfeydd yn rhwystr i dwf economaidd, ac mae ansawdd aer gwael a llygredd sŵn yn effeithio'n gynyddol ar gymunedau lleol.

## Y ddadl

Mae cytundeb cyffredinol bod angen mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4, ond mae dadlau mawr ynghylch sut ddylid gwneud hynny.

Cyhoeddodd CBI Cymru **gynllun ar gyfer ffyniant** ym mis Tachwedd 2015, gan ddadlau bod angen buddsoddi'n sylweddol yn y rhwydwaith trafnidiaeth. Mae ffordd liniaru'r M4 yn ganolog i'r cynllun hwn. Yn ôl CBI Cymru, mae angen y ffordd liniaru hefyd er mwyn cynyddu ffyniant a chyflogaeth yn y de a'r gorllewin. Mae'n awgrymu hefyd y byddai canslo'r prosiect yn niweidio enw da Llywodraeth Cymru o fewn y gymuned fusnes yn y tymor hir.

Mae Siambr Fasnach De Cymru hefyd wedi dadlau yn ei **hymgyrch dros fusnesau 2015-2020** bod y ffordd, ynghyd â buddsoddiadau trafnidiaeth eraill fel **Metro'r de-ddwyrain** a thrydaneiddio prif reilffordd y gogledd, yn angenrheidiol er mwyn meithrin hyder buddsoddwyr. Yn 2013, dywedodd 34% o aelodau'r Siambr bod yr M4 bresennol yn cael effaith negyddol ar eu busnes, gyda 76% o'r aelodau ar draws y de yn cefnogi'r llwybr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio.

Serch hynny, nid yw'r gymuned fusnes i gyd o blaid. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft, **holodd FSB Cymru** pa mor gywir yw'r model a ddefnyddiwyd i ragamcanu'r twf mewn traffig. Cododd amheuon ynglŷn â pha mor fforddiadwy yw'r prosiect yn sgil ymrwymiadau eraill i fuddsoddi mewn trafnidiaeth, a dadleuodd nad oedd effeithiau'r Metro na'r polisi teithio cynaliadwy wedi cael eu hystyried yn ddigonol. Honnodd FSB Cymru hefyd nad oedd y Llywodraeth wedi asesu effaith y cynllun ar yr amgylchedd yn ddigon da yr adeg honno.

Cyrff amgylcheddol yw'r gwrthwynebwyr pennaf, ac mae nifer ohonynt wedi ffurfio cynghrair yr Ymgyrch yn Erbyn Traffordd y Gwastadeddau (CALM). Yn fwy na dim, maent yn gwrthwynebu'r ffaith bod llwybr y ffordd yn pasio drwy Wastadeddau Gwent, sy'n cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac ardaloedd eraill a warchodir. Mae CALM yn dadlau bod y ffordd yn bygwth un o gorsydd pori hynafol mwyaf y DU, yn ogystal â systemau dŵr sy'n cynnal bywyd gwyllt unigryw. Ynghyd â difetha cynefinoedd, mae'n credu y byddai'r ffordd yn rhwystr i fywyd gwyllt ac i lif dŵr, ac y byddai llygredd dŵr ffo yn cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr. Mae CALM hefyd yn pryderu am effaith allyriadau carbon posibl y cynllun.

Fel FSB Cymru a chyrff eraill, mae CALM wedi cefnogi'r Llwybr Glas a gynigiwyd gan yr Athro Stuart Cole.

### Y Llwybr Glas

Byddai'r **Llwybr Glas (PDF 724KB)** yn defnyddio cyfuniad o Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd ar yr A48, a hen ffordd y gwaith dur ar ochr ddwyreiniol Casnewydd, i greu ffordd ddeuol newydd. Mae'r rheini sydd o blaid hyn yn dadlau y byddai modd adeiladu'r ffordd hon yn rhatach ac yn gyflymach na'r ffordd liniaru.

Cyhoeddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru **arfarniad o'r dewisiadau eraill a ystyriwyd yn ystod y broses ymgynghori (PDF 2.39MB)**, ac awgrymodd yr arfarniad hwn na fyddai'r Llwybr Glas yn cyflawni amcanion y cynllun. Awgrymwyd hefyd y byddai'n rhaid cael buddsoddiad sylweddol heb ddigon o fanteision yn deillio ohono.

## Y dyfodol

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad amgylcheddol y cynllun**, gan nodi sut fydd yn lliniaru'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Nid yw'n glir eto i ba raddau y mae’r datganiad hwn yn lleddfu’r pryderon amgylcheddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd **ddeddfwriaeth ddrafft** a oedd yn paratoi'r ffordd ar gyfer y gwaith adeiladu, ynghyd ag **ystod o adroddiadau eraill.**

Ym mis Mai 2015, **dywedodd y Prif Weinidog** wrth y Pedwerydd Cynulliad y byddai'r cynllun yn costio dipyn yn llai na £1 biliwn. Er mai £857 miliwn yw’r amcangyfrif a geir o’r gost adeiladu yn y dogfennau newydd, gan gynnwys £45 miliwn ar gyfer gwaith ar yr amgylchedd a'r dirwedd, mae'r gwerthusiad economaidd yn amcangyfrif mai cyfanswm y gost fydd £1.131 biliwn, heb gynnwys TAW a chwyddiant.

Yn dibynnu ar yr ymatebion i'r datganiad amgylcheddol a'r gorchmynion drafft, bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a ddylid cynnal **ymchwiliad lleol cyhoeddus**, yn ôl pob tebyg yn ystod hydref neu aeaf 2017. Yn dibynnu wedyn ar adroddiad yr ymchwiliad hwnnw, byddai'n rhaid i’r Llywodraeth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen. Pe bai’n gwneud hynny, ac oni bai bod her gyfreithiol i’r cynllun, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod gwanwyn 2018, gyda'r ffordd yn agor yn hydref 2021.

## Ffynonellau defnyddiol

– CBI Cymru, **Cynllun ar gyfer ffyniant** (2015)

– Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, **M4 relief road consultation response (PDF 628 KB)** (Saesneg yn unig) (2013)

– Llywodraeth Cymru, **Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd** (gwefan)

– Llywodraeth Cymru, **Gwybodaeth amgylcheddol ffordd liniaru'r M4** (gwefan)

– Llywodraeth Cymru, **Gorchmynion drafft yr M4** (gwefan)

– Llywodraeth Cymru, **Adroddiadau cysylltiedig â'r M4** (gwefan)

– Sefydliad Materion Cymreig, **The Blue Route (PDF 724 KB)** (Saesneg yn unig) (2013)

– Siambr Fasnach De Cymru, **Campaign for Welsh Business 2015-2020 (PDF 1522 KB)** (Saesneg yn unig) (2014)

# Banc datblygu i fusnesau

*Mae'r syniad o greu banc datblygu i roi cyllid i fusnesau wedi bod yn bwnc trafod ers tro. A fydd banc o'r fath yn cael ei sefydlu yn y Pumed Cynulliad, ac a yw'n ffordd o wneud busnesau Cymru yn fwy cystadleuol?*


***Gareth Thomas***

Mae'r modd y mae busnesau Cymru yn cael gafael ar gyllid wedi bod yn fater o bwys yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r trafodaethau ar y pwnc wedi canolbwyntio ar gyllid i fusnesau bach a chanolig, ac i ba raddau y gall y rhain gael gafael ar gyllid o ffynonellau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd penderfynu a ddylid creu **banc datblygu i Gymru** er mwyn rhoi mwy o gyllid i fusnesau yn un o'r dewisiadau polisi pwysig y bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru ei wneud.

## Pam y gallai fod angen banc datblygu ar Gymru?

Er bod y marchnadoedd sy'n rhoi cyllid i fusnesau bach a chanolig yn gwella, mae **rhai'n dadlau** bod angen cynyddu'r cyllid sydd ar gael ledled y DU i gydbwyso twf economaidd. Mae'r ffaith mai cwmnïau yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr sy'n cyfrif am **71% o gyfanswm yr ecwiti** a fuddsoddir mewn busnesau bach a chanolig yn brawf o hynny.

Yn ôl yr **Athro Dylan Jones-Evans**, mae busnesau yng Nghymru yn wynebu anfanteision penodol wrth geisio cael gafael ar gyllid o gymharu â busnesau yn Lloegr a'r Alban. Mae'n dadlau y gallai fod bwlch cyllido o gymaint â £500 miliwn ym mhob blwyddyn ariannol rhwng y cyllid sydd ei angen ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru a'r cyllid y mae modd iddynt gael gafael arno o'r sector preifat.




Er bod sefydliadau'r llywodraeth fel Cyllid Cymru a Banc Busnes Prydain yn helpu i lenwi rhywfaint o'r bwlch hwn, mae'r rhai sy'n galw am sefydlu banc datblygu yn dweud y gallai busnesau bach a chanolig fod yn fwy cystadleuol a chyfrannu mwy at ddatblygu economi Cymru pe bai'r bwlch yn lleihau rhagor.

Fodd bynnag, mae **gwaith a wnaed** ar gyfer FSB Cymru yn rhybuddio na fydd gwella'r cyllid sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yn datrys popeth, oherwydd mae'n bosibl na ddaw mwy o alw am gyllid nes bod cadwyni cyflenwi'r busnesau hynny yn sicrach. Gallai gwella'r cyllid sydd ar gael hefyd arwain yn anfwriadol at werthu busnesau bach a chanolig yn gynt, gan rwystro cwmnïau canolig eu maint rhag datblygu'n rhai sydd wedi'u hen sefydlu yng Nghymru.

## Pa fath o fusnesau y byddai banc datblygu yn gallu’u helpu?

Tynnwyd sylw at y trafferthion a wynebir gan lawer o gwmnïau llai o faint wrth gael gafael ar gyllid yn yr **astudiaeth ddichonoldeb** ar gyfer banc datblygu a gynhaliwyd gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru. Mae angen mwy o symiau cymharol fach o arian ar ficrofusnesau sy’n cyflogi llai na 10 o bobl nag y gall y sector preifat ei gynnig iddynt.

Ym marn **CBI Cymru**, mae anghenion busnesau canolig eu maint yn syrthio rhwng dwy stôl, sef rhwng y cymorth sydd wedi'i anelu naill ai at fusnesau bach neu at gorfforaethau mawr. Mae cael gafael ar gyllid yn fater o bwys mawr i'r busnesau hyn, yn enwedig **cyllid ecwiti drwy 'angylion busnes' a chyfalaf menter**.

Mae **Chwarae Teg** wedi galw am gymorth busnes penodol i fenywod, gan gynnwys cyllid, a hynny gan eu bod o’r farn bod gan fenywod anghenion neilltuol yn y maes hwn. Dywedir bod entrepreneuriaid benywaidd yn **teimlo’n ansicr** am eu gallu i gael gafael ar gyllid, a gall hynny eu rhwystro rhag sefydlu eu busnesau eu hunain. Ystyrir bod hynny'n un o'r prif resymau pam y mae busnesau bach a chanolig sy’n cael eu harwain gan fenywod yn **llai tebygol o ddefnyddio cyllid allanol** na'r busnesau y mae dynion yn eu harwain.

### Pa gymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru ar hyn o bryd?

Cyllid Cymru sy'n rhoi’r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol drwy'r sector cyhoeddus i ficrofusnesau hyd at rai canolig eu maint yng Nghymru. Mae Busnes Cymru wedyn yn helpu busnesau i gael gafael ar gyllid ac yn cynnig arweiniad a gwybodaeth gyffredinol.

## Sut allai banc datblygu weithio?

Mae llawer o benderfyniadau i'w gwneud o hyd ynglŷn â strwythur y banc a beth yn union y gallai ei gyflawni. Fodd bynnag, mae Llywodraeth ddiwethaf Cymru a Cyllid Cymru wedi edrych ar atebion posibl ac wedi dechrau datblygu cynllun busnes. Mae **sawl model posibl** y gellid ei fabwysiadu. Mae'r rhain yn cynnwys y 'model hybrid' a ffafriwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf, lle byddai'r banc datblygu yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad gyllid mewn sectorau pwysig.

Gallai swyddogaethau newydd banc datblygu gynnwys:

– cynnig ystod ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau dyled ac ariannu ecwiti i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyllido;

– targedu sectorau a mathau arbennig o fusnesau sy'n cael trafferthion penodol wrth gael gafael ar gyllid, fel microfusnesau a busnesau newydd;

– bod yn fanc sy’n ei ariannu ei hun ac, o bosibl, yn peidio â dibynnu ar gyllid grant na chymorth gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r cronfeydd sydd ganddo;

– gweithio gyda'r byd academaidd i wella’r data am fusnesau ac i wella dealltwriaeth o'r sector; a

– sicrhau bod busnesau yn cael y cyfuniad cywir o gymorth ariannol ac anariannol gan ystyried argymhellion yr **Adolygiad Parod i Fenthyca**.

### Beth yw banc datblygu?

Sefydliad sy'n eiddo i'r wladwriaeth yw banc datblygu cyhoeddus, yn gweithio mewn meysydd lle mae'r farchnad yn methu er mwyn ychwanegu at y cyllid y gall busnesau bach gael gafael arno o'r sector preifat. Mae'n datrys rhai o’r problemau y mae busnesau bach yn eu hwynebu wrth gael gafael ar gyllid, oherwydd gall fod yn fwy o risg i arianwyr yn y sector preifat roi’r cyllid hwn.

## Beth fyddai amcanion y banc datblygu?

Mae gobaith y gallai'r banc datblygu ddyblu lefelau buddsoddi blynyddol Cyllid Cymru mewn busnesau bach a chanolig, denu buddsoddiad ychwanegol sylweddol o'r sector preifat, a chynyddu nifer y swyddi a gaiff eu creu a'u diogelu o ganlyniad i fuddsoddi. Byddai hyn yn gam mawr ymlaen o ran rhoi cymorth ariannol i fusnesau Cymru.

Er bod bwlch o hyd yn y cyllid sydd ar gael, bydd ymateb Llywodraeth newydd Cymru o'r pwys mwyaf wrth iddi edrych ar effaith busnesau bach a chanolig ar economi Cymru. Bydd yn ffactor o bwys hefyd wrth iddi edrych ar pa mor gystadleuol y gall y busnesau hyn fod. A gaiff banc datblygu ei sefydlu, ac os felly, a fydd yn cyflawni ei amcanion?

## Ffynonellau defnyddiol


– BDRC Continental, **SME Finance Monitor** (Saesneg yn unig) (2011-15)

– British Bankers Association, **SME Statistics: Banking support for UK small and medium-sized enterprises** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– British Business Bank, **Small Business Finance Markets Report 2015-16** (Saesneg yn unig) (2016)

– Cyllid Cymru, **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15** (Saesneg yn unig) (2015)

– Cyllid Cymru, **Canllaw termau buddsoddi** (gwefan)

– Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Banc Datblygu i Gymru**, A feasibility study into the creation of a Development Bank for Wales** (Saesneg yn unig) (2015)

– Jones-Evans, Yr Athro Dylan ar gyfer Llywodraeth Cymru, **Adolygiadau o Fynediad at Gyllid** (2013)

– Lloyd-Griffiths, Robert ar gyfer Llywodraeth Cymru, **Lending Ready: Aligning Business Support and Finance Review** (Saesneg yn unig) (2015)

– Y Pwyllgor Cyllid, **Cyllid Cymru** (2014)

– Y Ganolfan Ymchwil Newid Diwylliannol-Gymdeithasol (CRESC), **What Wales Could Be** (Saesneg yn unig) (2015)

# Twf yn y de-ddwyrain

## *Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cytuno ar Fargen Ddinesig yn ddiweddar. Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio i hybu twf economaidd?*

***Gareth Thomas, Andrew Minnis ac Elfyn Henderson***

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**, sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol ar draws y de-ddwyrain, yw'r ddinas-ranbarth fwyaf yng Nghymru. Mae i gyfrif am tua hanner holl gyflogaeth a gwerth ychwanegol crynswth (GVA) Cymru, sef mesur pwysig o allbwn economaidd ein gwlad.

Er gwaethaf hyn, mae gwerth ychwanegol crynswth y rhanbarth yn is na phob un ond un o'r dinas-ranbarthau mwyaf yn Lloegr. Hefyd mae'n anodd helpu cymunedau yn y cymoedd i fanteisio ar gyfleoedd economaidd. Bydd rheoli poblogaeth a thwf economaidd tra'n gwella ansawdd bywyd pobl y rhanbarth yn fater o bwys i Lywodraeth Cymru ac eraill yn ystod y Pumed Cynulliad.

### Cynllunio ar gyfer twf

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol yn y de-ddwyrain wedi paratoi eu cynlluniau datblygu lleol erbyn hyn. Mae'r cynlluniau presennol ar gyfer y rhanbarth yn sicrhau capasiti ar gyfer tua 110,000 o gartrefi ychwanegol erbyn 2021-26, gan cynnwys 41,000 o gartrefi yng Nghaerdydd. Yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, mae disgwyl y bydd gan Gaerdydd gyfradd twf o ran poblogaeth sy'n uwch nag unrhyw ddinas arall yn y DU.

Er bod cynlluniau datblygu lleol yn berthnasol i ardal awdurdod cynllunio lleol, mae yna faterion i'w cael sy'n berthnasol i nifer o awdurdodau cynllunio lleol. Er enghraifft, mae llawer o bobl yn byw ac yn gweithio mewn gwahanol ardaloedd, sy'n effeithio ar y galw am dai yn y rhanbarth. Mae materion strategol trawsffiniol eraill yn cynnwys safleoedd cyflogaeth a seilwaith trafnidiaeth.

Yn 2012, argymhellodd **Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dinas-Ranbarthau** nifer o welliannau o ran cydweithio rhanbarthol a phartneriaethau. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dewis canolbwyntio ar gydweithio mewn pedwar maes: cysylltiadau; sgiliau; arloesi a thwf; a hunaniaeth.

Mae ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yn caniatáu i Lywodraeth Cymru nodi 'ardaloedd cynllunio strategol' sy'n fwy nag awdurdodau cynllunio lleol unigol, ac i 'baneli cynllunio strategol' gael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd hyn. Yna, bydd panel yn creu 'cynllun datblygu strategol', a fydd yn ymdrin â materion trawsffiniol ac yn dod yn rhan o'r cynllun datblygu ffurfiol ar gyfer yr ardal honno. Awgrymodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru y gallai un o'r rhain gwmpasu rhan o dde-ddwyrain Cymru, gan ganolbwyntio ar Gaerdydd.

### Rôl y Metro

Nodwyd **prosiect Metro'r de-ddwyrain** gan Fwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel elfen sydd wrth graidd y prosiect Dinas-Ranbarth. Bydd y Metro yn system drafnidiaeth integredig sy'n cynnwys bysiau, rheilffyrdd trwm ac o bosibl rheilffyrdd ysgafn.

Nododd adroddiad **Sbarduno Economi Cymru** y bwrdd fod 65% o'r cymudwyr i Gaerdydd yn dibynnu ar geir, ac mae hon yn ganran uwch na dinasoedd tebyg fel Caeredin a Manceinion. Pe bai'r sefyllfa'n parhau, gallai hyn atal twf economaidd ac effeithio ar ansawdd bywyd pobl yn y rhanbarth. Nod y

Metro yw mynd i'r afael â hyn drwy gynyddu nifer y bobl yn y rhanbarth sy'n gallu defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus 60% erbyn 2030. Gallai hyn fod o gymorth i fynd i'r afael â thagfeydd, a lleihau'r angen am fuddsoddi yn y priffyrdd, tra gallai hefyd arwain at dwf poblogaeth posibl o fwy na 100,000 o bobl ar draws y rhanbarth.

Awgrymodd yr **Astudiaeth effaith: Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** y gallai'r cynllun gefnogi 7,000 o swyddi newydd a chyfrannu £4 biliwn at economi'r rhanbarth dros gyfnod o 30 mlynedd. Roedd yr astudiaeth yn rhagweld y gallai'r cynllun fod yn rhan annatod o adfywio hefyd, yn enwedig yn y Cymoedd. Gallai gorsafoedd pwysig a chyfnewidfeydd eraill ddod yn ganolfannau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi datblygiad lleol, a gallai mynediad gwell at gyflogaeth a gwasanaethau pwysig hefyd brysuro newid.

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cytunwyd ar **Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** ym mis Mawrth 2016. Dyrannwyd iddi gronfa fuddsoddi o £1.2 biliwn dros gyfnod o 20 mlynedd, gyda £734 miliwn o hwnnw ar gyfer y Metro a thrydaneiddio Cledrau'r Cymoedd. Bydd y fargen hefyd yn sefydlu awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol i gryfhau'r broses o gynllunio trafnidiaeth.

Er mwyn cael gweddill yr arian hwn bydd yn rhaid i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ddangos, drwy asesiad annibynnol bob pum mlynedd, fod y buddsoddi wedi cyflawni'r prif amcanion ac wedi cyfrannu at dwf economaidd yng Nghymru ac yn y DU. Gallai'r cyllid sy'n weddill ariannu cynlluniau eraill sy'n cefnogi twf economaidd, gan gynnwys buddsoddi mewn rhagor o brosiectau trafnidiaeth, safleoedd tai a chyflogaeth, neu fuddsoddi mewn cyfleusterau ymchwil ac arloesi.

Bydd y Fargen Ddinesig hefyd yn ceisio denu buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn o'r sector preifat, gan greu 25,000 o swyddi newydd a **chynyddu gwerth ychwanegol crynswth y rhanbarth** o leiaf 5% dros gyfnod y buddsoddiad.

Cytunodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru i ystyried rhoi rhagor o bwerau ariannol i'r rhanbarth i gyflawni ymrwymiadau'r Fargen-Ddinesig. Mae'r rhain yn cynnwys rhywfaint o ddatganoli incwm ardrethi busnes, caniatáu ariannu prosiectau seilwaith drwy ardollau, a mynd i'r afael â heriau fel tlodi a safonau ysgolion ar sail ranbarthol.

Gyda chymaint yn y fantol, un mater o bwys fydd sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn sicrhau bod y darnau yn y pos yn dod at ei gilydd i drawsnewid economi'r rhanbarth, yn enwedig ac ystyried goblygiadau posibl diwygio llywodraeth leol (gweler yr erthygl ar y pwnc hwn). At hynny, i ba raddau y bydd y prosiect hwn yn rhoi cliwiau i ni ynghylch sut all bargeinion posibl eraill ar gyfer Bae Abertawe a'r gogledd arwain at ragor o dwf economaidd?

## Ffynonellau defnyddiol

- ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015***
- Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dinas-Ranbarthau** (gwefan)
- Llywodraeth Cymru, **Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PDF 9.2MB)** (2013)
- Llywodraeth y DU, **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** (2016)
- Llywodraeth Cymru, **Gwybodaeth am y Metro** (gwefan)
- Llywodraeth Cymru, **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** (gwefan)

# Trafnidiaeth yn y gogledd

## *Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn sicrhau bod y rhwydwaith trafnidiaeth yn rhoi hwb i economi trawsffiniol y gogledd?*

***Andrew Minnis***

Mae **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru**, a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol y gogledd ym mis Ionawr 2015, yn nodi pum mater o bwys ym maes trafnidiaeth sy'n effeithio ar y rhanbarth. Ymhlith y rhain, mae'r cynllun yn tynnu sylw at bwysigrwydd economaidd cysylltiadau strategol ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, a'u gallu i gludo pobl a nwyddau i borthladdoedd a gweddill y DU. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw cysylltiadau trawsffiniol, o ran y ffyrdd a'r rheilffyrdd, i'r gogledd.

Mae **Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol** Llywodraeth ddiwethaf Cymru, fel y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd, yn nodi prosiectau buddsoddi arfaethedig ar gyfer pob math o drafnidiaeth yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae dau faes pwysig yn creu cyfleoedd a bygythiadau uniongyrchol i ranbarth sydd wedi'i gysylltu'n agos â'r ardaloedd dros y ffin.

### Moderneiddio'r rheilffyrdd

Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau i fuddsoddi mewn rheilffyrdd, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr. Fel arfer, caiff prosiectau seilwaith rheilffyrdd eu rhoi ar waith mewn blociau cynllunio pum mlynedd a elwir yn Gyfnodau Rheoli. Mae'r paratoadau'n dechrau nawr ar gyfer yr un nesaf, sef Cyfnod Rheoli 6, a fydd yn rhedeg rhwng 2019 a 2024. Disgwylir i Lywodraeth y DU gyhoeddi dogfennau pwysig yn nodi pa brosiectau a roddir ar waith, a'r cyllid sydd ar gael, yn ystod tymor yr haf 2017.

Roedd Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn awyddus i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y gogledd, yn benodol drwy drydaneiddio. Mae awdurdodau lleol a rhanbarthol ar ddwy ochr y ffin am weld hynny'n digwydd hefyd. Cyhoeddwyd **Astudiaeth Llwybr Cymru Network Rail** ym mis Mawrth 2016 ac mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno'r dewisiadau i fuddsoddwyr ar gyfer Cyfnod Rheoli 6 a thu hwnt. Mae'n cynnwys opsiynau ar gyfer gwella cyflymder llinellau ar y rhwydwaith presennol a thrydaneiddio prif reilffordd y gogledd.

Cynhaliodd Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad **Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru** yn 2016. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn amlinellu pa mor bwysig yw trydaneiddio'r rheilffordd. Yn benodol, roedd **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Greengauge 21** yn dadlau'n gryf ei bod yn hanfodol cynnwys pecyn o welliannau yng Nghyfnod Rheoli 6, gan gynnwys trydaneiddio'r rheilffordd rhwng Crewe / Warrington a Llandudno / Caergybi drwy Gaer, a hynny er mwyn gwireddu potensial economaidd y rhanbarth a sicrhau manteision yn sgil datblygiadau mawr yn Lloegr, fel **High Speed 2 (HS2)**.

Nododd y Pwyllgor fod achos cryf dros drydaneiddio'r rheilffordd, ond roedd ganddo bryderon ynglŷn â phwy fyddai'n ariannu'r prosiect, a fyddai'r anghenion o ran cludo nwyddau yn cael sylw digonol, ac a ellid gwneud y gwaith yn ystod Cyfnod Rheoli 6. Yn dilyn oedi yn rhaglen fuddsoddi bresennol Network Rail, roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r prosiect gael ei ohirio tan ar ôl i HS2 gyrraedd Crewe (tua 2027), ac y byddai hynny'n lleihau manteision economaidd HS2 i ogledd Cymru.

Yn dilyn uwchgynhadledd ynghylch y rheilffyrdd ym mis Tachwedd 2015, sefydlwyd tasglu trawsffiniol yn cynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r gymuned fusnes i gytuno ar y gwelliannau sydd eu hangen ar y rhwydwaith. Datblygodd y tasglu achos busnes cychwynnol ar drydaneiddio i'w roi ar waith yng Nghyfnod Rheoli 6. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr **achos busnes** i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2016. Mae dylanwadu ar amseru, cyllido a chwmpas gwelliannau i reilffyrdd y gogledd yn debyg o fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru.

## Cysylltiadau trawsffiniol

Comisiynodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru adroddiad ar **Economi Drawsffiniol Rhanbarth Dyfrdwy** a gyhoeddwyd yn 2013. Dangosodd yr adroddiad nad yw patrymau teithio yn y rhanbarth yn cydnabod y ffin. Yn yr un modd, canfu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar y seilwaith rheilffyrdd na ddylai'r ffin fod yn ystyriaeth o safbwynt cynllunio a darparu trafnidiaeth. Canfu hefyd fod y mannau ar y rhwydwaith lle y mae teithwyr o Gymru yn cael problemau ar eu taith yn aml yn Lloegr.

Mae'r ymdrechion i greu 'pwerdy gogledd Lloegr' yn cynnwys datganoli pwerau trafnidiaeth i gyrff rhanbarthol newydd fel **Transport for the North (TfN)**. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i Lywodraeth newydd Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid pwysig eraill gydweithio â'r cyrff hynny yn Lloegr a dylanwadu arnynt. Gallai methu â chreu cysylltiadau effeithiol olygu nad yw buddsoddiad yn rhwydwaith trafnidiaeth Lloegr yn ystyried anghenion Cymru, a gallai hynny danseilio rhwydwaith Cymru. Yng nghyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2016, **dyrannwyd £300 miliwn** i brosiectau mawr yn Lloegr fel High Speed 3, cysylltu Leeds a Manceinion a datblygu achos busnes ar gyfer twnnel newydd drwy fynyddoedd y Penwynion. Mae maint y buddsoddiad a fwriedir yn dangos pam fod angen i Gymru ddylanwadu ar brosiectau a allai sicrhau manteision gwirioneddol i'r gogledd. Agorodd y gyllideb y drws hefyd i **'gytundeb twf' ar gyfer y gogledd**, gan roi cyllid i gysylltu'r rhanbarth â phwerdy gogledd Lloegr.

Mae cysylltiadau trawsffiniol wedi'u hen sefydlu yn y gogledd, ac mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â TfN. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor Menter a Busnes dystiolaeth yn awgrymu bod gan Transport Scotland berthynas waith agosach â TfN na Llywodraeth Cymru. Dywedodd West Midlands Rail, sef y corff sy'n gweithio gydag Adran Drafnidiaeth y DU i gaffael masnachfraint rheilffyrdd newydd gorllewin canolbarth Lloegr, nad oedd wedi cael trafodaethau uniongyrchol o gwbl â Llywodraeth Cymru.

Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a TfN yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud mwy â chyrff cynllunio trafnidiaeth Lloegr er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau a threfnu eu cyllid ar y cyd.

## Ffynonellau defnyddiol


– Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Busnes (PDF 4MB)** (2016)

– Haywood, Elizabeth, **The Dee Region Cross-Border Economy: next steps (PDF 330KB)** (Saesneg yn unig) (2013)

– Llywodraeth Cymru, **Cynllun Cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015** (gwefan)

– Network Rail, **Astudiaeth Llwybr Cymru** (2016)

– Taith, **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru** (gwefan)

– Y Pwyllgor Menter a Busnes, **Blaenoriaethau ar gyfer dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru** (2016)

# Dyfodol teithio ar y rheilffyrdd

*Yn 2018, Llywodraeth newydd Cymru fydd yn gyfrifol am roi'r fasnachfraint nesaf ar gyfer rheilffordd Cymru a'r Gororau. Beth yw'r prif faterion sydd angen sylw?*

***Joseph Champion***

Bydd y pwerau i roi masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau yn cael eu datganoli i Gymru yn 2017. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth newydd Cymru fydd yn dewis pwy fydd yn cael masnachfraint rheilffyrdd fwyaf Cymru.

## Masnachfraint Cymru a'r Gororau

Gan **Trenau Arriva Cymru** y mae masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau, a hynny tan 2018 (mae opsiwn i ymestyn y fasnachfraint honno am gyfnod byr os oes angen).

Ddechrau 2016, cynhaliodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru **ymgynghoriad ar y fasnachfraint newydd**. Roedd yr ymgynghoriad yn galw am farn pobl am yr hyn y dylai gwasanaeth Cymru a'r Gororau fod yn ei ddarparu, ac am y manylebau penodol y dylai gweithredwr y fasnachfraint eu bodloni. Nododd y ddogfen y byddai cynigion manylach yn cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac ar ôl holi barn y diwydiant rheilffyrdd a'r cyhoedd ymhellach.

Nid yw'n glir eto beth fydd hyd y fasnachfraint nesaf, a chymysg yw'r farn am yr hyd gorau. Cwestiynodd **adolygiad gan Lywodraeth y DU** pa mor fuddiol yw masnachfreintiau hir os mai annog buddsoddi a lleihau risg yw'r nod, gan rybuddio yn erbyn masnachfreintiau hwy na 15 mlynedd heb gymalau i'w terfynu. Ar y llaw arall, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad i **Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau** o'r farn y byddai masnachfreintiau hwy yn annog mwy o fuddsoddi.

### Masnachfreintiau rheilffyrdd Cymru

Yn ogystal â masnachfraint Cymru a'r Gororau, mae gan dair masnachfraint arall wasanaethau yng Nghymru:

- de Cymru i Lundain ac arfordir de Lloegr (**Great Western Railway**);
- Caergybi i Birmingham neu Lundain (**Virgin Trains**); a
- Caerdydd i ganolbarth Lloegr (**CrossCountry Trains**).

Mae ansicrwydd hefyd ynghylch union natur masnachfraint Cymru a'r Gororau yn y dyfodol. Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** y bydd yn adolygu'r llwybrau rheilffyrdd sy'n croesi'r ffin, ac y bydd y rhai sy'n gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf yn debygol o gael eu trosglwyddo i fasnachfreintiau yn Lloegr. Mae hyn wedi achosi pryder oherwydd yr effaith bosibl ar deithwyr, a allai orfod newid trên ar y ffin. Mae pryderon hefyd a fydd y fasnachfraint yn fforddiadwy os caiff y gwasanaethau sy'n croesi'r ffin – gwasanaethau sy'n gwneud arian – eu colli.

Dywedodd **Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU** wrth y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Medi 2015 na fyddai Llywodraeth Cymru yn dioddef yn ariannol pe bai llwybrau'r masnachfreintiau yn cael eu newid. Roedd ansicrwydd ynghylch sut fyddai gwasanaethau Lloegr yn cael eu diffinio, yn ogystal â sut fyddai Llywodraeth Cymru'n cael ei digolledu'n ariannol pe bai gwasanaethau'n diflannu o'r fasnachfraint.

Bydd angen datrys yr ansicrwydd hwn yn fuan er mwyn lleddfu pryderon y cyhoedd ac er mwyn i Lywodraeth newydd Cymru symud ymlaen â'r broses o roi'r fasnachfraint nesaf.

## Y Metro

Bydd **prosiect Metro'r de-ddwyrain** yn effeithio ar natur masnachfraint Cymru. Y Metro yw prosiect Llywodraeth ddiwethaf Cymru i 'ddarparu gwasanaethau cyflymach, mwy cyson a mwy unedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn'. Erbyn 2030, y gobaith yw y bydd y Metro wedi cynorthwyo i greu 7,000 o swyddi a chyfrannu £4 biliwn ychwanegol i'r economi.

### Traffig teithwyr ar y rheilffyrdd yng Nghymru

Yn 2014-15, gwnaed 29.3 miliwn o deithiau ar draws y pedair masnachfraint rheilffyrdd yng Nghymru – 9.4 miliwn yn fwy nag yn 2004-5. Disgwylir i'r twf hwn barhau, gyda **Network Rail yn rhagweld** y bydd traffig cymudwyr i Ddinas-ranbarth Caerdydd yn cynyddu 68% erbyn 2023. Bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y sawl sy'n cael y fasnachfraint nesaf yn gallu ymdopi â'r cynnydd hwn mewn galw.

Roedd Cyfnod 1 prosiect y Metro yn cynnwys amrywiaeth o welliannau i ffyrdd a rheilffyrdd, gan gynnwys: ymestyn y rheilffordd i ganol Glynebwy ac adeiladu gorsaf newydd; gwella'r capasiti ar reilffordd Maesteg; ac adeiladu gorsaf newydd yn Pye Corner, Casnewydd.

Roedd costau Cyfnod 1 tua £75 miliwn. Erbyn 2016, roedd yr holl brosiectau a oedd yn rhan o'r Cyfnod hwn naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill. Disgwylir cwblhau Cyfnod 2 erbyn 2023, ac amcangyfrifir y bydd yn costio **£500-600 miliwn.** Bydd yn canolbwyntio ar foderneiddio Cledrau'r Cymoedd a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach y de, yn bennaf drwy eu trydaneiddio. Mae'n aneglur o hyd ai cerbydau trwm ynteu ysgafn fydd yn cael eu defnyddio ar Gledrau'r Cymoedd. Bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar raddfa a chwmpas Cyfnod 3, a fydd yn para y tu hwnt i 2023.

Mae Llywodraeth ddiwethaf Cymru wedi trafod, fel rhan o'r Metro, a fyddai modd i gwmni preifat reoli Cledrau'r Cymoedd fel consesiwn, a hynny yn rhan o fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Trafodwyd hefyd ddull arloesol lle byddai seilwaith Cledrau'r Cymoedd hefyd yn cael ei bennu a'i weithredu gan ddeiliad y consesiwn.

## Cerbydau

Mae'r cerbydau a ddefnyddir gan fasnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau o safon isel, a bydd angen buddsoddi'n sylweddol ynddynt. Erbyn Ionawr 2020, bydd hefyd angen i gerbydau gydymffurfio â'r **rheolau newydd ar fynediad i bobl anabl**. Yn 2013, ni fyddai 73% o gerbydau Cymru a'r Gororau wedi cydymffurfio â'r rheolau hyn.

Mae sawl opsiwn ar gyfer cael cerbydau gwell, gan gynnwys prynu stoc newydd neu stoc wedi'i hadnewyddu, uwchraddio'r stoc bresennol, neu brydlesu stoc gan gwmnïau preifat. Dywedodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru ei bod am i'r broses o wneud cais am y fasnachfraint nesaf gynnwys yr angen i gael strategaeth cerbydau.


Gall gymryd cryn amser i gael cerbydau newydd, **gyda rhai'n awgrymu** y dylid dechrau'r broses bedair blynedd cyn bod eu hangen. Bydd yn bwysig gwneud penderfyniadau cyflym, felly.

## Trafnidiaeth Cymru

Yn 2014, **creodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru** gwmni di-ddifidend o'r enw Trafnidiaeth Cymru. Ym mis **Chwefror 2016**, dywedodd Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, ei bod yn disgwyl i'r cwmni weithredu yn debyg i **Transport for London**.

Trafnidiaeth Cymru fydd y prif gorff strategol ar gyfer trafnidiaeth yn y wlad. Bydd yn rhoi consesiynau i gwmnïau sydd am redeg gwasanaethau, gan gynnwys rheilffyrdd, ac yn arwain y gwaith o roi masnachfreintiau. Mae disgwyl mai’r corff hwn felly fydd yn arwain y broses o roi masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru a chonsesiwn Cledrau’r Cymoedd.

**Rhwydwaith rheilffyrdd Trenau Arriva Cymru**




## Ffynonellau defnyddiol:

– Llywodraeth Cymru, **Gosod y Trywydd ar gyfer Rheilffordd Cymru a’r Gororau** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Tudalen We Metro’r De** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Gwelliannau i reilffyrdd** (gwefan)

– Llywodraeth y DU, **The Brown review of the rail franchising programme** (Saesneg yn unig) (2013)

– Llywodraeth y DU, **Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru** (2015)

– Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, **Regional Rail Usage (Passenger Journeys), 2014-15 Annual Statistical Release** (Saesneg yn unig) (2016)

– Y Pwyllgor Menter a Busnes, **Trawsgrifiad cyfarfod 24 Chwefror** (2015)

– Y Pwyllgor Menter a Busnes, **Adroddiad Dyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau** (2013)



# Tlodi, cydraddoldeb a thai

- Gwaith, lles a thlodi
- Dyledion ac allgáu ariannol
- Cyflwr hawliau dynol a chydraddoldeb
- Cynyddu'r cyflenwad tai

# Gwaith, lles a thlodi

*Gyda mwy a mwy o bobl mewn tlodi er bod ganddynt waith, a rhagor o ddiwygiadau lles ar y gorwel, beth fydd gan y Pumed Cynulliad i'w gynnig i'r rheini sydd ar incwm isel?*

***Hannah Johnson a Gareth Thomas***

Mae bron chwarter poblogaeth Cymru yn byw o dan y llinell dlodi. Mae hyn yn golygu bod 700,000 o bobl o bob oed, sef 23% o'r wlad, yn byw ar aelwydydd sydd ag incwm wythnosol o £232 neu lai.

Yng Nghymru y mae'r gyfradd uchaf o dlodi yn y DU. Mae'r lefelau wedi bod yn gymharol sefydlog ers deng mlynedd, ond mae'r proffil o ran pwy sy'n byw mewn tlodi wedi newid.

Mae pensiynwyr yn llawer llai tebygol o fod yn dlawd nag oeddent ddeng mlynedd yn ôl, ac mae'r cyfraddau tlodi wedi gostwng o 23% i 14%. Mae lefel tlodi ymhlith plant yr un fath, sef 31%, ac mae hyn yn is na'r ffigur yn 2000, sef 36%.


Fodd bynnag, mae teuluoedd sy'n gweithio a phobl ifanc yng Nghymru mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi erbyn hyn nag oeddent ddegawd yn ôl.

### Beth yw tlodi?

Ystyrir bod person mewn tlodi os yw incwm yr aelwyd lle mae'n byw yn is na 60% o ganolrif y DU (sef y rhif sydd yng nghanol rhestr o ffigurau).

Canolrif incwm wythnosol aelwydydd yn y DU yw tua £386 ar ôl costau tai, a 60% o'r ffigur hwn yw £232.

**Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi yn y DU 1999/00 - 2013/14**



## Pam fod pobl sy'n gweithio yn byw mewn tlodi?

Ai cael swydd yw'r llwybr gorau allan o dlodi? Mae ein lefelau cyflogaeth yn uwch nag erioed yng Nghymru, a chanran y cartrefi lle nad oes gan neb waith yng Nghymru yn is nag erioed. Ar yr un pryd, mae mwy o bobl mewn tlodi er bod ganddynt waith. Sut fydd hyn yn effeithio ar gynlluniau i atal tlodi a chreu swyddi yn y dyfodol?

Mae patrymau gweithio yn cael effaith enfawr ar y risg o fod mewn tlodi. Mae'r cynnydd yn y bobl sydd mewn tlodi er bod ganddynt waith bron yn gyfan gwbl i'w weld mewn teuluoedd sy'n 'gweithio'n rhannol' (sef cartrefi lle mae pobl yn gweithio'n rhan-amser, yn hunangyflogedig neu lle mae un gweithiwr llawn amser ac un oedolyn nad yw'n gweithio). O gymharu'r ffigur â degawd yn ôl, mae tua 100,000 yn fwy o bobl mewn tlodi os ydynt yn perthyn i deuluoedd sy'n gweithio'n rhannol. Mewn teuluoedd lle mae pob oedolyn yn gweithio, nid oedd unrhyw gynnydd mewn tlodi yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r gyfran uchel o swyddi incwm isel yng Nghymru (sef swyddi sy'n talu llai na dwy ran o dair o'r canolrif ar gyfer cyflog fesul awr yn y DU) yn dylanwadu'n fawr ar y ffigurau hyn. Mae chwarter swyddi Cymru yn rhai cyflog isel, sef yr un gyfran â honno ddeng mlynedd yn ôl. Y gyfran o ran swyddi rhan-amser yw 45%, a menywod sy'n gwneud y swyddi hyn yn bennaf.

Mae'r cydbwysedd rhwng gwaith rhan-amser a gwaith amser llawn wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, gyda bron i 30,000 yn fwy o bobl yng Nghymru yn gweithio'n rhan-amser bellach o gymharu â dechrau'r dirwasgiad yn 2008. Mae rhai o'r farn bod **contractau dim oriau** yn cyfrannu at ddiffyg sicrwydd o ran gwaith, ac roedd bron 50,000 o bobl yng Nghymru ar gontractau o'r fath ddiwedd 2015.

At hynny, nid yw 31% o oedolion o oedran gweithio mewn cyflogaeth o gwbl. Mae'r ffigur ychydig yn uwch ar gyfer menywod, sef 34%. Ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, y ffigur yw 45%, ac ar gyfer pobl anabl, y ffigur yw 55%.

## A fydd diwygiadau lles yn arwain at fwy o dlodi yng Nghymru?

Mae Cymru yn fwy dibynnol ar y wladwriaeth les na gwledydd eraill y DU ac felly mae'r toriadau a wnaed i fudd-daliadau ar gyfer pobl mewn gwaith ac allan o waith yn cael mwy o effaith yma. Mae'r incwm cyfartalog yn is na chyfartaledd y DU, felly mae gostyngiadau mewn budd-daliadau yn debygol o gynrychioli canran uwch o'r incwm net.

Gellir dadlau bod tri mesur diwygio lles a fydd yn cael effaith fawr ar lefelau incwm teuluoedd yng Nghymru yn ystod y Pumed Cynulliad:

- y mesur tanfeddiannu tai cymdeithasol ar gyfer budd-dal tai (neu'r 'dreth ystafell wely', neu'r polisi i 'gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr'), sy'n effeithio ar tua 30,000 o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda gostyngiad wythnosol o £14 y pen ar gyfartaledd;
- credyd cynhwysol, a fydd yn disodli rhai budd-daliadau a chredydau treth. Mae'r mesur hwn eisoes wedi'i gyflwyno a disgwylir iddo fod ar waith yn llawn erbyn 2021. Yng Nghymru, disgwylir i gredyd cynhwysol gynyddu incwm aelwydydd sydd â phlant ac sy'n gweithio, a lleihau incwm aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gwneud gwaith cyflogedig; a
- cyflwyno'r taliad annibyniaeth bersonol (PIP) yn lle'r lwfans byw i'r anabl (DLA). Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud y meini prawf asesu yn llymach, a lleihau nifer y rhai sy'n gymwys i'w hawlio. Mae mwy nag un ym mhob pum person o oedran gweithio yng Nghymru yn anabl – un o'r cyfrannau uchaf yn y DU.

## Beth nesaf?

Mae aelwydydd yng Nghymru yn fwy dibynnol ar fudd-daliadau o gymharu â chyfartaledd y DU. Maent yn debygol o weld gostyngiadau pellach yn eu hincwm dros y pum mlynedd nesaf wrth i nifer fawr o ddiwygiadau newydd gael eu rhoi ar waith.

Cyflogau isel, gwaith ansefydlog a gwaith rhan-amser yw'r prif resymau dros dlodi yng Nghymru, ac mae tua 100,000 yn fwy o bobl yng Nghymru sydd â gwaith, ond mewn tlodi, nag oedd ddeng mlynedd yn ôl. A fydd y teuluoedd hyn yn cael budd o Gyflog Byw Cenedlaethol newydd y DU neu fesurau atal tlodi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ynteu a fydd y toriadau'n drech nag unrhyw fuddion?

Yr her i Lywodraeth newydd Cymru fydd lleihau tlodi pan nad yw'r pwerau dros y ffactorau sylfaenol a all ddylanwadau ar hynny – fel treth, cyfraith cyflogaeth a budd-daliadau – wedi'u datganoli i Gymru.

## Ffynonellau defnyddiol

- Sefydliad Joseph Rowntree, **Monitoring poverty and social exclusion in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- StatsCymru, **Cyfraddau diweithdra ILO** (gwefan)
- StatsCymru, **Nifer y bobl a gyflogir** (gwefan)
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, **The impact of the UK Government's tax, welfare and minimum wage reforms in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Households below average income: 1994/1995 to 2013/2014** (Saesneg yn unig) (gwefan)


# Dyledion ac allgáu ariannol

*Mae mwy o mwy o bobl yn mynd i ddyled yng Nghymru, ac yn arbennig felly mewn rhai ardaloedd. Mae allgáu ariannol hefyd yn broblem. Sut fydd modd mynd i'r afael â'r ddau fater hyn yn ystod y Pumed Cynulliad?*

***Megan Jones***

Mae bron un ym mhob pump o bobl yng Nghymru yn byw gyda phroblemau dyled, o'i gymharu â'r cyfartaledd yn y DU o un ym mhob chwech. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn dangos bod canran y bobl sydd mewn dyled yng Nghymru wedi cynyddu o **16% yn 2014** i **19.6% yn 2016**, tra bo'r cyfartaledd yn y DU wedi gostwng o 18% i 16% yn yr un cyfnod.

**Dyled yng Nghymru**



O'r 10 awdurdod lleol yn y DU sydd â'r lefel uchaf o bobl mewn dyled, mae tri ohonynt yng Nghymru:

– Blaenau Gwent (ail gyda 24.3%);

– Merthyr Tudful (trydydd gyda 24.1%); a

– Rhondda Cynon Taf (degfed gyda 21.9%).

Sir Fynwy (15.3%) yw'r unig ardal awdurdod lleol yng Nghymru lle mae canran y bobl mewn dyled yn is na chyfartaledd y DU.

## Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Pam felly fod cynifer o bobl mewn dyled mewn rhai rhannau o'r wlad? Nid oes un ateb syml, ond mae'r ffigurau uchod, ynghyd â dadansoddiad y **Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW)**, yn dangos bod cysylltiad rhwng bod mewn dyled ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae gan Flaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili oll lefelau uchel o ddyled a diffyg arian. Mae hyn yn cyd-fynd â lefel uchel o ddibyniaeth ar y wladwriaeth les, incwm sy'n is na'r cyfartaledd a **lefel uchel o amddifadedd lluosog**. Er bod perthynas glir rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a dyledion, ni ddylid anwybyddu ffactorau eraill, gan gynnwys effeithiau allgáu ariannol.

## Allgáu ariannol

Ystyr allgáu ariannol yw bod rhywun yn ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau ariannol prif ffrwd, fel cyfrifon banc a chredyd. O ganlyniad, mae rhai unigolion yn dibynnu ar fenthyciadau costus ac yn methu elwa ar ostyngiadau sy'n dod yn sgil taliadau debyd uniongyrchol. Mae'n rhaid iddynt hefyd dalu i gael eu harian eu hunain gan eu bod yn byw mewn ardaloedd heb beiriannau arian parod di-dâl. Efallai nad yw ffactorau o'r fath yn creu dyledion, ond maent yn gwaethygu anawsterau ariannol pobl.

## Sicrhau bod gwasanaethau ariannol ar gael yn rhwyddach

Mae Llywodraeth y DU a'r diwydiant cyllid wedi cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau ariannol ar gael yn rhwyddach. Er enghraifft:

– mae cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant bancio yn golygu bod naw banc a chymdeithas adeiladu mawr yn cynnig cyfrifon banc sylfaenol i bobl nad ydynt yn gallu cael cyfrif banc traddodiadol;

– yn 2006, nododd LINK pa ardaloedd ledled y DU fyddai'n cael blaenoriaeth wrth osod peiriannau arian parod di-dâl. Mae LINK wedi ehangu'r rhaglen hon, ac mae 202 o'r ardaloedd blaenoriaeth newydd sy'n aros am beiriannau yng Nghymru;

– mae ffynonellau benthyciadau traddodiadol fel banciau ac undebau credyd wedi dechrau cystadlu â benthycwyr cost uchel sy'n cynnig benthyciadau cyflym yn y tymor byr. Mae **Smart Money Cymru** ymhlith yr undebau credyd sydd bellach yn gwneud penderfyniadau ar fenthyciadau ar yr un diwrnod ag y mae'r cais yn dod i law; ac

– mae banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnig cyfrifon cynilo tymor byr sy'n hawdd cael arian ohonynt, tra bo rhai undebau credyd yn gweithio â chyflogwyr lleol i ddarparu cynllun didynnu o'r gyflogres er mwyn i weithwyr dalu yn uniongyrchol o'u cyflog i mewn i gyfrif cynilo.

## Strategaeth y Llywodraeth ddiwethaf

Mae **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016** yn disgrifio gweledigaeth Llywodraeth ddiwethaf Cymru ar gyfer gwlad sy'n gynhwysol yn ariannol. Er mwyn rhoi'r weledigaeth hon ar waith, dywed y strategaeth bod yn rhaid i gredyd a gwasanaethau ariannol fforddiadwy fod ar gael i bobl, ymhlith pethau eraill. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i fynd i'r afael ag allgáu ariannol mewn sawl ffordd, gan ddatgan y bydd Llywodraeth Cymru yn:

– gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cyfrif banc sylfaenol ar gael i bawb;

– gweithio i sicrhau bod peiriannau arian parod di-dâl yn cael eu gosod yn yr ardaloedd blaenoriaeth fel mater o frys;

– gweithio gydag undebau credyd i sicrhau bod credyd tymor byr fforddiadwy ar gael yn rhwyddach; a

– gweithio gydag undebau credyd i annog pobl i gynilo trwy ddidynnu arian trwy'r gyflogres.

A yw camau o'r fath yn ddigonol i fynd i'r afael â phroblemau dyled ac allgáu ariannol yng Nghymru? Ynteu a oes angen i Gymru ddatblygu ffordd wahanol a mwy arloesol o wneud hyn?

## Datblygu ffordd newydd o weithio

Mae adroddiad y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, **Future in Finance: A New Approach to Financial Capability**, yn cynnig llwybr gwahanol i un Llywodraeth ddiwethaf Cymru. Mae'n dweud:

– y dylai gwleidyddion a chwmnïau ariannol newid y ffordd y maent yn ymwneud ag aelwydydd incwm isel. Rhaid eu trin fel math gwahanol o gwsmer, yn hytrach nag fel pobl sy'n rhaid eu gwasanaethu oherwydd polisi lles cymdeithasol;

– bod pobl ar incwm isel angen cynnyrch gwell na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a chynnyrch sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer eu hanghenion hwy; a

– bod gan bobl ar incwm isel yr un awydd ag unrhyw grŵp arall i gael dewis o gynnyrch. Mae galw am gynnyrch ariannol fforddiadwy newydd, sef cynnyrch a gynlluniwyd yn benodol i wasanaethu'r farchnad hon.

### Undebau credyd

Cwmni ariannol cydweithredol yw undeb credyd, sy'n cynnig credyd ar log isel i'w aelodau. Nid yw'n gwneud elw. Mae aelodau undebau credyd yn cynilo yn yr un gronfa, a gellir defnyddio hon i gynnig benthyciadau fforddiadwy. Defnyddir yr incwm a gynhyrchir drwy fenthyca i dalu am gostau gweithredu'r undeb credyd, i gynilo cronfeydd wrth gefn ac i dalu difidend i'r aelodau.

## Pwysigrwydd cydweithio

Sut bynnag y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn mynd ati, bydd yn parhau i wynebu cyfyngiadau wrth geisio mynd i'r afael â dyledion ac allgáu ariannol.

Mae hyn oherwydd nad yw materion fel rheoleiddio gwasanaethau ariannol a pholisi ariannol wedi'u datganoli. Mae'n golygu bod mynd i'r afael â hwy yn dibynnu ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU a'r banciau yn ei wneud, yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

## Ffynonellau defnyddiol

– Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru** (2016)

– Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, **Future Finance: A New Approach to Financial Capability** (Saesneg yn unig) (2015)

– Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, **A Picture of Over-Indebtedness** (Saesneg yn unig) (2016)

– Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **Overview of Indebtedness, Low Income and Financial Exclusion** (Saesneg yn unig) (2014)

# Cyflwr hawliau dynol a chydraddoldeb

## *A yw Cymru yn wlad deg? Beth fydd y materion pwysig o ran hawliau dynol a chydraddoldeb yn y Pumed Cynulliad?*

***Hannah Johnson***

Mae'n demtasiwn meddwl nad yw hawliau dynol yn fater o bwys mewn gwlad ddatblygedig fel Cymru. Ond mae cysylltiad hanfodol rhwng yr hawliau cyffredinol hyn a'r cyfleoedd bywyd sydd ar gael i bawb, waeth ble y cawsom ein geni.

Mae modd dadlau bod angen rhoi sylw i anghydraddoldebau sylweddol, a hynny mewn cyfnod o gyni ariannol sy'n dal i effeithio ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd y Pumed Cynulliad felly yn ganolog wrth benderfynu a ddaw Cymru yn wlad decach neu'n fwy annheg.

### Anghydraddoldeb yng Nghymru

Mewn sawl ffordd, mae Cymru yn dal i fod yn wlad annheg. Mae anghysondebau sylweddol o ran lefelau addysg, iechyd, cyflogaeth ac incwm a allai ddylanwadu ar bolisi a'r broses ddeddfu dros y pum mlynedd nesaf:

– mae pobl ifanc 16-24 oed bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl 35-54 oed;

– mae rhai pobl yn llawer mwy tebygol o gael cyflog sy'n llai na'r cyfartaledd. Mae'r rhain yn cynnwys: pobl ifanc (sy'n ennill £6.50 yr awr o gymharu â'r cyfartaledd o £11.20 ymhlith pobl 35-44 oed), lleiafrifoedd ethnig (sy'n ennill 50 ceiniog yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl wyn), a menywod (sy'n ennill £16,412 y flwyddyn ar gyfartaledd tra bo dynion yn ennill £22,921 ar gyfartaledd);

– mae lefelau cyrhaeddiad addysgol rhai plant yn llawer mwy tebygol o fod yn is na'r cyfartaledd. Dim ond 13% o blant Sipsiwn/Roma sy'n cael pump gradd A*-C neu fwy yn eu harholiadau TGAU, a dim ond 17% yw'r canran ymhlith plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ag anghenion addysgol;

– llai na hanner y bobl anabl sy'n cael eu cyflogi, tra bo ychydig dros dri chwarter y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu yn cael eu hysgogi gan hil. Pobl dduon sydd fwyaf tebygol o ddioddef y fath droseddau; ac

– mae tua 38% o aelwydydd lleiafrifoedd ethnig a 31% o blant yn byw mewn tlodi, tra bo diffyg amrywiaeth o hyd mewn swyddi uchel, o wleidyddiaeth i'r sector preifat. Mewn rhai ardaloedd, mae'r gynrychiolaeth yn gwaethygu, gydag **hyd yn oed llai o amrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau** nag oedd ddegawd yn ôl.

### Creu agenda arbennig ar gyfer hawliau dynol yng Nghymru

Bydd y Pumed Cynulliad yn gyfnod pwysig wrth benderfynu sut i flaenoriaethu a rhoi sylw i hawliau dynol yng Nghymru. Bydd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth newydd Cymru yn cael effaith ar urddas, parch, tegwch a diogelwch y boblogaeth, a'r ffordd y caiff pobl eu hamddiffyn.

O dan y **gyfraith ddatganoli**, mae'n rhaid i Gymru lynu wrth gytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn y gorffennol, mae Llywodraethau Cymru wedi mabwysiadu dull gwahanol i Lywodraeth y DU o roi sylw i hawliau dynol. A fydd hyn yn parhau yn y dyfodol?

Er enghraifft, mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (neu i roi sylw dyledus iddo). Yn yr un modd, mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr UNCRC ynghyd â'r Confensiwn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol cyfatebol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi 'sylw dyledus' i'r UNCRC yng nghyfraith gwledydd eraill y DU.

Mae arbenigwyr o Gymru yn cytuno y dylid ystyried hawliau dynol yn **arf i wella bywydau pobl**, yn hytrach nag yn ffordd o unioni'r drefn ar ôl i rywbeth ddigwydd. Mae rhai o'r farn bod y ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn ffordd ystyrlon o wella polisïau ac arferion. Ym marn eraill, dim ond proses o ategu hawliau dynol ydyw, neu ymarfer i 'dicio blychau'. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd y gofyniad i roi 'sylw dyledus' i gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol yn cael ei adlewyrchu yng nghyfreithiau a pholisïau Cymru yn y dyfodol.

## Materion hawliau dynol a chydraddoldeb yn y Pumed Cynulliad

Mae'r materion cydraddoldeb a hawliau dynol eraill sy'n debygol o godi yn y Pumed Cynulliad yn cynnwys:

- cydraddoldeb rhyw: gan gynnwys cynrychiolaeth, bylchau mewn cyflog, cyfranogiad economaidd a thrais yn erbyn menywod;
- tlodi: gyda lefel uchel o dlodi yng Nghymru, a rhai grwpiau o bobl yn llawer mwy tebygol o fod yn dlawd, mae incwm isel a'r anfanteision gydol oes a ddaw yn ei sgil yn prysur ddod yn fater hawliau dynol;
- cosbi corfforol (smacio): bydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gwneud argymhellion yn fuan yn dilyn ei archwiliad o gynnydd ym maes hawliau plant yng Nghymru. Mae smacio yn thema sy'n codi droeon, ac mae'r ddadl bron yn sicr o godi eto; a
- troseddau casineb: yn enwedig y cynnydd o ran troseddau Islamoffobaidd a gwrth-Semitaidd, ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o gael eu cam-drin: gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl hŷn mewn gofal, pobl anabl a phlant sy'n derbyn gofal.

Mae hawliau dynol yn rhan bwysig o'r setliad datganoli ac o gyfansoddiad y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi **addo cyflwyno** Bil iawnderau yn lle *Deddf Hawliau Dynol 1998* a chyfyngu ar rôl Llys Hawliau Dynol Ewrop. Mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn ddadleuol a chafwyd cryn oedi eisoes. Er nad oes **unrhyw gynlluniau** i'r DU adael y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, byddai Bil iawnderau yn arwain at oblygiadau enfawr i Gymru.

Os cyflwynir deddfwriaeth newydd o'r fath, a ddaw Cymru yn decach neu'n fwy annheg? Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwnnw'n dibynnu ar ymateb Llywodraeth Cymru ac ar sut fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar y gwaith a wneir i amddiffyn hawliau dynol.

## Ffynonellau defnyddiol

- Prifysgol Caerdydd, **Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)**
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, **A yw Cymru'n decach?** (2015)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, **Pwy sy'n rhedeg Cymru**? (2014) (Saesneg yn unig)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, **Adroddiad Bord Gron ar Hawliau Dynol** (2014)

# Cynyddu'r cyflenwad tai

*Mae anghenion a dyheadau pawb yn wahanol wrth chwilio am gartref – o'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf, i'r rhai sy'n rhentu, i rywun sy'n chwilio am do uwch ei ben. Ond a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i gwrdd ag anghenion tai'r genedl?*

***Jonathan Baxter***

Nid yw Cymru yn adeiladu digon o gartrefi. Mae cyflenwad annigonol o dai yn cael effaith negyddol nid yn unig ar les unigolion, ond ar les economaidd y genedl hefyd. Dyna pam y mae'n rhaid i Lywodraeth newydd Cymru roi blaenoriaeth i gynyddu'r cyflenwad o dai.


Yn ôl ymchwil ddiweddar, mae angen adeiladu tai ar raddfa nas gwelwyd ers sawl degawd er mwyn cwrdd â'r angen a'r galw. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y cyflenwad wedi cynyddu yn ddiweddar, ond mae diffyg blynyddol o hyd at 5,000 o gartrefi.

Ni welir y cartrefi ychwanegol hynny os bydd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio ar wahân; yn hytrach, mae angen i'r sector cyfan gydweithio o dan arweiniad strategol Llywodraeth Cymru.

## Faint o gartrefi sydd eu hangen?

Yn ôl ei **ymchwil ddiweddar**, awgrymodd y diweddar Dr Alan Holmans (a gâi ei gydnabod fel prif arbenigwr y DU ym maes rhagamcanu'r angen a'r galw am dai yn y dyfodol), gallai fod angen cynifer â 12,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn ar Gymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd a ddisgwylir yn nifer yr aelwydydd un person. Yn 2014-15, adeiladwyd ychydig dros 6,000 o gartrefi newydd yng Nghymru. Hanner canrif yn ôl, câi tua 20,000 o gartrefi'r flwyddyn eu hadeiladu.

**Tai newydd a adeiladwyd yng Nghymru rhwng 1955 a 2015**



## Pwy fydd yn adeiladu'r cartrefi newydd?

Ym 1955, adeiladwyd dros 70% o'r holl gartrefi newydd gan y sector cyhoeddus. Drigain mlynedd yn ddiweddarach, mae'r sefyllfa fel arall, gyda dros 80% o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gan y sector preifat.

Yn 2015, llofnododd Llywodraeth Cymru **gytundeb cyflenwad tai** gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi i bwysleisio pwysigrwydd y bartneriaeth honno, gan gynnwys rôl y sector preifat o ran darparu tai fforddiadwy. Cyn hynny, llofnodwyd cytundeb tebyg gyda **Cartrefi Cymunedol Cymru**, sef corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai. Cymdeithasau tai a ddarparodd **89% o'r holl dai fforddiadwy newydd yn 2014-15**, gyda grant gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r mwyafrif ohonynt. Yn 2016-17, amcangyfrifir y bydd 2,700 o dai fforddiadwy newydd yn cael eu darparu gan gymdeithasau tai, awdurdodau lleol a'r sector preifat. Mae hynny tua hanner yr hyn sydd ei angen yn ôl ymchwil Dr Holmans, er bod y diffiniad o 'sector cymdeithasol' a ddefnyddiwyd ganddo hefyd yn cynnwys eiddo a rentir yn breifat lle hawlir budd-dal tai i helpu i dalu'r rhent.

Mae rôl i'r sector rhentu preifat hefyd, o ran creu buddsoddiad mewn adeiladu newydd. Gan gyfrif am 14% o'r stoc tai cyfan, a'r ffigur hwnnw'n tyfu, mae dwywaith gymaint o bobl yn rhentu oddi wrth landlordiaid preifat nag sy'n rhentu oddi wrth awdurdodau lleol. Disgrifiwyd y cynnydd hwn ym maint y sector fel y newid strwythurol mwyaf yn y farchnad dai ers dwy genhedlaeth.

## Beth yw'r rhwystrau i adeiladu tai?

Gyda phrisiau tai canolrifol yng Nghymru dros chwe gwaith yn fwy na'r incwm canolrifol yn 2015 (o'u cymharu â thua thair gwaith yr incwm canolrifol ym 1999), un o'r rhwystrau mawr i berchentyaeth a'r cyflenwad o dai newydd fu'r ffaith ei bod yn anodd sicrhau cyllid morgeisi. I ymdrin â hyn, cyflwynodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru'r cynllun **Cymorth i Brynu - Cymru**. Mae'n cynorthwyo perchentyaeth trwy ganiatáu i'r sawl sydd â blaendal llai i brynu cartref ac mae hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu. Mae'r cynllun wedi helpu **tua 3,000 o aelwydydd** i brynu cartref. Fe'i hestynnwyd yn ddiweddar i 2021 ac mae posibilrwydd y bydd yn helpu hyd at 6,000 o aelwydydd yn ychwanegol.

### Tai fforddiadwy

Mae'r rhain yn cynnwys tai rhent cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn ogystal â thai canolradd. Mae tai canolradd yn golygu eiddo y mae ei bris neu ei rent yn uwch na thai rhent cymdeithasol ond yn is na'r farchnad dai.

Wrth sôn am rwystrau rhag datblygu, mae datblygwyr yn cyfeirio at fiwrocratiaeth ddiangen yn y system gynllunio, costau ychwanegol oherwydd rheoliadau adeiladu, cyflenwad annigonol o dir, a'r dull a ddefnyddir i ddarparu tai fforddiadwy mewn datblygiadau newydd. Maent hefyd yn haeru bod hyn yn gwneud Cymru yn lle llai deniadol ar gyfer buddsoddi arian datblygu. Gall y ffactorau hyn effeithio ar ddichonoldeb a rhoi stop ar ddatblygiad cyn iddo ddechrau.

## Y ffordd ymlaen?

Yn hanesyddol, **swm cymharol fach** yw'r arian cyhoeddus a ddyrannwyd i dai yng Nghymru. A grantiau cyfalaf yn benodol yn annhebygol o gynyddu'n sylweddol yn ystod y Pumed Cynulliad, bydd angen cydweithredu agos â'r sector cymdeithasau tai yn benodol wrth iddo chwilio am ffyrdd mwy arloesol a chynaliadwy o ariannu tai fforddiadwy.

Hyd yn oed â chyllid uniongyrchol ychwanegol, ni all Llywodraeth Cymru fodloni'r angen am dai ar ei phen ei hun. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector

preifat a'r trydydd sector, gall Llywodraeth Cymru roi arweiniad strategol a chreu amgylchedd rheoleiddiol sy'n annog ac yn hwyluso gwaith datblygu.


Yn y Pedwerydd Cynulliad, ymddengys i Lywodraeth Cymru daro ei tharged o ddarparu **10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol**. A fydd y Pumed Cynulliad yn gweld targed tai fforddiadwy mwy uchelgeisiol, yn unol ag ymchwil Holmans ac, am y tro cyntaf, darged cyffredinol ar gyfer adeiladu tai? A yw hefyd yn bryd datblygu **strategaeth dai genedlaethol** newydd?

I ryw raddau, caiff llwyddiant Llywodraeth Cymru ei asesu ar sail ystadegau pur: digartrefedd, nifer y tai a adeiledir, a pherchentyaeth. Ond gwyddom fod tai yn cael effaith eang – ar iechyd, cyrhaeddiad addysgol a thlodi, a bod tai hefyd yn dod â **manteision ehangach o ran yr economi ac adfywio**.

Mewn gwirionedd, mae mwy i dai na phedair wal a tho. Yn y cyd-destun hwnnw y dylid tafoli llwyddiant polisi tai Llywodraeth nesaf Cymru.

## Ffynonellau defnyddiol


- Llywodraeth Cymru, **Darpariaeth Tai Fforddiadwy 2014-15** (2015)
- NLP, **The Economic Footprint of House Building in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **Future Need and Demand for Housing in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **The Role of the Private Rented Sector in Wales** (Saesneg yn unig) (2015)
- Ystadegau Cymru, **Adeiladu Tai Newydd** (2016)
- Ystadegau Cymru, **Amcangyfrifon Stoc Anheddau** (2016)
- Y Swyddfa Gymreig, Ystadegau Tai Cymru Rhif 2 1982 (Copi caled) (Saesneg yn unig) (1983)



# Yr amgylchedd a byd amaeth

- Newid yn yr hinsawdd
- Y Polisi Amaethyddol Cyffredin
- Rheoli'r perygl o lifogydd
- Ddyfodol ynni Cymru
- Cysylltu deddfwriaeth newydd
- Cynllun morol i Gymru
- Mynd i'r afael â TB buchol

# Newid yn yr hinsawdd

## *Gyda gwyddonwyr blaenllaw yn rhybuddio am effeithiau trychinebus posibl wrth i'n hinsawdd newid, a oes gan Gymru yr ymrwymiad, y ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi i weithredu?*

***Chloe Corbyn***

Rydym yn gwybod bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd. Mae tymereddau byd-eang wedi bod yn codi yn raddol ers dros ganrif, gan gyflymu yn y degawdau diweddar. Maent bellach wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd erioed. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys llifogydd a sychder, i'w gweld ledled y byd, ac mae'r rhain yn aml yn effeithio'n anghyfartal ar y gwledydd tlotach.

### Yr angen i weithredu

Os na fydd camau brys yn cael eu cymryd i leihau allyriadau carbon, mae arbenigwyr fel y **Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)** yn rhagweld y bydd ffigurau tymheredd byd-eang yn codi dros 4C yn y ganrif hon. Mae'r IPCC yn awgrymu ymhellach fod yna sicrwydd o dros 95% mai dylanwad dynol yw'r ffactor pennaf mewn cynhesu byd-eang ers canol yr ugeinfed ganrif.

Mae cysylltiadau cynyddol gryfach yn cael eu gwneud rhwng datblygu cynaliadwy a'r angen i ymateb i newid yn yr hinsawdd. Yn ystod 2015 a 2016, cafwyd cytundebau rhyngwladol arloesol ar y ddau beth hyn.

Cynhaliwyd unfed cynhadledd ar hugain Gwledydd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC) ym Mharis ddiwedd 2015. Y prif beth i ddeillio o'r gynhadledd oedd cytundeb rhwng y 197 **o wledydd** ar gyfyngu ar y cynnydd mewn tymheredd byd-eang. Gan ddefnyddio'r tymheredd yn y cyfnod cyn-ddiwydiannol fel man cychwyn, dylai unrhyw newid fod yn is o gryn tipyn na 2C. Cytunodd y gynhadledd ymhellach i geisio cyfyngu'r newid hyd yn oed yn fwy i 1.5C.

Gosododd **Cytundeb Paris** hefyd nod yn y tymor hir i gyfyngu allyriadau net i bron sero yn ail hanner y ganrif. Mae gan Gymru ran bwysig i'w chwarae wrth helpu'r DU i gyrraedd y targedau hyn.

Mae **Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**, a gytunwyd yn 2015, yn gosod agenda uchelgeisiol a thrawsnewidiol ar gyfer datblygu cynaliadwy dros y 15 mlynedd nesaf. O'r 17 o nodau datblygu cynaliadwy, mae 13 yn golygu gweithredu'n uniongyrchol ar newid yn yr hinsawdd. Yng Nghymru, mae ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** a ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** yn ymgorffori newid yn yr hinsawdd ac egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach. Drwy'r deddfau hyn, mae Cymru wedi ymrwymo i roi cynaliadwyedd, gwydnwch amgylcheddol a chyfrifoldeb byd-eang wrth wraidd pob penderfyniad a wneir.

### Perfformiad Cymru hyd yma

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd**, yn amlinellu targedau pwysig. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn o 2011 ym mhob maes sydd wedi'i ddatganoli, a sicrhau gostyngiad o 40% o leiaf yng nghyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020. Gwnaed cynnydd cyson o ran y targed blynyddol i ostwng

3% ar allyriadau, gyda'r amcangyfrifon ar gyfer 2014 yn dangos bod yr allyriadau hynny yn debygol o leihau ymhellach o gymharu â 2013.

Ni fu'r camau i gael gostyngiad o 40% yng nghyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 mor llwyddiannus. Rhwng 2012 a 2013, cododd yr allyriadau hyn 10%. Cafodd hyn ei briodoli yn bennaf i newidiadau mewn prosesau diwydiannol ac ynni, yn enwedig ailagor ffwrnais chwyth yng ngwaith dur Port Talbot a newid o nwy naturiol i ddefnyddio glo mewn gorsafoedd pŵer. Roedd y cynnydd yng Nghymru yn sylweddol uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn diffinio'r gwahanol fathau o allyriadau yng Nghymru. Er mwyn cyrraedd ei tharged erbyn 2020, bydd angen i allyriadau yng Nghymru leihau 28% eto rhwng 2014 a 2020. Mae hyn yn gofyn am gymryd rhagor o gamau, gan gynnwys camau i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd ac i gyflawni'r ymrwymiad tymor hir i leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050, fel y nodir yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*.

## Dull newydd o weithio

Bydd *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn newid sut mae Cymru'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a sut mae'n mesur hynny. Gan symud ymlaen o'r targed blynyddol (anstatudol) o gael gostyngiad o 3% y flwyddyn, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu lleihau. Mae hefyd yn cyflwyno dull cyllidebu carbon newydd i fesur i ba raddau y bydd allyriadau'n lleihau, gan gyfyngu ar gyfanswm y nwyon tŷ gwydr y gellir eu hallyrru dros gyfnod penodol. Ymhlith y dyletswyddau yn y Ddeddf, mae'r canlynol:

- rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod allyriadau net Cymru yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen (1990 neu 1995), a gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r targed hwn;
- erbyn diwedd 2018, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu targedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040;
- am bob cyfnod cyllidebol pum mlynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu cyfanswm uchaf ar gyfer allyriadau net Cymru (cyllideb garbon); a
- bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried cytundebau rhyngwladol sy'n cyfyngu ar faint y gall y tymheredd cyfartalog byd-eang godi.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y caiff Llywodraeth Cymru sefydlu corff cynghori ar newid yn yr hinsawdd. Gall y corff hwn roi cyngor ar dargedau interim, ar gyllidebau carbon ac ar unrhyw gamau ychwanegol y mae angen eu cymryd er mwyn cyrraedd y targedau a'r cyllidebau hyn.

O'i gyfuno â'r ymrwymiad o'r newydd i ddatblygu cynaliadwy a llesiant amgylcheddol yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, gallai'r dull newydd hwn o weithio helpu Cymru i fod ar flaen y gad wrth ddatblygu ffordd arloesol a blaengar o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb gweinidogion yr amgylchedd yn unig fydd hyn; mae gan y llywodraeth gyfan, busnesau, y sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector a dinasyddion gyfrifoldeb hefyd.

Mae angen gofyn cwestiynau hefyd ynghylch sut fydd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn llwyddo i leihau carbon ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r 7 o **nodau llesiant** sydd ynddi, a gallai fod yn anodd sicrhau lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar y naill law, a mynd i'r

afael â newid yn yr hinsawdd ar y llaw arall. Bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru hefyd ystyried sut i ymgorffori neges a dealltwriaeth gyson o'r camau y mae angen eu cymryd ar draws ei holl waith.

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*: Nodau llesiant

| | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar **newid yn yr hinsawdd**); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft **newid yn yr hinsawdd**). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang a'r gallu i addasu i newid (**newid yn yr hinsawdd**, er enghraifft). |

## Ffynonellau defnyddiol

- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd** (2010)
- UNFCC, **Cytundeb Paris ar Newid yn yr Hinsawdd** (2015)
- Y Cenhedloedd Unedig, **Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig** (gwefan) (Saesneg yn unig)
- Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd, **Pumed Adroddiad Asesu** (Saesneg yn unig) (2013-2014)

# Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

*Mae'r cymorth sydd ar gael drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn hanfodol i lawer o ffermydd a busnesau cefn gwlad. Sut mae'r polisi'n gweithio a pha newidiadau a allai fod ar y gorwel?*

***Nia Seaton***

Polisi cymorth fferm yr UE yw'r **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**.

Bydd ffermwyr Cymru yn cael **€322 miliwn** y flwyddyn mewn taliadau cymorth uniongyrchol erbyn 2019, tra bydd Llywodraeth Cymru yn cael **€355 miliwn** i gefnogi ei Rhaglen Datblygu Gwledig rhwng 2014 a 2020. Ym mis Mai 2009, roedd **Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif** mai'r PAC oedd i gyfrif am y gyfran fwyaf  o broffidioldeb y mwyafrif o fusnesau fferm. Felly, mae dyfodol y PAC a sut mae'n cael ei gyflwyno yng Nghymru yn fater o gryn bwys i'r sector amaeth ac i randdeiliaid eraill yng nghefn gwlad.

Er y gall dyfodol uniongyrchol y PAC fod yn llai perthnasol os bydd pobl y DU yn pleidleisio i adael yr UE, bydd trafodaethau am y cymorth sydd ar gael i ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru yn parhau'n bwnc pwysig.

## Sut mae'r PAC yn gweithio?

Mae'r PAC yn rhoi cymorth incwm uniongyrchol i ffermwyr, a chyllid datblygu gwledig i gymunedau a busnesau ar draws yr UE. Cafodd y polisi ei sefydlu'n wreiddiol ym 1962 i annog ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, ac mae wedi bod yn destun cyfres o ddiwygiadau sylweddol, gyda'r diweddaraf yn cael eu cwblhau yn 2014. Er gwaetha'r newidiadau hyn, mae'r polisi yn parhau'n un o ymrwymiadau ariannol mwyaf yr UE, gan ei fod i gyfrif am tua **40% o gyllideb yr UE**.

Mae'r PAC yn cynnwys dwy elfen wahanol, a chyfeirir yn aml at y rhain fel dwy 'golofn' y polisi. Mae'r golofn gyntaf yn rhoi cymorth incwm uniongyrchol i ffermwyr. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol. O dan y cynllun hwn caiff pob ffermwr cymwys daliad blynyddol os bydd yn cydymffurfio â nifer o amodau amaethyddol ac amgylcheddol sylfaenol. Caiff taliadau a wneir o dan golofn 1 eu hariannu'n llawn o gyllideb yr UE; caiff swm blynyddol ei roi i bob aelod-wladwriaeth, a bydd y gwledydd wedyn yn ei ddosbarthu i ffermwyr. Yn y DU, rhennir y swm hwn rhwng pedair gwlad y DU. Y gweinyddiaethau datganoledig sy'n gyfrifol am roi'r polisi ar waith yn eu tiriogaethau eu hunain.

Er bod yn rhaid i lywodraethau gydymffurfio â nifer o reolau sy'n gyffredin ledled yr UE ar sut ddylai'r arian gael ei ddosbarthu, maent hefyd yn cael rhywfaint o ryddid i dalu'r arian mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u hanghenion.

Mae colofn 2 yn rhoi arian yr UE i lywodraethau ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig. Mae'n ofynnol i'r llywodraethau ddarparu arian cyfatebol i gyd-fynd â'r arian hwn. Mae'r rhaglenni hyn yn cwmpasu cyfnod o saith mlynedd ac maent yn cynnwys amrywiaeth o gynlluniau cyllido gwahanol sy'n cefnogi busnesau fferm, gwelliannau amgylcheddol a chymunedau gwledig. Mae **Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol Cymru** yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2020 ac mae'n canolbwyntio ar wneud amaethyddiaeth Cymru yn fwy cystadleuol, ar gefnogi dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol ac ar gefnogi datblygiad economaidd cymunedau gwledig.

## Beth yw’r materion o bwys o ran y PAC 2014-2020?

Ers ei sefydlu bu’r PAC drwy gyfres o ddiwygiadau a oedd â’r nod o sicrhau bod y polisi yn canolbwyntio’n fwy ar y farchnad, yn fwy ffafriol i fasnach rydd ac yn fwy cyfeillgar i’r amgylchedd. Tuedda pob cylch y polisi i gwmpasu cyfnod o saith mlynedd i gyd-fynd â chyfnodau cynllunio ariannol yr UE. Mae’r cylch diweddaraf yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 2014 a 2020.

Mae’r **cylch diweddaraf o ddiwygiadau'n** cyflwyno nifer o newidiadau arwyddocaol i’r polisi. Mae’r rhain yn cynnwys:

- newid i system lle mae ffermwyr yn cael eu talu ar sail arwynebedd (ee faint o dir ffermio y maent yn berchen arno, yn hytrach na faint y maent wedi’i gynhyrchu’n hanesyddol);
- gofyniad ar ffermwyr i ymgymryd â nifer o gamau **‘gwyrdd'** cyn cael cymorth (camau sydd â’r nod o wella cyfraniad amgylcheddol ffermydd, fel ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gynnwys ardaloedd sydd â ffocws ecolegol ar eu tir);
- dulliau cymorth newydd i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid i’r diwydiant; a
- gofyniad ar y rhai sy’n ymgeisio am gymorth i brofi eu bod yn mynd ati i ffermio’r tir y maent yn berchen arno.

Bu’r newidiadau hyn yn hynod o gymhleth ac yn anodd i lywodraethau eu gweinyddu, ac mae ffermwyr wedi cael eu taliadau’n hwyr o ganlyniad. Maent wedi arwain at heriau cyfreithiol mewn rhai achosion.

Yng Nghymru, byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr yn draddodiadol yn disgwyl cael eu taliad blynyddol llawn o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Ar gyfer cylch taliadau 2015, fodd bynnag, mae ffermwyr wedi cael taliadau mewn dau randaliad ar wahân, a’u cael yn hwyrach nag arfer. Ar 8 Ebrill 2016, dim ond **75% o ffermwyr Cymru** a oedd wedi cael eu taliad llawn ar gyfer 2015. Nid yw’r sefyllfa hon yn unigryw i Gymru gan fod nifer o lywodraethau’n cael trafferth i ddosbarthu’r taliadau o dan y rheolau newydd.

Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod cymhlethdod y rheolau PAC presennol, ac mae Phil Hogan, y Comisiynydd Amaethyddiaeth, wedi cyflwyno **nifer o newidiadau i symleiddio’r rheolau**. Disgwylir y bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi rhagor o fesurau i’w symleiddio erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru ystyried y newidiadau hyn a phenderfynu sut fydd yn eu rhoi ar waith yng Nghymru.

## Beth nesaf i’r polisi?

Er mai cwta flwyddyn sydd ers cyflwyno’r PAC presennol, mae rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi eisoes yn dechrau sôn am ffurf y polisi ar ôl 2020. Cymerodd y dadleuon a’r trafodaethau ar y cylch diwethaf o ddiwygiadau fwy na thair blynedd i’w cwblhau. Os bydd y cylch nesaf o ddiwygiadau yn dilyn patrwm tebyg, bydd dogfennau ymgynghori ffurfiol a phapurau yn dechrau ymddangos ddechrau 2017, ond mewn gwirionedd mae trafodaethau ynghylch cyfeiriad y PAC yn y dyfodol eisoes wedi dechrau.

Mae’r farchnad wedi bod yn anwadal iawn, a ffermwyr yn yr UE wedi gweld prisiau’n tueddu i ostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyn wedi prysuro’r trafodaethau. Dros y deuddeg mis diwethaf, bu’n ofynnol i’r Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau nas gwelwyd o’r blaen ar ddau achlysur gwahanol i **gyflwyno pecynnau cymorth mewn argyfwng** ar gyfer sectorau ffermio pwysig.

Yng Nghymru, mae cyflwr y farchnad ehangach a'r profiad o fynd drwy'r cylch diweddaraf o ddiwygiadau wedi peri i **randdeiliaid alw** ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad i fod yn rhan o'r trafodaethau'n gynnar er mwyn sicrhau bod y PAC ar ôl 2020 yn darparu'n dda ar gyfer Cymru. Os bydd pobl y DU yn pleidleisio i adael yr UE, bydd rhanddeiliaid yn debygol o alw ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad i gynnal trafodaethau buan ynghylch y cymorth fydd ar gael i ffermwyr yn y dyfodol, ac i sicrhau bod busnesau fferm yn gallu ymdopi ag unrhyw newidiadau sydd i ddod.

## Ffynonellau defnyddiol

– Llywodraeth Cymru, **Cymunedau Gwledig: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** (gwefan)

– Llywodraeth Cymru (Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd), **Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS): Y Rhandaliadau Terfynol** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu dyfodol cadarn – Strategaeth newydd ar gyfer ffermio** (2009)

– Llywodraeth Cymru, **Y Diweddaraf am Daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)** (2016)

– Llywodraeth y DU, **UK CAP allocations announced** (Saesneg yn unig) (2013)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **Annual Budget 2016** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **European Commission activates exceptional measures to further support European farmers in crisis** (Saesneg yn unig) (2016)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **Greening** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **Simplification of the PAC** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **The CAP in your country** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– Y Comisiwn Ewropeaidd, **The PAC post-2013** (Saesneg yn unig) (gwefan)

– Y Gwasanaeth Ymchwil, **Ffordd ymlaen ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr yng Nghymru?** (2015)

– Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad** (2016)

# Rheoli'r perygl o lifogydd

## *Mae llifogydd yn fygythiad cyson i lawer o gymunedau ledled Cymru. Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn amddiffyn pobl ac eiddo rhag y difrod y mae llifogydd ac erydu arfordirol yn ei achosi?*

***Elfyn Henderson***

Mae rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn her barhaus. Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu ein bod yn debygol o gael tywydd difrifol yn amlach, a'i bod hefyd yn fwy anodd darogan hwnnw. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn nifer o gymunedau ledled Cymru.

### Y polisi

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, ac i raddau helaeth, hi sydd hefyd yn ariannu'r awdurdodau rheoli perygl i wneud gwaith i atal llifogydd ac erydu arfordirol. Yng Nghymru, yr awdurdodau hynny'n bennaf yw Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol.

Mae pedwar prif amcan i **strategaeth genedlaethol** y Llywodraeth ddiwethaf ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol:

– lleihau effaith llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;

– codi ymwybyddiaeth am y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, a thynnu sylw pobl at hyn;

– ymateb yn effeithiol ac yn barhaus i achosion o lifogydd ac erydu arfordirol; a

– blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Mae'r strategaeth yn cyfuno dulliau traddodiadol, fel draenio ac amddiffyn, gyda dulliau sy'n ceisio rheoli'r perygl.

Mae rheoli'r perygl yn golygu cydnabod nad yw'n bosibl atal pob achos o lifogydd ac erydu arfordirol, ond bod modd defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i reoli effaith hyn, yn aml drwy weithio gyda natur, yn hytrach nag yn ei erbyn. Er enghraifft, mae'r strategaeth yn awgrymu y dylid gwneud mwy o ddefnydd o ardaloedd fel gwlyptiroedd neu forfeydd heli a chanfod ardaloedd sy'n addas i'w gorlifo ac i storio dŵr. Mae hefyd yn golygu y dylai datblygiadau adeiladu gael eu cynllunio i wrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol, ac y dylid gwneud mwy o ddefnydd o **systemau draenio cynaliadwy**.

Gall rheoli'r perygl mewn ardaloedd arfordirol hefyd olygu peidio ag ymyrryd yn rhagweithiol neu adlinio'r traethlin drwy reoli'r broses honno. Ystyr adlinio o'r fath yw caniatáu i'r traethlin symud yn ôl neu ymlaen yn naturiol, ond gan reoli'r broses drwy gyfeirio'r modd y mae'n symud mewn ardaloedd penodol. Yn amlwg, gall fod yn anodd i gymunedau ac unigolion dderbyn polisïau o'r fath. Ym mis Hydref 2015, **dywedodd Carl Sargeant**, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, wrth y Pedwerydd Cynulliad:

> *Bydd newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd angen cefnogaeth tymor hir ar rai o'n cymunedau arfordirol ... wrth iddynt wynebu addasiadau sylweddol pan fydd lefel y môr yn codi ac wrth i'r risgiau sy'n gysylltiedig â bywyd ac eiddo ddod yn anghynaladwy.*

Mae'r dull strategol o reoli traethlin Cymru wedi'i amlinellu yn y pedwar **Cynllun Rheoli Traethlin,** un ar gyfer pob rhan wahanol o'r wlad.

## Adolygu llifogydd arfordirol 2014

Achosodd stormydd **mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014** ddifrod difrifol i lawer o arfordir Cymru, ac ni fydd y bobl sy'n byw yn y cymunedau a ddioddefodd waethaf fyth yn eu hanghofio. Bu llifogydd mewn dros 300 o dai ac amcangyfrifwyd bod gwerth £8.1 miliwn o ddifrod wedi'i achosi i amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol.

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, fodd bynnag, ni fu llifogydd mewn 74,000 o gartrefi ac adeiladau, er bod y potensial yno i hynny ddigwydd. Mae'n golygu bod llifogydd wedi effeithio ar lai nag 1% o'r eiddo a oedd mewn perygl. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod hynny oherwydd y blynyddoedd o fuddsoddi blaenorol mewn amddiffynfeydd arfordirol a'r gwaith a wnaed i'w cynnal a'u cadw.

Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru ati i wneud gwaith sylweddol i adolygu'r amddiffynfeydd yn dilyn y stormydd. Roedd yr adolygiad mewn dau gam – yn gyntaf, **aseswyd effaith y llifogydd**; yn ail, **gwnaed 47 o argymhellion** gyda'r nod o wella gallu Cymru i wrthsefyll llifogydd arfordirol mewn chwe maes:

– buddsoddi parhaus er mwyn rheoli'r perygl mewn ardaloedd arfordirol;

– gwybodaeth well am systemau sy'n amddiffyn rhag llifogydd arfordirol;

– mwy o eglurder ynghylch gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau ac awdurdodau;

– asesu sgiliau a chapasiti;

– mwy o gymorth i helpu cymunedau i wrthsefyll llifogydd yn well; a

– chyflwyno cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n lleol ar gyfer cymunedau arfordirol.

Dywedodd y Gweinidog ar y pryd y byddai 42 o'r 47 argymhelliad wedi'u rhoi ar waith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16 (mae'r pum argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â gwaith parhaus sydd heb derfyn amser penodol).

Ni fyddwn yn gwybod yn iawn pa mor effeithiol yw'r newidiadau hyn tan y tro nesaf y bydd tywydd garw yn taro'r amddiffynfeydd arfordirol o amgylch Cymru.

## Y cyllid

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, buddsoddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru tua £245 miliwn er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, cwtogwyd y cyllid ar gyfer hyn yn ogystal â chyllideb waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Pan holwyd ef gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad ym mis Ionawr 2016, dywedodd y Gweinidog ar y pryd ei fod yn **cydnabod y byddai'r toriadau yn rhoi pwysau ar Cyfoeth Naturiol Cymru** ac y byddai mwy o berygl i gymunedau gan fod llai o arian ar gael yn y system. Awgrymodd hefyd y byddai toriadau pellach i'r gyllideb yn gallu gwthio Cyfoeth Naturiol Cymru i fan lle y byddai'n rhaid iddo roi'r gorau i wneud gwaith penodol. Dywedodd:

> *I think there will come a time when NRW are pressured and they are unable to continue with some of the duties that they currently do. I don't believe it's now.*

Yn ddiweddarach, **ysgrifennodd Emyr Roberts**, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, at y Pwyllgor yn cadarnhau bod rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn faes lle y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gorfod gwneud arbedion a newidiadau i'w ffordd o weithio.

## Rhaglen newydd i reoli'r perygl

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru **raglen newydd gwerth £150 miliwn** i reoli'r perygl o erydu arfordirol – rhaglen sydd i fod i'w rhoi ar waith yn 2018. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac mae £3 miliwn eisoes wedi'i neilltuo i wneud gwaith paratoi. Ym mis Mawrth 2016, nododd Llywodraeth Cymru y gallai **Banc Buddsoddi Ewrop** fod yn ffynhonnell bosibl o gyllid ar gyfer y rhaglen.

Er bod y ffocws ar leihau'r perygl i gartrefi a busnesau, **dywedodd y Gweinidog ar y pryd** y bydd y rhaglen hefyd yn ceisio sicrhau manteision eraill yn ymwneud â'r economi, yr amgylchedd a lles.

Nid ydym yn gwybod llawer mwy o fanylion am y rhaglen ar hyn o bryd. Ni wyddom chwaith sut fydd y rhaglen yn cael ei hariannu na sut fath o brosiectau y bydd yn eu cefnogi.

## Ffynonellau defnyddiol

- Cyfoeth Naturiol Cymru, **Adroddiad Cam 1 Adolygu Llifogydd Arfordirol Cymru** (2014)
- Cyfoeth Naturiol Cymru, **Adroddiad Cam 2 Adolygu Llifogydd Arfordirol Cymru** (2014)
- Llywodraeth Cymru, **Buddsoddiad newydd o £150 miliwn i wneud amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol yn fwy cadarn** (2014)
- Llywodraeth Cymru, **Cynlluniau Rheoli Traethlin** (gwefan)
- Llywodraeth Cymru, **Diweddariad ar y Gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar Lifogydd yng Nghymru** (2016)
- Llywodraeth Cymru, **Manteision a Ddarperir drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** (2015)
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru** (2011)

  Y Gwasanaeth Ymchwil, **Ymdrin â dŵr wyneb: y safonau newydd ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (systemau SuDS)** (2016)
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Gohebiaeth Craffu ar Gyllideb 2016-2017** (2016)
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **trawsgrifiad cyfarfod Craffu ar Gyllideb 2016-2017, 21 Ionawr 2016** (2016)

# Dyfodol ynni Cymru

*Mae'r byd datblygedig yn symud oddi wrth ffynonellau ynni 'budr' a thuag at greu ynni mewn ffyrdd mwy amrywiol. Sut all Cymru ymateb i'r her hon?*

***Chloe Corbyn***

Mae cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd drwy leihau'n sylweddol faint o garbon a gaiff ei ryddhau i'r atmosffer yn un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r byd.

Y sector cyflenwi ynni yw un o'r allyrwyr nwyon tŷ gwydr mwyaf yng Nghymru. Os ydym am gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol a domestig i leihau allyriadau (gweler yr erthygl ar newid yn yr hinsawdd), un ffordd o symud i'r cyfeiriad cywir yw ystyried sut gaiff ynni ei gynhyrchu, ei gyflenwi a'i drosglwyddo. Mae hyn yn elfen hollbwysig wrth fynd i'r afael â'r broblem driphlyg sy'n ein hwynebu, sef beth sy'n fforddiadwy, sicrhau cyflenwad digonol, a sut mae rhyddhau llai o garbon.

## Cyd-destun Cymru

Mae ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** yn ymrwymo Cymru i allyrru 80% yn llai o nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Roedd y **rhestr ddiweddaraf o nwyon tŷ gwydr** yng Nghymru yn dangos bod cyflenwi ynni wedi cyfrannu 42% at gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr 2013. Prif ffynonellau yr allyriadau oedd gorsafoedd pŵer (76%) a phurfeydd olew (16%).

Os yw Cymru am newid i ddyfodol ynni glanach, gwyrddach a chynaliadwy, mae'n rhaid i ynni adnewyddadwy fod yn fwy blaenllaw. Mae'r Bil Cymru arfaethedig yn debygol o roi rhagor o bwerau cydsynio i Lywodraeth Cymru ar brosiectau ynni. Ar adeg pan fo llawer o brosiectau ynni mawr ar y gorwel, a rhai ohonynt yn destun cryn ddadlau, gallai'r Pumed Cynulliad fod yn drobwynt.

## Mater o gydbwysedd

Mae'r model ynni cyfredol yng Nghymru yn defnyddio cyfuniad o ffynonellau adnewyddadwy ac anadnewyddadwy. Nid yw dibynnu ar danwydd ffosil yn gynaliadwy yn y tymor hir, a bydd angen datblygu ffynonellau adnewyddadwy er mwyn cyrraedd **targedau Llywodraeth y DU a'r UE** ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn ogystal ag er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o danwydd ar gael.

Mae gan Gymru adnoddau naturiol helaeth, gan gynnwys daearyddiaeth a thopograffeg sy'n addas ar gyfer amrywiaeth eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae gwahanol safbwyntiau ynghylch i ba raddau y bydd angen denu mewnfuddsoddiad ar gyfer prosiectau ynni mwy yn y dyfodol, ynteu a fydd atebion lleol, ynghyd â chamau i arbed ynni, yn ddigon er mwyn i Gymru gael y rhan fwyaf o'r ynni sydd ei angen arni.

Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru wneud ei safbwynt yn glir tuag at gefnogi ar y naill law brosiectau mawr fel datblygiadau niwclear newydd, morlynnoedd llanw, ffermydd gwynt, gwelliannau i'r grid a rhyngysylltyddion, ac ar y llaw arall gynlluniau lleol a chymunedol fel prosiectau micro-hydro, ynni biomas, ynni haul a gwynt.

## Y fframwaith deddfwriaethol

Bydd sicrhau'r cyfuniad cywir o ynni yn y dyfodol yn hollbwysig i gyflawni'r ymrwymiadau ar newid yn yr hinsawdd a geir yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*, yn ogystal ag i gyflawni'r uchelgais ar gyfer datblygu cynaliadwy sydd yn ***Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***.

O dan ***Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015***, un newid pwysig yw cyflwyno categori newydd o ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu'n uniongyrchol ar geisiadau ar gyfer y datblygiadau hyn os ydynt yn brosiectau cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 50MW. Yn sgil newidiadau cyfreithiol diweddar a wnaed yn Lloegr, gall Llywodraeth Cymru benderfynu ar bob cais sy'n ymwneud â ffermydd gwynt ar y tir, waeth beth yw ei faint. Disgwylir y bydd y Bil Cymru arfaethedig yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar bob prosiect ynni mawr arall hyd at 350MW ar y tir ac ar y môr (Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar y rhain ar hyn o bryd).

## Polisïau Llywodraeth ddiwethaf Cymru

Yn 2012, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer ynni yn **Ynni Cymru: Newid carbon isel**. Yn 2015, cyhoeddwyd **Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol**, yn amlinellu agwedd y Llywodraeth at ynni lleol. Yn fwy diweddar, lansiodd Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, y **Gwasanaeth Ynni Lleol**. Nod y gwasanaeth hwn yw rhoi cymorth technegol ac ariannol i fentrau bach a chanolig, yn ogystal â mentrau cymdeithasol, i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.

## Trawsnewid y sefyllfa ynni

Cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad ddau ymchwiliad mawr yn ymwneud ag ynni. Roedd y cyntaf, **Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru**, yn ystyried sut mae trefniadau datganoli ar gyfer polisi ynni a chynllunio yn effeithio ar y gallu i gael y cyfuniad o ynni y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno'i weld yn y dyfodol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y sector ynni yn hanfodol bwysig i Gymru, a bod potensial enfawr ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yma.

Roedd yr ail ymchwiliad, **Dyfodol Ynni Craffach i Gymru?** yn adeiladu ar y gwaith hwn. Roedd ei argymhellion ar gyfer Llywodraeth newydd Cymru yn cynnwys y canlynol:

- mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth, a dylai'r polisi helpu Cymru i gael ei holl ynni domestig o ffynonellau adnewyddadwy;
- dylid rhoi pwys ar arbed ynni, ar leihau'r galw, ac ar ddefnyddio rheoliadau adeiladu wrth annog newid. Dylai Cymru hefyd achub ar gyfleoedd i ddylunio lleoedd mwy craff sy'n integreiddio seilwaith trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu mewn ffyrdd arloesol, a hynny'n gwella lles ac yn lleihau allyriadau carbon;
- gallai cymryd camau i arbed ynni yn y stoc dai bresennol wneud cyfraniad mawr, a bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru fel Nyth ac Arbed yn hollbwysig, tra dylid sefydlu **Cwmni Cyflenwi Ynni** di-elw yng Nghymru; a
- dylid sicrhau bod polisïau cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer polisi ynni'r dyfodol. Mae angen i bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol hefyd annog gostyngiadau mewn allyriadau carbon.

Barn y Pwyllgor oedd fod pawb yng Nghymru yn rhannu'r cyfrifoldeb dros newid i ddyfodol ynni craffach. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y fframwaith deddfwriaethol eisoes gennym i wneud hyn. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i Gymru, gyda hwb gan y Llywodraeth a phob sector arall, achub ar y cyfleoedd i newid ein hagwedd tuag at ynni unwaith ac am byth.

## Ffynonellau defnyddiol

- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Dyfodol Ynni Craffach i Gymru?** (2016)
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru** (2012)

# Dolenni cydiol deddfwriaeth newydd

## *Sut fydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cynllunio a Deddf yr Amgylchedd yn gweithio gyda'i gilydd?*

***Nia Seaton, Chloe Corbyn ac Elfyn Henderson***

Pasiodd y Pedwerydd Cynulliad dri darn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n perthyn i'w gilydd, sef ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***, ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** a ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.*** Mae'r tair Deddf yn gosod amrywiaeth o ddyletswyddau cynllunio, dyletswyddau adrodd a dyletswyddau datblygu polisi newydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus. Bydd cydlynu'r dyletswyddau gwahanol hyn yn fater o bwys i Lywodraeth newydd Cymru a'r Pumed Cynulliad.

### Diben y Deddfau

Diben *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl a gweithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy a hirdymor. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn creu fframwaith newydd ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Mae hefyd yn ceisio symleiddio prosesau cynllunio drwy ganiatáu i Lywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio penodol, ac yn cyflwyno proses statudol ar gyfer ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau arwyddocaol. Mae'r Ddeddf hefyd yn moderneiddio'r system gorfodi ym maes cynllunio.


Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn ymgorffori yn y gyfraith egwyddorion a pholisïau rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n cyflwyno dyletswydd newydd o ran bioamrywiaeth ac ecosystemau, yn gosod targedau a chyllidebau ar gyfer allyriadau carbon statudol, ac yn creu system trwyddedu morol newydd. Mae hefyd yn cynnwys pwerau dros bysgodfeydd a gwastraff ac yn ehangu pwerau Llywodraeth Cymru dros daliadau am fagiau siopa untro.

### Pwysigrwydd cydlynu

Dangosodd **adroddiad etifeddiaeth** Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad fod rhanddeiliaid yn parhau'n 'ansicr ynghylch y rhyngberthynas rhwng y tair deddf newydd a sut fyddant yn cael eu cyflwyno ar lawr gwlad'. Dywedodd y Pwyllgor fod yn rhaid i'r deddfau gael eu cyflwyno mewn ffordd gydlynol er mwyn iddynt lwyddo yn eu nod.

Mae'r ffeithlun isod yn nodi'r gwahanol ddyletswyddau adrodd, cynllunio a datblygu polisi y mae'r tair deddf yn eu gosod ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n ceisio dangos dau beth. Yn gyntaf, y dolenni cydiol a geir o fewn y ddeddfwriaeth, ac yn ail, y cysylltiadau y mae rhanddeiliaid wedi'u hawgrymu y dylid eu gwneud rhwng y gwahanol bolisïau ac adroddiadau. Mae'r saethau solet yn dangos cysylltiadau pendant yn y ddeddfwriaeth; nodir y cysylltiadau posibl a awgrymwyd gan randdeiliaid drwy ddefnyddio llinellau dotiog.

## Cysylltiadau rhwng Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Gynllunio a Deddf yr Amgylchedd



# Cynllun morol i Gymru


## *Mae Llywodraeth Cymru wedi cael pwerau i ddatblygu cynllun morol ers 2009, ond mae hi eto i fwrw'r maen i'r wal. Saith mlynedd yn ddiweddarach, a fydd cynllun morol yn cael ei fabwysiadu yn y Pumed Cynulliad?*

***Nia Seaton***

Mae moroedd tiriogaethol Cymru yn cwmpasu **rhyw 32,000 cilomedr sgwâr**, sy'n golygu bod ardal forol Cymru lawer yn fwy na'i thir. Mae moroedd Cymru yn bwysig oherwydd eu dylanwad amgylcheddol ac economaidd ill dau. Dyma foroedd ac ynddynt **129 o safleoedd cadwraeth natur forol** sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, tra'u bod hefyd yn cynnal gweithgarwch economaidd pwysig megis pysgota, y diwydiant llongau, twristiaeth ac ynni adnewyddadwy.

Ers nifer o flynyddoedd, mae rhanddeiliaid wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffordd fwy strategol o ofalu am yr amgylchedd morol, er mwyn rheoli gwahanol elfennau sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd. Cafodd Llywodraeth Cymru bwerau i ddatblygu cynllun morol o dan ***Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.*** Fodd bynnag, nid yw wedi mabwysiadu cynllun o'r fath hyd yma.

**Moroedd tiriogaethol Cymru**



## Beth yw cynllunio morol a pham fod hyn yn bwysig?

Mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* yn Ddeddf nodedig sy'n rhoi i weinyddiaethau ar draws y DU y gallu cyfreithiol angenrheidiol i fabwysiadu cynlluniau gofodol ar gyfer eu moroedd. Nod y Ddeddf yw annog dull mwy strategol o ddiogelu a datblygu'r amgylchedd morol. Gallai hyn warchod ardaloedd cadwraeth morol pwysig y DU yn ogystal â helpu'r gwledydd i fanteisio ar botensial economaidd y moroedd mewn ffordd gynaliadwy.

Pwrpas cynllun morol yw nodi ar sail ofodol yr amcanion strategol sydd gan lywodraeth ar gyfer ei moroedd, a nodi hefyd ble a sut y bydd yn rheoli gwahanol elfennau sy'n cystadlu â'i gilydd am adnoddau morol. Er enghraifft, gall cynllun nodi pa ardaloedd o'r môr fydd yn cael eu diogelu ar gyfer cadwraeth natur, pa ardaloedd fydd yn cael eu diogelu ar gyfer y sector pysgota a pha ardaloedd fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer ynni adnewyddadwy morol. Mae rhanddeiliaid o bob sector yn dadlau bod cynlluniau o'r fath yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn eu galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol.

## Beth yw'r sefyllfa yng Nghymru?

O dan Ddeddf 2009 mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau ar gyfer rhanbarth glannau Cymru (0-12 milltir fôr) a rhanbarth y môr mawr (o 12 milltir fôr at y ffin ag Iwerddon).

Dechreuodd y gwaith i **ddatblygu cynllun morol ar gyfer Cymru** yn 2011 pan aeth Llywodraeth Cymru ar y pryd ati i ymgynghori ar hyn. Y nod ar y cychwyn oedd cael fersiwn gyntaf y cynllun yn barod erbyn diwedd 2012 neu ddechrau 2013.

Cyhoeddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru **ddrafft cychwynnol o gynllun** ym mis Tachwedd 2015. Ymgynghorwyd a gwahoddwyd sylwadau anffurfiol ar hwn tan ddiwedd Ionawr 2016. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ei bwriad i ymgynghori'n ffurfiol ar gynllun drafft yn ddiweddarach yn 2016, gyda'r nod o gael cynllun terfynol yn barod erbyn diwedd 2016 neu ddechrau 2017.

Galwodd dau bwyllgor gwahanol yn y Pedwerydd Cynulliad, sef y **Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd** a'r **Pwyllgor Menter a Busnes**, ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i ddatblygu cynllun morol. Teimlai'r ddau bwyllgor mai cael cynllun o'r fath oedd y ffordd orau o sicrhau bod Cymru yn diogelu ei hamgylchedd naturiol ond hefyd yn manteisio i'r eithaf ar botensial ei heconomi forol.

Nododd **adroddiad cyntaf** y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn 2013 fod rhanddeiliaid yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn aml yn trin yr amgylchedd a'r economi forol fel rhywbeth atodol yn unig. Nododd **adroddiad etifeddiaeth** y Pwyllgor yn 2016 bryderon rhanddeiliaid bod y feddylfryd hon yn dal i barhau bedair blynedd yn ddiweddarach.

O ystyried pwysigrwydd y mater, awgrymodd yr adroddiad y gallai Aelodau'r Pumed Cynulliad graffu ar y cynnydd a wneir tuag at fabwysiadu cynllun, yn ogystal â chraffu ar sut fydd y cynllun yn cael ei weithredu maes o law.

## Ffynonellau defnyddiol

- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** (gwefan)
- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Drafft Cychwynnol (PDF 8.2MB)** (2015)
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Ymchwiliad i Bolisi Morol yng Nghymru**
- Y Pwyllgor Menter a Busnes, **Potensial yr Economi Forol yng Nghymru** (2016)

# Mynd i'r afael â TB buchol

## *Cymryd camau i fynd i'r afael â TB buchol yw un o'r prif flaenoriaethau i nifer o ffermydd. Pa benderfyniadau cynnar fydd yn wynebu Llywodraeth newydd Cymru yn hyn o beth?*

***Nia Seaton***

Oherwydd ei effaith sylweddol ar les anifeiliaid, lles ffermwyr a hyfywedd busnesau fferm, mae mynd i'r afael â TB buchol (twbercwlosis buchol) yn flaenoriaeth i'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Yn 2011, amcangyfrifodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Llywodraeth y DU **mai cost buchesi wedi'u heintio â TB buchol** yw £30,000 y fuches.

Mae'r **ystadegau diweddaraf** yng Nghymru yn dangos bod 8,103 o wartheg wedi cael eu difa yn 2015 o ganlyniad i'r clefyd, a bod 837 o fuchesi wedi'u heintio o'r newydd. Er bod y ffigurau hyn wedi lleihau ers eu hanterth yn 2009, mae'r niferoedd yn dal i fod yn sylweddol uwch nag oeddent 20 mlynedd yn ôl. Mae Llywodraethau blaenorol wedi mabwysiadu ystod o bolisïau i geisio dileu'r clefyd a bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru wneud penderfyniad cynnar ynghylch cyfeiriad ei pholisi hithau yn y maes hwn.


### Beth yw TB buchol?

Clefyd heintus a chronig a achosir gan Mycobacterium bovis (M. bovis) yw TB buchol a bydd fel arfer yn effeithio ar ysgyfaint a nodau lymff gwartheg. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwartheg wedi'u heintio yn gallu trosglwyddo'r clefyd cyn eu bod yn dangos arwyddion o fod yn sâl, a all fod sawl mis ar ôl iddynt gael eu heintio. Mae rheoli TB, felly, yn dibynnu ar ganfod a difa gwartheg wedi'u heintio cyn gynted â phosibl. Er mai gwartheg a moch daear yw'r prif anifeiliaid sy'n cario'r clefyd yn y DU, mae camelidau, ceirw, geifr ac anifeiliaid domestig hefyd yn gallu cael y clefyd.

### Pa mor gyffredin yw TB buchol yng Nghymru?

Mae'r graff yn dangos y newidiadau yn nifer yr achosion newydd o TB buchol mewn buchesi yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd diwethaf, yn ogystal â nifer y gwartheg a gafodd eu difa yn yr un cyfnod. Cyrhaeddodd yr achosion newydd mewn buchesi eu hanterth yn 2008-09 gyda thuedd gyffredinol ar i lawr ers hynny. Mae nifer y gwartheg sydd wedi eu difa hefyd wedi gostwng ers 2009, ond mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2015 yn dangos cynnydd yn y nifer a gafodd eu difa ers 2014.

TB buchol yng Nghymru: achosion newydd mewn buchesi a'r gwartheg a gafodd eu difa 2005-2015




### Pa bolisïau a strategaethau y mae Llywodraethau blaenorol wedi'u mabwysiadu?

Roedd gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru **Raglen Dileu TB buchol** a oedd yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol, gan gynnwys: profi buchesi yn flynyddol; ystod eang o fesurau rheoli gwartheg fel profion cyn eu symud; cyfyngiadau symud ar fuchesi wedi'u heintio; difa anifeiliaid wedi'u heintio; a

threialu brechu moch daear mewn rhai ardaloedd. Dwy o'r egwyddorion pwysig a oedd yn sail i'r rhaglen oedd cadw'r clefyd allan o ffermydd glân a chanfod haint yn gynnar.

Fel rhan o'r rhaglen hon, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Ardal Triniaeth Ddwys**, sef ardal 288 km sgwâr wedi'i lleoli yn bennaf yng ngogledd Sir Benfro, a hynny i brofi dulliau gwahanol o fynd i'r afael â'r cyflwr. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau rheoli gwartheg llymach a phrosiect peilot pum mlynedd i frechu moch daear. Roedd pumed blwyddyn y prosiect peilot ar fin dechrau yn ystod gwanwyn 2016, ond **ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** y byddai'r peilot yn cael ei ohirio flwyddyn yn gynnar, a hynny yn sgil problemau gyda chyflenwad byd-eang o'r brechiad a ddefnyddir i frechu moch daear.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru **waith modelu** i edrych ar effaith atal y cynllun peilot. Dangosodd y gwaith hwn na fyddai atal y prosiect flwyddyn yn gynnar yn cael effaith andwyol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd parhaus am gyflenwad y brechiad yn y dyfodol yn golygu bod brechu moch daear yn annhebygol o fod yn opsiwn ymarferol yn y tymor byr.

Yn 2011, pasiodd Llywodraeth Cymru ***Orchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011.*** Rhoddodd y gorchymyn hwn bwerau i Lywodraeth Cymru ddifa moch daear, os oedd yn dymuno gwneud hynny, yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Fodd bynnag, cafodd y gorchymyn hwn ei **ddiddymu yn 2012** gan John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, a hynny yn dilyn ei benderfyniad i gael polisi brechu moch daear yn lle hynny. Os bydd Llywodraeth newydd Cymru yn dymuno mynd ati i ddifa yn yr Ardal Triniaeth Ddwys neu mewn rhannau eraill o Gymru yn y dyfodol, bydd angen iddi sicrhau cefnogaeth ar gyfer gorchymyn newydd drwy'r Cynulliad.

Mae difa moch daear i ddileu'r clefyd yn y gwyllt wedi cael ei dreialu mewn rhannau eraill o'r DU ond mae hyn wedi bod yn bwnc llosg, gyda'r rhai sydd o blaid ac yn erbyn y polisi yn cyflwyno tystiolaeth a chanlyniadau gwyddonol gwahanol.

Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud i fonitro effeithiau'r polisi dileu yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Daeth **adroddiad ar y gwahaniaethau** rhwng yr achosion o TB buchol yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a rhannau eraill o Gymru i'r casgliad nad oedd, rhwng 2010 a 2015, unrhyw dueddiadau cyson i'w gweld yn nangosyddion TB buchol, ond mae angen rhagor o amser cyn y gellir canfod unrhyw 'wahaniaethau o bwys' rhwng y buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a'r Ardal Reoli. *Mae gweinyddiaethau'r DU hefyd wedi ariannu gwaith ymchwil i ddatblygu brechlynnau gwartheg a phrofion diagnostig mwy sensitif ar gyfer y clefyd.*

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd penderfyniadau ynghylch y polisi hwn yn flaenoriaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf. Yn ôl **adroddiad etifeddiaeth** Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad, dyma un o'r materion pwysicaf sy'n wynebu byd amaeth. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a fydd yn parhau â'r rhaglen bresennol i ddileu'r clefyd, ynteu a fydd yn bwrw ati mewn ffordd wahanol.

## Ffynonellau defnyddiol:

– Defra, **TB buchol** (Saesneg yn unig) (gwefan)


– Defra, **TB in Cattle in Great Britain - headline statistics dataset** (Saesneg yn unig) (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Rhaglen Dileu TB Buchol** (gwefan)

– Llywodraeth Cymru, **Ardal Triniaeth Ddwys** (gwefan)

# Diwylliant a'r Gymraeg

- Cymru ar y BBC
- Hyrwyddo'r Gymraeg



# Cymru ar y BBC

*Er gwaethaf llawer o lwyddiannau diweddar yn y diwydiant teledu a ffilm, mae Cymru yn dal i gael ei thangynrychioli yng nghynyrchiadau'r BBC. Pam mae hyn yn bwysig a beth allwn ni ei wneud am y peth?*

***Robin Wilkinson***

Mewn sawl ystyr, mae'r diwydiant teledu yng Nghymru yn mynd o nerth i nerth. Rhwng 2005 a 2014, cynyddodd trosiant y diwydiannau creadigol 17.5%, a chynyddodd nifer y bobl a gyflogir ynddynt 52.5% i 47,000 dros yr un cyfnod. Mae bwrlwm y gweithgaredd diweddar yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru wedi sbarduno datblygu stiwdios newydd, fel Pinewood yng Ngwynllwg a chyfleuster Porth y Rhath y BBC ym Mae Caerdydd.


## Twf yng ngwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru

Mae'r BBC wedi bod yn rhan bwysig o'r twf hwn. Yn 2006 gosododd y BBC darged iddi hi ei hun o fuddsoddi 17% o'i gwariant rhwydwaith cyffredinol yn y gwledydd datganoledig, yn fras yn unol â maint eu poblogaeth gyfunol. Yn 2014-15, sicrhaodd Cymru 7.8% – neu £59.1 miliwn – o wariant teledu rhwydwaith y BBC yn y DU, sy'n uwch na chyfran ei phoblogaeth o 4.9%.

Yn 2014 **dathlodd Rhodri Talfan Davies**, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales, y ffaith bod dau o allforion mwyaf y BBC – sef Doctor Who a Sherlock – bellach yn cael eu gwneud yng Nghymru. Nid oes amheuaeth bod hyn yn newyddion gwych i lawer o bobl a gaiff eu cyflogi ar y cynyrchiadau hyn, heb sôn am yr effaith ehangach ar economi Cymru, ond beth maent yn ei ddweud wrthym am Gymru?

## Portread o Gymru ar y BBC: maint y broblem

Rhwng 2006-7 a 2014-15, mae gwariant BBC Cymru Wales ar gynhyrchu teledu Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru wedi gostwng o £24.6 miliwn i £20.8 miliwn: gostyngiad o tua 30% mewn termau real. Mae'r gostyngiad hwn mewn cyllid wedi arwain at sefyllfa lle mae llawer o randdeiliaid yng Nghymru yn pryderu am y diffyg portread o Gymru ar raglenni'r BBC. Er bod y cynnydd yn y gwariant ar rwydwaith y BBC yng Nghymru wedi cael ei groesawu, nid oes unrhyw ogwydd Gymreig ar y rhaglenni hyn. Mae Sherlock, er enghraifft, wedi ei gosod yn Llundain, er mai yng Nghaerdydd y caiff ei ffilmio.




A yw hyn yn bwysig? Roedd tystion Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad i **ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC (2015-16)** yn sicr yn credu hynny. Dywedodd Dr John Geraint o Green Bay Media fod teledu Saesneg yng Nghymru wedi'i erydu i'r fath raddau nad yw bellach yn cynrychioli bywyd cyflawn y genedl.

Mae rôl y BBC yn y cyfryngau yng Nghymru yn fwy dylanwadol fyth oherwydd diffyg sector masnachol cryf a all wneud iawn am unrhyw brinder yng ngweithgarwch y BBC. Er enghraifft, mae Ofcom **wedi nodi** fod diffyg cyfryngau print cynhenid cryf yng Nghymru yn wrthgyferbyniad llwyr i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r diffyg cyfryngau Cymreig hwn wedi creu sefyllfa lle nad oes gan bobl Cymru,

**fel y dangosodd gwaith ymchwil diweddar**, yn aml ddigon o wybodaeth am sut mae gwleidyddiaeth ddatganoledig yn effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Bu i'r Arglwydd Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, gydnabod y broblem **mewn derbyniad yn y Cynulliad** yn 2014. Cyfaddefodd fod nifer y rhaglenni Saesneg gan Gymru ac ar gyfer Cymru wedi bod yn dirywio ers bron i ddegawd. Tra'n cydnabod rôl ITV Cymru yn hyn, cydnabu fod cynnyrch y BBC yng Nghymru wedi 'cael ei erydu'.

Mae consensws eang am natur y broblem – gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru, gan randdeiliaid fel y Sefydliad Materion Cymreig, a chan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ei hun. Ond beth all unrhyw un ei wneud am y peth?

## Datrys y broblem

Mae'r Prif Weinidog **wedi galw am £30 miliwn ychwanegol y flwyddyn** ar gyfer y BBC yng Nghymru, gan hawlio bod perygl y bydd cynulleidfaoedd Cymru, heb y cyllid hwn, yn cael y fargen waethaf o unrhyw wlad yn y DU. Cymeradwyodd y Sefydliad Materion Cymreig yr alwad hon yn ei **Archwiliad i'r Cyfryngau yn 2015**. Mae Rhodri Talfan Davies wedi dweud bod rheolwyr y BBC yn barod i ystyried y ceisiadau hyn am arian ychwanegol, ond ni wyddom eto sut mae'r parodrwydd hwn yn trosi'n arian ychwanegol.

Cyllido BBC Cymru Wales yw un ochr y geiniog: beth am y £59.1 miliwn o wariant rhwydwaith y mae'r BBC yn ei fuddsoddi yng Nghymru bob blwyddyn? Nododd tystion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fod y penderfyniadau comisiynu mawr yn dal i gael eu gwneud yn Llundain, er gwaethaf y nifer cynyddol o gynyrchiadau rhwydwaith a gaiff eu gwneud yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor mai canlyniad hyn yw bod rhagfarn Lundeinig lwyr yn atal uwch-swyddogion y BBC rhag comisiynu rhaglenni rhwydwaith sy'n ymdrin â materion Cymru ac yn adlewyrchu materion penodol Gymreig.

Awgrymodd y Pwyllgor welliannau mewn dau faes pwysig i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn gyntaf oll, teimlai y dylai'r BBC ddatganoli ei threfniadau comisiynu er mwyn gwneud mwy o benderfyniadau mawr yng Nghymru. Yn ail, teimlai y dylai'r BBC osod targedau iddi hi ei hun ar gyfer portreadu Cymru yn ei chynyrchiadau rhwydwaith, a chyflwyno adroddiad ar y rhain yn flynyddol.

## Yr her yng Nghymru

Y cam nesaf yn y broses o adnewyddu Siarter y BBC yw i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei Phapur Gwyn. Disgwylir hwn, ar hyn o bryd, ar ôl mis Mehefin 2016. Bydd y papur yn amlinellu sut mae'r BBC yn bwriadu rhoi sylw i Gymru yng nghyfnod y Siarter nesaf. Mae'r BBC yn rhagweld toriad o 10% mewn termau real yn ei chyllideb, rhwng 2017-18 a 2021-22, ac mae gwledydd a rhanbarthau eraill y DU yn galw am arian ychwanegol hefyd. Yr her i wleidyddion yma fydd llunio dadl unigryw yn dangos pam mai ar Gymru y mae'r angen mwyaf am ragor o arian.

## Ffynonellau defnyddiol


– Davies, Rhodri Talfan, **The BBC's role in Wales today** (Saesneg yn unig) (2014)

– Hall, Tony, **Derbyniad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** (2014)

– Llywodraeth y DU, **BBC Charter Review** (Saesneg yn unig) (2015)

– Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, **Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC** (2016)

– Y Sefydliad Materion Cymreig, **IWA Wales Media Audit 2015** (Saesneg yn unig) (2015)

# Hyrwyddo'r Gymraeg

*Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i hyrwyddo'r Gymraeg. Ond a yw'r ffordd y mae hi'n gwneud hynny'n gweithio?*

***Rhys Iorwerth***

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, ymrwymodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru i gryfhau lle'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd. Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn ergyd gynnar i'r nod hwnnw, ac mae beirniaid yn dal i gwestiynu a yw'r ymdrechion i gefnogi'r iaith yn dwyn ffrwyth.

## Y strategaeth

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Iaith fyw: iaith byw.** Strategaeth bum mlynedd oedd hon i hyrwyddo'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Ond er mwyn ymateb i ffigurau'r Cyfrifiad, cyhoeddodd y Prif Weinidog **gyfres newydd o flaenoriaethau** yn 2014. Roedd y blaenoriaethau hyn ar gyfer y tair blynedd dilynol, ac yn canolbwyntio ar gael pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn eu cymunedau a'u bywydau bob dydd.

I fwrw'r maen i'r wal, aeth y Llywodraeth ati i ailflaenoriaethu sut yr oedd yn gwario arian yn y maes. Penderfynodd gwtogi'r gyllideb ar gyfer rhaglenni fel Cymraeg i oedolion, a buddsoddi yn hytrach mewn **canolfannau iaith** newydd, yn y **Mentrau Iaith**, ac mewn prosiectau i annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Er i rai o'r camau hyn gael croeso, roedd pryder o ambell du nad oedd y Llywodraeth wedi bod yn ddigon clir ynglŷn â'r dystiolaeth a ddefnyddiodd i newid ffocws, nac am y canlyniadau penodol yr oedd yn disgwyl i'r camau newydd hyn eu cyflawni.

### Cyfrifiad 2011

Dangosodd ffigurau Cyfrifiad 2011 fod canran y bobl yng Nghymru a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 20.8% yn 2001 i 19% yn 2011.

Gostyngodd nifer siaradwyr y Gymraeg hefyd – o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011.

Mater o bryder i ymgyrchwyr iaith oedd fod y gostyngiadau mwyaf yn y cadarnleoedd traddodiadol.

Aeth Cymdeithas yr Iaith mor bell â **chystwyo'r Llywodraeth am ei diffyg brys wrth ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad**, yn ogystal â'i diffyg cynnydd 'syfrdanol' ym 'mhob maes polisi yn gysylltiedig â'r iaith'. Mae Dyfodol i'r Iaith hwythau wedi galw am **sefydlu corff hyd braich** i hyrwyddo'r Gymraeg, gan farnu y gallai asiantaeth o'r fath ddod o hyd i ffyrdd mwy creadigol ac arbrofol na gweision sifil o wneud hynny.

Bydd asesu llwyddiant y strategaeth ddiwethaf, yn ogystal â datblygu strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod ar ôl 2017, yn rhywbeth y bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru roi sylw iddo'n fuan.

## Y gyllideb

Rhan ganolog o unrhyw strategaeth iaith yw'r arian sydd ar gael i'w gweithredu. Er iddi ailflaenoriaethu gwariant yn y maes, torrodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru gyfanswm y cyllid ar gyfer y Gymraeg yn gyson yn ei chyllidebau blynyddol.

Arweiniodd hyn at feirniadaeth benodol pan graffodd y Cynulliad ar **gyllideb ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2016-17**. Gan fod cyfanswm y gyllideb honno wedi cynyddu mewn termau real, aeth grwpiau ymgyrchu ati i gondemnio'n hallt y gostyngiad o 5.9% yn y cyllid i hyrwyddo'r Gymraeg (a adawodd gyfanswm o £25.6 miliwn yn y gronfa honno).

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn awyddus i roi sylfaen gref i'r iaith, ond mynnodd nad oedd cyllid ar ei ben ei hun am warantu y byddai'r Gymraeg yn ffynnu.

Honnodd sawl un, fodd bynnag, fod y gostyngiadau'n anghyson ag amcanion polisi'r Llywodraeth ac y byddent yn cael effaith bellgyrhaeddol a niweidiol ar y gwaith a wneir i hyrwyddo'r iaith. Yn nhyb llawer, roedd y cwtogi'n arwydd o ddiffyg cynllunio strategol dros y tymor hir.

### Arolwg 2013-15

Rhoddodd **Arolwg Defnydd y Gymraeg 2013-15** rywfaint o newyddion da i'r iaith.

O'i gymharu ag arolwg tebyg a gynhaliwyd rhwng 2004 a 2006, roedd yn dangos bod 131,000 yn fwy o bobl ledled Cymru yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Bu cynnydd nodedig mewn ardaloedd fel Caerdydd a Rhondda Cynon Taf.

Fodd bynnag, yn yr ardaloedd gyda'r gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg (Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn nifer y siaradwyr rhugl.

Roedd pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn yr ysgol na gyda'u ffrindiau neu gartref.

## Y ddeddfwriaeth

Elfen arall yn y fframwaith sy'n cefnogi'r Gymraeg yw'r system statudol o safonau iaith sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd.

Y safonau yw un o brif elfennau ***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*** Bydd yn rhaid i wahanol gyrff gydymffurfio â'r rhain yn raddol, a'r bwriad yw y bydd y safonau yn ei gwneud yn fwy eglur i bobl pa hawliau ieithyddol sydd ganddynt a pha wasanaethau Cymraeg y gallant ddisgwyl eu cael gan wahanol sefydliadau.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am greu'r safonau, a thasg Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â hwy. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y naill a'r llall yn anfodlon â sut mae Mesur 2011 yn gweithio yn hyn o beth.

Mae'r Comisiynydd wedi dweud yn gyhoeddus ei bod yn bryd cryfhau a symleiddio'r prosesau sydd yn y ddeddfwriaeth, tra bo'r Prif Weinidog hefyd wedi cydnabod y bydd angen edrych o'r newydd ar ddarnau o'r Mesur ar ôl etholiad 2016. Amser a ddengys a fydd Llywodraeth newydd Cymru yn bwrw yn ei blaen i wneud hyn.

## Y system addysg

Ers tro byd, mae'r system addysg wedi bod yn rhan bwysig o'r ymdrechion i gryfhau'r Gymraeg, gyda Llywodraeth Cymru yn lansio **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** yn 2010 i geisio gwella'r broses gynllunio yn y maes ar gyfer pob oedran.

Roedd y strategaeth honno'n gosod targedau pum mlynedd ond methwyd â chyrraedd nifer o'r rheini. Yn wir, dangosodd **gwerthusiad o'r strategaeth ym mis Mawrth 2016** nad oedd y weledigaeth a oedd yn sail iddi wedi cael ei 'gwreiddio mewn ffordd gyson ar draws yr holl bartneriaid gweithredu'.

Fel rhan o'r strategaeth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu'r hyn a elwir yn Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Dywedodd **adroddiad ym mis Rhagfyr 2015** gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad nad oedd y cynlluniau hyn wedi cyflawni eu potensial, a bod angen dirfawr am well perthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y maes.

## Y camau nesaf

Erbyn i bobl Cymru lenwi eu ffurflenni Cyfrifiad nesaf n 2021, bydd y Pumed Cynulliad yn dirwyn i ben. Hwn fydd y cyfle mawr nesaf i gael data cymharol am gyflwr y Gymraeg. Gallai'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y cyfamser – ym mhob un o'r meysydd uchod – fod o'r pwys mwyaf.

## Ffynonellau defnyddiol


– Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, **Miliwn o siaradwyr Cymraeg: Gweledigaeth o 2016 ymlaen** (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Iaith fyw: iaith byw** (2012)

– Llywodraeth Cymru, **Iaith fyw: iaith byw – Bwrw Mlaen** (2014)

– Llywodraeth Cymru, **Iaith byw: iaith fyw: Cynllun Gweithredu 2016-17** (2016)

– Llywodraeth Cymru, **Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** (2016)

– Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: **Arolwg Defnydd y Gymraeg 2013-15** (2015)

– Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** (2010)

– Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (2015)